Mae digwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o ddigwyddiadau ar draws Sir Fynwy wedi gweld cynnydd a gostyngiadau o 2018 i 2021, gan ostwng o 1044 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2018/19 i 946 yn 2019/20 ond yn cynyddu'n sylweddol i 1135 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 19/20 - cynnydd o 20% ar draws y sir. Niwsans fu'r dosbarthiad mwyaf cyffredin o YGG yn Sir Fynwy yn ystod y cyfnod diweddaraf, gan gyfrif am 53% o'r holl ddigwyddiadau. Mae digwyddiadau personol wedi cyfrif am 15% ac mae digwyddiadau amgylcheddol wedi cyfrif am 15% o'r holl ddigwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â Covid-19.

Y flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn Sir Fynwy oedd Ebrill 2019 – Mawrth 2020, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd cynnydd nodedig mewn tanau sbwriel bwriadol a galwadau diangen awtomatig a maleisus. Ond, gan nad yw'r data hwn yn

gyfredol, a chyn-Covid yn arbennig, bydd angen i drafodaeth lawnach aros i ddata pellach gael ei ryddhau.⁸²

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)


Mae Troseddau Domestig yn Sir Fynwy wedi dangos cynnydd cyson ers Ionawr 2019. Ym mis Tachwedd 2021, y cyfartaledd dwy flynedd oedd 118 trosedd y mis. Credir bod Covid-19 wedi lleihau nifer y troseddau domestig yr adroddwyd amdanynt ond nid yw'r data isod o reidrwydd yn ategu hyn, gyda dim ond gostyngiad o 1% yn y troseddau domestig misol cyfartalog a gofnodwyd yn 2021, o gymharu â 2020.



Gallai'r cynnydd mewn troseddau yn 2021 fod o ganlyniad i'r anogaeth gan Heddlu Gwent ac asiantaethau partner eraill i ddioddefwyr ddod ymlaen ac adrodd. Gallai hefyd fod oherwydd gallu dioddefwyr i gael amser i ffwrdd oddi wrth y troseddwr i allu hysbysu am y drosedd wrth i bobl fynd yn ôl i weithio.

Ymosod Cyffredin a Churo yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin domestig a gofnodwyd yn Sir Fynwy. Dros y tair blynedd diwethaf mae wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn ogystal â'r drosedd Dilyn Cyfres o Ymddygiadau Sy'n Gyfystyr â Mynd ar Drywydd Rhywun, tra bod troseddau Ymosod gan Achosi Niwed Corfforol Gwirioneddol ac Aflonyddwch wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf. Cynyddodd Troseddau o Ymddygiad Rheolaethol neu Gymhellol mewn Perthynas Bersonol neu Deuluol 40% yn 2021.

Mae troseddau domestig a gofnodwyd yn Sir Fynwy yn y tair blynedd diwethaf wedi bod yn fwy cyffredin yn y Fenni. Mae pob ardal ac eithrio Trefynwy wedi gweld gostyngiad yn y troseddau a gofnodwyd yn 2021, gan edrych ar droseddau cyfartalog y mis ar gyfer pob ardal dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r Fenni yn cyfrif am 30% o'r troseddau cyfartalog y mis, Trefynwy 24%, Cil-y-coed 23% a Chas-gwent 22% o'r troseddau cyfartalog y mis. Mae'n bosibl bod y gostyngiad mewn troseddau oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau yn ystod y cyfnod hwnnw.



Bu mwy o ddynion yn cyflawni troseddau domestig nag o fenywod dros y tair blynedd diwethaf, er bod nifer y troseddwr benywaidd a nodwyd bob mis ar gyfartaledd wedi cynyddu ychydig o flwyddyn i flwyddyn ers 2019. Roedd cynnydd sylweddol mewn troseddau benywaidd ym mis Ebrill 2020, sef mis cyntaf y cyfnod clo. Dros y tair blynedd diwethaf, y categori oedran mwyaf cyffredin o droseddwr cam-drin domestig yn gyffredinol yn Sir Fynwy yw 22-60 oed. O fewn hyn, yr ystodau oedran 31-40 oed a 41-50 oed sy'n peri'r pryder mwyaf, gan eu bod wedi dangos cynnydd sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r ystod oedran 71-80 oed hefyd yn peri pryder, a welodd gynnydd enfawr o dros 50% mewn dim ond 11 mis yn 2021, o'i gymharu â data 12 mis llawn y flwyddyn flaenorol.

Er bod tuedd gynyddol bryderus o droseddau domestig yn Sir Fynwy, gallai hyn ddangos bod mwy o ddioddefwyr yn dod ymlaen i'w hadrodd. Mae hefyd yn amlygu'r angen am sylw gan yr holl bartneriaid i gefnogi ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

Iechyd Meddwl

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	-----------------	-----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Yn 2015, dywedodd 11% o oedolion yn Sir Fynwy eu bod yn cael eu trin am salwch meddwl ar hyn o bryd.⁸³ Mae strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' Llywodraeth Cymru yn adrodd bod un o bob pedwar oedolyn yn profi problemau iechyd meddwl neu salwch ar ryw adeg yn ystod eu hoes a bydd un o bob chwech ohonom yn profi symptomau ar unrhyw un adeg. Ar adeg o ddirwasgiad a'r pandemig, pan fydd lefelau straen a phryder yn anochel yn codi, bydd mwy o bobl yn cael eu heffeithio, ac mae cyfraddau hunanladdiad yn debygol o gynyddu.

Yn aml, cymunedau mwy difreintiedig sydd â'r ieched meddwl a'r llesiant gwaethaf. Yn aml gall problemau gael eu trosglwyddo drwy genedlaethau a gallant barhau â chylchredau anghydraddoldeb. Mae llawer o broblemau ieched meddwl yn cychwyn yn gynnar mewn bywyd, a gallant fod o ganlyniad i amddifadedd gan gynnwys tlodi, ymlyniadau ansicr, ysgytwad, colled neu gamdriniaeth. Gellir gweld hyn yn nata MALIC 2019, gyda'r lefelau uchaf o gyflyrau ieched meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu yn Sir Fynwy i'w gweld yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn Sir Fynwy gyfan, cyfradd cyflwr ieched meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu yw'r 9^{fed} isaf o bob un o'r 22 awdurdod lleol.⁸⁴

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio WEMWBS (Graddfa Lles Meddyliol Warwig-Caeredin) i werthuso ieched meddwl. Sgoriodd Sir Fynwy 51.7 yn 2018/19, cynnydd bach o sgôr 2016/17 o 51.3, a'r 8^{fed} uchaf yng Nghymru. Mewn cymhariaeth, sgôr Cymru yn 2018/19 oedd 51.4. Mae'r pandemig hefyd wedi gwneud pobl yn agored i lefelau uwch o straen a phryder, yn ogystal â phrofedigaethau, ynghyd â chyfyngiadau mynediad at fecanweithiau ymdopi, megis gweld anwyliaid, neu ymarfer corff, felly mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn uwch nawr. Bydd y pandemig hefyd wedi cael effaith ar allu pobl yn Sir Fynwy a ledled Gwent i gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Mae effeithiau lles ieched meddwl yn cael eu harchwilio'n fwy cyffredinol yn Asesiad Llesiant Gwent.

Pa bethau sy'n bwysig i chi?

“Grwpiau cymorth i bobl o bob oedran ac anghenion gwahanol – cymorth gwell i'r cenedlaethau hyn – yn ymwneud gyda'u hieched corfforol, lles ac ieched meddwl”

Roedd data a gasglwyd fel rhan o'r Cyfrifiad Plant mewn Angen yn dangos bod rhiant yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol yn bresennol yn chwarter y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol plant Sir Fynwy, ac roedd gan 42% o blant riant â phroblem ieched meddwl.⁸⁵

Iselder yw'r anhwylder ieched meddwl mwyaf cyffredin ym Mhrydain, yn ôl y Sefydliad Ieched Meddwl. Mae'r Rhwydwaith Gwasanaethau Gwledig yn tynnu sylw at dystiolaeth sy'n awgrymu ei bod yn debygol bod ieched meddwl yn well mewn ardaloedd gwledig.⁸⁶ Fodd bynnag, maent hefyd yn dod i'r casgliad bod nifer o ffactorau sy'n benodol i ardaloedd gwledig megis demograffeg, mynediad at wasanaethau, allgáu cymdeithasol ac amddifadedd a allai gyfrannu at straen, pryder ac iselder. Mae gan rai galwedigaethau gwledig – gan gynnwys ffermio – gyfraddau hunanladdiad uchel. O ystyried y nifer fawr o fusnesau ffermio yn Sir Fynwy, gall hwn fod yn fater o bwys.

Mae'r data diweddaraf gan SYG yn adrodd mai cyfradd hunanladdiad Cymru yn 2020 oedd 10.3 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth, gyda 79% ohonynt yn ddynion.⁸⁷ Yng Nghymru, y gyfradd hunanladdiad oedd 11.8 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth rhwng 2018-2020, gyda 964 o farwolaethau. Yn Sir Fynwy dros yr un cyfnod, roedd y gyfradd ychydig yn uwch na'r gyfradd yng Nghymru, sef 12.0. Mae angen bod yn ofalus wrth ddechongli data hunanladdiad, yn

enwedig amrywiadau blynyddol, oherwydd gall y niferoedd bach, oedi wrth gofrestru a gwahaniaethau mewn cofnodi arwain at gyfraddau annibynadwy.

Unigrwydd ac Ynysigrwydd

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall unigrwydd ac ynysu cymdeithasol effeithio'n sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol.⁸⁸ Gall ffactorau gwahanol roi unigolion mewn mwy o berygl, gan gynnwys trawsnewidiadau bywyd mawr, nodweddion personol, a chyflyrau iechyd, ond gall effeithio ar yr hen a'r ifanc, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol.

“Mae meddu ar berthynas gymunedol ag ysgol gynradd yn hanfodol. Mae gweithgareddau cymunedol ar gyfer pobl hŷn yn hanfodol er mwyn osgoi teimladau o unigrwydd”

Poblogaeth gynyddol hŷn yw'r ffactor unigol mwyaf arwyddocaol yn nifer yr achosion cynyddol o ynysu gwledig. Fel y disgrifir yn yr adran 'Heneiddio'n Dda', mae gan Sir Fynwy boblogaeth sy'n heneiddio.

O Gyfrifiad 2011, roedd 5,515 o bobl 65 oed a hŷn yn Sir Fynwy yn byw ar eu pen eu hunain.⁸⁹ Mae gan ardaloedd gwledig set unigryw o amgylchiadau a all waethygu ynysu cymdeithasol trigolion hŷn, gan arwain at iechyd gwael, colli annibyniaeth ac ansawdd bywyd is. Mae llai o drafnidiaeth gyhoeddus wledig ar gael, mwy o ddibyniaeth ar berchenogaeth ceir a chynnydd yng nghostau tanwydd i gyd yn effeithio ar ynysu gwledig. Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth gadw pobl hŷn mewn cysylltiad â chymunedau a gwasanaethau lleol ond hefyd â theulu a ffrindiau. Gall methu â mynd allan oherwydd diffyg trafnidiaeth arwain at bobl hŷn yn colli annibyniaeth, gan arwain at deimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd.⁹⁰

Mae unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn cael ei waethygu gan bellter oddi wrth aelodau'r teulu. Mae ffactorau megis tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth yn cynyddu'r pwysau ar deuluoedd i wasgaru. Fel yr archwiliwyd ymhellach yn yr adran 'Tai', mae pwysau o'r fath yn sylweddol yn Sir Fynwy. Mae'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn datgan bod pobl hŷn sy'n gweld eu plant unwaith y mis neu lai ddwywaith yn fwy tebygol o deimlo'n unig na'r rhai sy'n dod i gysylltiad dyddiol â'u plant.⁹¹

Mae cysylltedd band eang yn parhau i fod yn broblem i Sir Fynwy. Ac eithrio Powys, y sir sydd â'r gyfran isaf o eiddo â band eang Cyflymu'r DU yng Nghymru, a'r gyfran isaf o eiddo â band eang Cyflymu'r UE.⁹² Yn gyffredinol, mae argaeledd Cyflymu'n 87% yn Sir Fynwy, o gymharu â 94% ar gyfer Cymru, sy'n adlewyrchu natur wledig y sir.⁹³ Yn 2019, roedd gan y sir gyfradd amddifadedd digidol o 12.5% (tua 8,000 o adeiladau), ond mae gwaith wedi parhau i osod band eang ffeibr gwell mewn ardaloedd yn ne Cymru, gan gynnwys Sir Fynwy.⁹⁴ Serch hynny, o ystyried poblogaeth oedrannus a gwledig y sir, a'r ffaith mai aelwydydd pensiynwr sengl yw'r lleiaf tebygol o fod â mynediad i'r rhyngwrdd (51%), mae'n debygol bod allgáu digidol yn effeithio ar lawer o drigolion yn Sir Fynwy ar hyn o bryd.⁹⁵

Mae hygyrchedd siopau pentref lleol a gwasanaethau fel swyddfeydd post yn aml yn gweithredu fel canolbwyntiau cymunedol ac yn darparu lle ar gyfer rhyngweithio dyddiol. Yn 2020/21 cytunodd tri chwarter o drigolion Sir Fynwy fod ganddynt deimlad o berthyn i'w hardal leol.⁹⁶

Tai

Mae ansawdd eu cartref a'r amgylchedd lle y maent yn byw yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd person. Mae tai gwael yn gysylltiedig â risg uwch o glefydau cardiofasgwlaidd, clefydau anadlol ac iselder a phryder, tra bod y rhai â chyflyrau iechyd meddwl unwaith a hanner yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.⁹⁷ Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae cyflwr tai Cymru wedi gwella ond mae sawl ffactor yn dal i effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n profi anfantais gymdeithasol neu economaidd, gan gynnwys digartrefedd, tlodi tanwydd, tai anfforddiadwy, a diffyg diogelwch a mannau gwyrdd.⁹⁸

O gymharu â chyfartaledd Cymru o £216k a chyfartaledd y DU o £255k, mae pris tŷ ar gyfartaledd yn Sir Fynwy yn uchel, sef £359k.⁹⁹ Mae prisiau cyffredinol wedi codi 35% yn y 5 mlynedd diwethaf, gyda naid o £23k yng nghyfartaledd Sir Fynwy ychydig rhwng Medi 2020 a Mehefin 2021; mae hyn yn debygol o fod oherwydd mwy o alw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn y gallu cynyddol i weithio gartref o ganlyniad i Covid-19, er bod arwydd bod prisiau wedi dechrau gwastatáu yn ddiweddar.¹⁰⁰ Bydd dileu tollau pontydd Hafren wedi gwneud y sir yn fwy apelgar i drigolion Bryste a de-orllewin Lloegr gan ei fod wedi gostwng costau cymun. Serch hynny, mae prisiau'n uchel iawn o'u cymharu ag enillion, gyda chymhareb o 8:1, er yn y Fenni a Threfynwy mae mor uchel ag 11:1.¹⁰¹ Fel yr amlinellwyd yn yr adran 'Swyddi a Chyflogaeth', mae prisiau tai uchel Sir Fynwy yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl ifanc, yn enwedig, fyw a gweithio'n lleol, gan arwain llawer i symud allan o'r sir.¹⁰²

O'r tua 40,000 o aelwydydd yn Sir Fynwy, mae 75% yn berchen-feddianwyr, sydd 5% yn uwch na chyfartaledd Cymru.¹⁰³ Mae astudiaethau'n awgrymu bod yr eiddo rhent sydd ar gael wedi lleihau bron i 50% rhwng 2010-19 ac mae'r farchnad rhentu preifat yn annhebygol iawn o fod yn opsiwn ymarferol i'r rhai sy'n derbyn Lwfans Tai Lleol – mae anallu i gael mynediad i lety rhent preifat oherwydd prisiau uchel yn un o'r materion sy'n arwain at bobl yn Sir Fynwy yn methu â ffurfio aelwydydd a gadael y sir.¹⁰⁴ Rhwng 2010-19, gwelodd y gwerthoedd rhentu ar draws Sir Fynwy gynydd cyfartalog o bron i 25%.¹⁰⁵

Mae anawsterau prynu neu rentu tŷ yn creu galw mawr am dai fforddiadwy o fewn y sir.¹⁰⁶ Mae tua 5,700 o unedau o dai fforddiadwy ar draws Sir Fynwy, y rhan fwyaf yn berchen ac yn cael eu rheoli gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy, Cartrefi Melin a Phobl.¹⁰⁷ Mae'r rhestr aros am dai fforddiadwy yn Sir Fynwy yn fwy na 3,500 o aelwydydd, ac mae gan 2,400 ohonynt angen cydnabyddedig.¹⁰⁸ Yn yr ymatebion i'r broses ymgysylltu ar yr asesiad llesiant, roedd trigolion ar hyd a lled y sir wedi amlygu'r angen am fwy o dai fforddiadwy a'r peryg bod pobl ifanc yn y sir yn methu byw a gweithio'n lleol.

Mae rhagamcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018 yn nodi y byddai nifer cyffredinol yr aelwydydd yn Ne-ddwyrain Cymru yn cynyddu 11.8% (77,400) rhwng 2018 a 2043; bydd angen i

Sir Fynwy ddarparu ar gyfer cyfran o'r twf hwn wrth ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a cheisio cadw grwpiau oedran iau.¹⁰⁹ Yn y dyfodol agos, amcangyfrifwyd y bydd angen 468 o dai fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn hyd at 2025.¹¹⁰ Fodd bynnag, nid cartrefi newydd yw'r ateb cyflawn i'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y sir e.e. cynyddu'r cyflenwad o dai rhent preifat a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy ddulliau eraill.¹¹¹

Dros y 6 blynedd diwethaf, mae cyfanswm nifer yr anheddau fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu (495) wedi bod yn is na'r targed cyflawni o 672 o unedau fforddiadwy, sy'n ofynnol gan y cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd yn 2014. Fodd bynnag, yn y cyfnodau monitro diweddaraf, mae tai a gwblhawyd wedi bod yn llawer agosach at y gofyniad cyfartalog blyneddol, yn bennaf oherwydd y cyflymder y mae'r safleoedd strategol a neilltuwyd wedi'u cyflwyno.¹¹²

Serch hynny, er gwaethaf y cynnydd hwn, mae sawl ffactor yn effeithio ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ychwanegol yn Sir Fynwy ar hyn o bryd. Y cyntaf yw'r lefelau uchel o ffosffadau yn Afon Gwy ac Afon Wysg, sy'n golygu bod yn rhaid i unrhyw ddatblygiadau newydd yn yr ardaloedd hynny ddangos y bydd y lefelau'n niwtral neu'n gwella o ganlyniad i'r datblygiad. Ar hyn o bryd, mae hyn yn atal datblygiadau newydd yn ardaloedd yn rhan ogleddol y sir gan gynnwys Y Fenni, Trefynwy a Brynbuga. Yn ail, oherwydd y tir cyfyngedig sydd ar gael i'w ddatblygu, mae cystadleuaeth uchel am dir sy'n cael ei gyflwyno. Yn drydydd, mae gwerthoedd tir uchel a chostau cynyddol deunyddiau adeiladu yn effeithio ar hyfywedd a chyflawnadwyedd. Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn cefnogi'r twf cynaliadwy o setliadau gwledig er mwyn mynd i'r afael gyda materion sydd yn cael eu profi gan dystiolaeth gan gynnwys yr angen am gydbwysedd demograffig a thai fforddiadwy (mae polisïau 4,5 a 7 yn hynod berthnasol). Fodd bynnag, mae Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu cynigion twf Sir Fynwy, gan ddadlau y dylid cyfeirio'r twf at Gaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Mae hyn yn methu mynd i'r mynd i'r afael gyda'r materion sydd yn effeithio ar Sir Fynwy ac yn cyfyngu ar ddatblygiadau tai, gan gynnwys datblygiadau tai fforddiadwy. Yn olaf, mae'n anodd i ddarparu tai fforddiadwy o fewn canol trefi yn sgil yr angen i gysoni gofyn treftadaeth gyda safonau gofynnol Llywodraeth Cymru, cost a maint y gwaith adnewyddu sydd ei angen yn aml, a risgiau llifogydd sylweddol.¹¹³

Mae tua 15% o'r stoc bresennol o dai fforddiadwy wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, sy'n cyfateb i tua 870 o unedau. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o'r eiddo hyn o fudd i gymunedau lleol, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi dyrannu gwledig sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl ddangos cysylltiad lleol â'r gymuned honno. Mae angen tai fforddiadwy ychwanegol yn yr ardaloedd gwledig hyn i alluogi pobl i aros yn eu cymunedau lleol, yn enwedig aelwydydd iau a phrynwyr tro cyntaf sy'n aml yn cael eu prisio allan o'r farchnad agored ac sy'n gorfod symud i ffwrdd i gael mynediad at dai.¹¹⁴

Sut hoffech bod eich cymuned yn edrych yn y dyfodol?

“Yn dref lle y mae mwy o dai cyhoeddus/cymdeithasol ar gyfer teuluoedd ifanc, a mwy o gyfleodd i bobl ifanc i gael swyddi”

“Cyfleodd i bobl ifanc i brynu tŷ os ydynt yn dymuno”

“Gyda phrisiau tai yn cynyddu drwy'r amser, rhaid i ni sicrhau bod pawb yn medru fforddio byw ac aros yn ein cymuned”

Mewn siroedd gwledig, mae ail gartrefi yn aml yn ffactor sy'n gwaethygu problemau cyflenwad tai; fodd bynnag, o'r 42,114 o aelwydydd yn Sir Fynwy, dim ond 0.5% sy'n ail gartrefi, yn isel o gymharu â sawl awdurdod lleol arall yng Nghymru.¹¹⁵

Ym mis Awst 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru £250m ar gyfer 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu o fewn y sector cymdeithasol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac mae Sir Fynwy wedi cael £7.5m ohono.¹¹⁶ Mae tai cymdeithasol yn gyffredinol yn fwy ynni-effeithlon oherwydd eu bod yn fwy newydd ac oherwydd gwelliannau a wnaed i dai cymdeithasol ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru.¹¹⁷

Ystyir bod aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd os yw'r preswlydd yn byw ar incwm is mewn cartref na ellir ei gadw'n gynnes am gost resymol.¹¹⁸ Mae 10% o aelwydydd y sir mewn tlodi tanwydd; mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 12%, ond yn uchel o ystyried cyfoeth cyffredinol y sir, gan weithio allan i tua 4,000 o gartrefi.¹¹⁹ Mae aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi tanwydd, a allai adlewyrchu cyfran uwch o aelwydydd gwledig heb wres canolog; yng nghyfrifiad 2011, nid oedd gan dros 600 o gartrefi (1.6%) yn Sir Fynwy unrhyw wres canolog.¹²⁰ Er bod tlodi tanwydd yn cael ei brofi'n bennaf gan aelwydydd ag incwm isel, mae'r preswylwyr hefyd yn hŷn ar y cyfan, fel y mae'r adeiladau eu hunain, sy'n berthnasol i Sir Fynwy o ystyried y boblogaeth hŷn a'r stoc tai.¹²¹ Yn ogystal, yn aml nid yw eiddo gwledig ar y rhwydwaith nwy felly maent yn dibynnu ar olew neu nwy potel drutach ar gyfer gwresogi.

Mae'r sefyllfa ddigartrefedd bresennol yn Sir Fynwy yn hynod heriol oherwydd y diffyg llety dros dro a pharhaol a lefel barhaus yr angen am gymorth digartrefedd.¹²² Mae'r arhosiad cyfartalog mewn llety dros dro yn hirach na'r arfer oherwydd diffyg llety amgen addas oherwydd bod y llety dros dro presennol wedi cyrraedd ei gapasiti a bod y cyflenwad o lety parhaol gwag yn annigonol i fodloni'r galw.¹²³ Oherwydd pandemig Covid-19, mae Cyngor Sir Fynwy wedi profi cynnydd sylweddol yn y galw am lety digartrefedd, gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau nad oedd neb yn gorfod cysgu allan neu mewn perygl o gysgu allan. Mae'r mater hwn wedi'i waethygu oherwydd nad yw dinasyddion yn gallu aros gyda theulu neu ffrindiau.¹²⁴ Ym mis Awst 2021, roedd 147 o aelwydydd mewn llety dros dro, gan gynnwys 73 o aelwydydd mewn llety gwely a brecwast. Mae llawer o'r rhain yn bobl sengl ddigartref ag anghenion cymorth lluosog.¹²⁵

O'r rhai a aseswyd yn ddigartref yng Nghymru yn 2019/20, cafodd 41% eu helpu'n llwyddiannus i sicrhau llety, tra yn Sir Fynwy yn 2020/21 dim ond 35% yw'r ffigwr atal, sy'n dangos maint problem y sir.¹²⁶ Fodd bynnag, er gwaethaf y sefyllfa heriol, mae Cyngor Sir Fynwy yn cynyddu llety a chymorth tai; yn 2019/20 dim ond 5 o bobl yn cysgu ar y stryd oedd gan y sir, sy'n golygu ei bod yn gydradd 6^{ed} isaf yng Nghymru.¹²⁷

Mae darparu tai priodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn Sir Fynwy, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl, yn hanfodol fel bod pobl yn medru cael mynediad at lety addas sydd yn diwallu eu hanghenion, yn hytrach na'n cael eu dal mewn llety anaddas neu'n gorfod symud o'u cymunedau

er mwyn cael mynediad at dai addas. Mae cynllunio ar gyfer llety hyblyg, addasadwy gan ystyried cwrs gydol oes, yn mynd i wella gallu pobl hŷn a'r rhai ag anableddau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi.

Datblygiad Plentyn

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	-----------------	----------------------	--------------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Mae plant sy'n cael eu geni i deuluoedd diogel, cariadus yn fwy tebygol o dyfu i fod wedi'u haddysgu'n well, yn fwy diogel yn ariannol ac yn iachach, ac yn fwy tebygol o roi'r un dechrau da mewn bywyd i'w plant. Mae mil diwrnod cyntaf bywyd plentyn, o'i genhedlu i'w ail ben-blwydd, yn cael effaith sylweddol ar ei ganlyniadau a chanlyniadau cenedlaethau'r dyfodol.

Mae beichiogrwydd yn yr arddegau yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldebau ieched ac addysg ac mae'n gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth i blant. Mae gan Sir Fynwy gyfradd o 26.6 fesul 1,000 o achosion o feichiogrwydd o dan 20 oed. Mae hyn ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 37.2 fesul 1,000 a'r ail isaf yng Nghymru.¹²⁸

Mae pwysau geni yn benderfynydd pwysig ar gyfer ieched yn y dyfodol, gan ei fod yn gysylltiedig yn wrthdroadol â marwolaethau babanod a disgwyliad oes, ac mae'n rhagfynegi anabledd a chyflawniad addysgol yn ogystal â chlefyd siwgwr, strôc a chlefyd y galon mewn oedolion.¹²⁹

Roedd gan Sir Fynwy 4.7% o enedigaethau sengl byw pwysau geni isel yn 2015 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 5.5%.¹³⁰ Gan ddefnyddio data sydd ar gael mewn ardal ddaearyddol lai, mae'n ymddangos bod y cyfraddau ar eu huchaf ym Mhorthysgegin, Priordy 2 yn y Fenni a West End yng Nghil-y-coed.

Yn Sir Fynwy, mae 43.8% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron 10 diwrnod ar ôl genedigaeth, sy'n cymharu'n ffafril â chyfartaledd Cymru.¹³¹ Mae hyn yn bwysig, gan fod bwydo ar y fron yn dod â manteision hirdymor i fabanod, gan bara hyd nes y byddant yn oedolion, a manteision ieched i famau, wrth hyrwyddo bondio cynnar ac ymlyniad rhwng y fam a'r babi.

Dechrau'n Deg yw rhaglen Blynnyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair oed, ac mae'n cynnwys gofal plant rhan-amser o ansawdd am ddim i blant dwy i dair oed, gwasanaeth ymwelwyr ieched gwell, mynediad at raglenni magu plant a lleferydd, cymorth iaith a chyfathrebu. Mae gwasanaeth Dechrau'n Deg Sir Fynwy ar gael i deuluoedd mewn ardaloedd diffiniedig o'r Fenni, Trefynwy, Cas-gwent a Chil-y-coed.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gofal plant digonol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal sydd angen gofal plant i weithio, i ymgymryd â hyfforddiant neu addysg, neu i baratoi ar gyfer gwaith. Mae rhieni wedi adrodd am

ddiffyg gofal plant digonol ar gyfer plant ag anabledd, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol, gwarchodwyr plant, a darpariaethau gwyliau. Maent yn cael trafferth dod o hyd i ofalwyr addas digonol wrth ddefnyddio taliadau uniongyrchol, ac mae diffyg lleoedd mewn clybiau ar ôl ysgol.¹³²

Ar y cyfan, mae ansawdd y ddarpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy yn dda iawn ac mae darpariaeth ddigonol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o deuluoedd; fodd bynnag, mae rhai bylchau yn y ddarpariaeth sydd wedi'u nodi ac y mae angen mynd i'r afael â nhw (fel darpariaeth Gymraeg).¹³³ Lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â bylchau a amlygwyd ac i leihau'r rhwystrau i gael mynediad at ofal plant a nodwyd.

“Rwyf hefyd yn poeni am sut y mae ein teuluoedd ifanc yn medru fforddio gweithio a thalu am feithrinfeydd, gydag ychydig iawn o ofal plant fforddiadwy ar gael”

Roedd rhai ymatebion i'r arolwg ymgysylltu yn nodi fod fforddiadwyedd gofal plant yn fater o bwys ac effaith bosib y mae hyn yn ei gael ar bobl sydd mewn swyddi. Mae chwarae yn bwysig i ddatblygiad plentyn; mae gwybodaeth bellach am y ddarpariaeth chwarae a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleodd Chwarae ar

gyfer y y sir yn y rhan 'Chwaraeon a Hamdden' o'r adran 'Llesiant Diwylliannol'.

Prif glefyd y geg mewn plentyndod yw pydredd dannedd sydd, fel llawer o glefydau eraill, yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol. Gellir atal hyn i raddau helaeth, er enghraifft trwy leihau cymeriant bwyd a diodydd llawn siwgr a startsh. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod gan blant 5 oed Sir Fynwy, ar gyfartaledd, 0.9 o ddannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 1.22. Yn 12 oed, mae nifer cyfartalog y dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ar gyfer plant Sir Fynwy yn 0.5, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 0.6.¹³⁴ Mae pryderon y gallai iechyd y geg plant fod wedi cael ei effeithio'n negyddol yn ystod y pandemig coronafeirws, gyda mynediad at ofal deintyddol yn gyfyngedig.

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn brofiadau dirdynol cronig yn ystod plentyndod a all frifo plentyn yn uniongyrchol (fel cam-drin neu esgeulustod) neu effeithio arno drwy'r amgylchedd y mae'n byw ynddo (fel tyfu i fyny mewn tŷ â thrais domestig neu gydag unigolion â phroblemau alcohol neu ddefnydd sylweddau eraill). Mae ACEs yn tueddu i gael eu 'trosglwyddo i lawr' drwy deuluoedd ac yn cloi cenedlaethau olynol o deuluoedd i iechyd gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn anffodus, nid yw data ar ACEs ar gyfer Sir Fynwy ar gael.

Mae Sir Fynwy wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu, o 173 ar ddiwedd 2018/19, i 219 ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Er gwaethaf gostyngiad bach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ym mis Mawrth 2021 i 213, bu cynnydd parhaus. Mae'r gyfradd yn Sir Fynwy o 123 o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o boblogaeth plant yn parhau i fod yn uwch na chyfradd gyfatebol Cymru, sef 115 fesul 10,000.¹³⁵ Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn Sir Fynwy wedi amrywio ond mae'r ffigur cyffredinol yn parhau'n uwch nag oedd ychydig flynyddoedd yn ôl. O ganlyniad, mae galw sylweddol ar Wasanaethau Plant yn Sir Fynwy.

Addysg

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	-----------------	----------------------	--------------------------------	----------------------------	--	---------------------------------------

Mae 30 o ysgolion cynradd sydd yn cael eu hariannu gan yr AALL yn Sir Fynwy gan gynnwys dwy ysgol Gymraeg, chwe ysgol yr Eglwys yng Nghymru a dwy ysgol gynradd Gatholig. Mae yna bedair ysgol gynradd ac uned atgyfeirio disgyblion. Ar draws yr awdurdod, mae 16.6% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Yn 2018, roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses o ddatblygu trefniadau gwerthuso a gwella er mwyn cysoni a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig. Mae'r trefniadau yma yn cynnwys cyfres newydd o fesurau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 er mwyn cefnogi mwy o ddewis i ddysgwyr, gwerthfawrogi anghenion dysgwyr a'u cyraeddiadau, ynghyd â symud i ffwrdd o'r broses o gasglu'r wybodaeth hon fesul ysgol.

Roedd diwygiadau i'r rheoliadau sydd yn ymwneud gyda gwybodaeth am asesiadau athrawon yn cefnogi penderfyniad y Llywodraeth i roi'r gorau i gyhoeddi gwybodaeth gymharol am ddata asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnod sylfaen neu gyfnod allweddol a'r data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - a hynny ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu gonsortium rhanbarthol.


Yn 2019, roedd addasiadau pellach wedi eu gwneud i rai o'r rheoliadau sydd yn effeithio ar adrodd a chasglu gwybodaeth am ysgolion er mwyn rhoi ystyriaeth i'r holl darfu a achoswyd i'r ysgolion yn sgil y coronafeirws a'r baich gweinyddol anghymesur a osodwyd arnynt yn ystod y cyfnod heriol yma, gan gynnwys gofynion adrodd ysgolion sydd yn ymwneud gyda blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 a 2021/2022. Golyga hyn nad yw'r awdurdod lleol yn medru darparu gwybodaeth am berfformiad academiaidd yr ysgolion yma ar hyn o bryd.

Mae sgiliau a chymwysterau yn bwysig ar gyfer datblygu i addysg bellach neu gyflogaeth. Nodwyd fod cael ysgolion lleol a darpariaeth addysg yn bwysig i'r sawl a ymatebodd i'r arolwg yn Sir Fynwy ynghyd â'u teuluoedd.

Mae mynychu'r ysgol yn ffactor gritigol o ran cyraeddiadau myfyrwyr. Roedd y ffigwr presenoldeb yn ysgolion cynradd Sir Fynwy yn ystod y flwyddyn olaf o'r data sydd ar gael (2018/19) wedi ei nodi fel yr uchaf yng Nghymru, gyda 4.6% o sesiynau hanner diwrnod wedi eu colli yn sgil pob math o absenoldeb, gyda'r cyfartaledd ar draws Cymru yn 5.4%.¹³⁶

Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn tueddu i fod ychydig yn is nag mewn ysgolion cynradd. Fel gydag ysgolion cynradd, y ffigwr presenoldeb yn ysgolion uwchradd Sir Fynwy yn ystod 2018/19 oedd yr uchaf yng Nghymru gyda 5% o sesiynau hanner diwrnod wedi eu colli yn sgil pob math o absenoldeb (o'i gymharu gyda 6.2% ar gyfer Cymru).¹³⁷

Mae niferoedd cynyddol o blant Sir Fynwy yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, er nad yw pob rhiant sydd yn gymwys yn eu hawlio. Mae'r coronafeirws wedi arwain at gynnydd yn y ffigwr yma, ac o ganlyniad, mae'r gyfran o blant oedran ysgol gorfodol sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn Sir Fynwy yn 2020/21 yn 16%, is na chyfartaledd Cymru o 22.9%. Yn Sir Fynwy, mae'r gyfran o blant sydd yn gymwys yn cynyddu'n fwy cyflym na'r cyfartaledd ar draws Cymru.



Percentage pupils aged 5-15 eligible for free school meals¹³⁸


Wrth ystyried cymorth ysgol effeithiol ar gyfer disgyblion sydd o dan anfantais a'n fregus, mae Estyn yn medru diffinio disgyblion bregus fel y rhai sydd yn fwy tebygol o brofi rhwystrau emosiynol, cymdeithasol a datblygol tuag at ddysgu, er enghraifft, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, disgyblion sydd â phroblemau iechyd meddwl a gofynion meddygol a phlant sydd yn derbyn gofal. Mae disgyblion o dan anfantais yn cael eu hystyried fel rhai sydd yn wynebu rhwystrau sydd yn eu hatal rhag llwyddo yn yr ysgol yn sgil amgylchiadau adweithiol sydd y tu hwnt i'w rheolaeth; er enghraifft, disgyblion sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion deuluoedd incwm isel.¹³⁹ Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf fan Brif Swyddog Plant a Phobl Ifanc Sir Fynwy yn amlygu bod sicrhau canlyniadau gwell i'n dysgwyr sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau'n fater o bwys.¹⁴⁰ Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru hefyd yn amlygu bod yna lefelau gwahanol o gyraeddiadau rhwng y cymunedau gwahanol lle y mae disgyblion yn mynychu'r un ysgol.¹⁴¹ Mae asesiad pellach o blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau iechyd, anableddau a nam ar y synhwyrau – gan gynnwys y y nifer rhagfynegol o blant ag anabledd yng Ngwent – wedi ei gynnwys yn adran 3 o Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwent.¹⁴²

Mae astudiaethau wedi dangos fod amser sydd yn cael ei dreulio fel NEET (Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant) yn medru cael effaith adweithiol ar iechyd corfforol a meddylio, a chynyddu'r tebygolrwydd o ddiweithdra, cyflogau isel neu ansawdd isel o fywyd yn hwyrach mewn bywyd.¹⁴³ Mae data Gyrfaedd Cymru yn dangos bod y ganran o'r sawl a oedd wedi gadael yr ysgol ar ôl blwyddyn 11 ac yn NEET yn 2020 yn 1.4% yn Sir Fynwy ac yn 3.9% ar

gyfer y sawl a oedd wedi gadael ar ôl blwyddyn 13. Mae hyn yn ffafriol o'i gymharu gyda'r ffigwr ar gyfer Cymru, sef 7.4% o'r sawl sydd rhwng 16 a 18 mlwydd oed.¹⁴⁴

Roedd bron i draean o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 Sir Fynwy wedi symud i addysg uwch yn y tair blynedd olynol ar ôl gadael Blwyddyn 11 o'i gymharu gyda 29.9% ar gyfer Cymru.¹⁴⁵ Mae diffyg swyddi o ansawdd i raddedigion yn Ne Cymru yn golygu bod y sawl sy'n iach ac yn fwy cymwys yn gadael yr ardal er mwyn manteisio ar gyfleoedd gwell, gan arwain at 'draen dawn'. Wrth i fwy o bobl gymwys adael, mae'n dod yn fwy anodd i'r ardal i adfer a denu'r cyfleoedd cyflogaeth y mae pobl yn chwilio amdanynt.¹⁴⁶

Mae'r coronfaeirws wedi cael effaith ar statws y farchnad lafur ar gyfer pobl ifanc; roedd y nifer rhwng 18 a 24 mlwydd oed yng Nghymru sy'n hawlio wedi cynyddu o 4.7% ym Mawrth 2020, gan gyrraedd uchafbwynt o at 9.5% yng Ngorffennaf 2020. Roedd Sir Fynwy wedi dilyn y duedd hon, er yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Erbyn Mehefin 2021, roedd canran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn is na'r uchafbwynt yn haf 2020 ond eto dal yn uwch na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig:



Percentage claimants aged 18-24¹⁴⁷

Mae cymwysterau oedolion o oedran gweithio ar lefelau 3 a 4 NQF y Sir Fynwy yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r gyfran o oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn 3.8% ac yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru o 7.3%.

Mae'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad hirdymor ar gyfer ysgolion i ddatblygu hybiau ar gyfer dysgu a lleihau'r adeiladau sydd mewn cyflwr truenus. Mae Sir Fynwy wedi elwa o'r rhaglen gydag ysgolion uwchradd newydd yn Nghil-y-coed a Threfynwy er enghraifft.



Ysgol Uwchradd Trefynwy

Fel sydd wedi ei ddisgrifio yn asesiad Gwent, mae'r pandemig coronafeirws wedi tarfu ar ysgolion ac addysg.

Roedd y broses arferol o ddyfarnu canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 a 5 wedi ei newid ar gyfer blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21, gan arwain at ansicrwydd i fyfyrwyr a rhai yn gadael yr ysgol neu'n mynd i brifysgol heb sefyll arholiad ffurfiol o ran TGAU neu Lefel A. O ganlyniad, mae rhai myfyrwyr yn teimlo'n llai hyderus a thu ôl blynyddoedd eraill o ran pa mor barod ydynt i fynd i'r afael gyda'r her nesaf yn eu bywydau.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar bresenoldeb mewn ysgolion ar draws Cymru. Nid yw Sir Fynwy wedi bod yn eithriad, gyda chyfraddau presenoldeb yn 2020/21 yn 94.4% mewn ysgolion cynradd a'n 92.8% mewn ysgolion uwchradd sydd yn 1.0pc a 2.2pc yn is na'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Sir Fynwy ac sydd wedi ei gynnwys yn y datganiadau data yn 2018/19.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar lesiant myfyrwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi clustnodi cyllid gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael gyda hyn, gyda rhaglen gymorth wedi ei datblygu a'n dechrau yn ystod Tymor Gwanwyn 2022.

Mae'r pandemig Covid hefyd wedi cyfrannu at gynydd mewn dysgwyr sydd wedi eu haddysgu gartref gan eu rhieni. Mae'r nifer o ddisgyblion lle y mae'r rhieni wedi dewis 'Addysg Ddewisol yn y Cartref' wedi cynyddu o 57 ar ddechrau'r pandemig i 93 o ddisgyblion erbyn Rhagfyr 2021 (er nad Covid yw'r unig reswm am y cynnydd hwn).

Sut hoffech weld eich cymuned yn edrych yn y dyfodol?


"Cyfleoedd gwell i genedlaethau'r dyfodol wrth i blant ac oedolion gael y cyfle i ddysgu a hyfforddi"

Roedd unigolion a oedd wedi cymryd rhan yn y broses ymgysylltu yn Sir Fynwy wedi nodi bod addysg yn rhan bwysig o ddyfodol eu cymuned. Mae mwy o wybodaeth am sgiliau'r dyfodol yn cael ei ystyried yn asesiad llesiant Gwent.

Heneiddio'n Dda

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth		Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	-----------------	-----------------	--	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Fynwy 65 oed a throsodd yn cynyddu 41% ac, yn fwy arwyddocaol, y rhai 85 oed a throsodd 96% erbyn 2043.¹⁴⁸



Wrth i oedran y boblogaeth gynyddu, felly hefyd nifer y gofalwyr di-dâl. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif bod 12% o boblogaeth Cymru yn ofalwyr di-dâl, ffigwr a allai gynyddu i 16% erbyn 2037. Mae gan Gymru hefyd y gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos; mae hyn yn arbennig o berthnasol i Sir Fynwy, o ystyried ei

Beth fyddai yn gwneud eich ardal yn lle gwell?

“Mwy o wasanaethau cymorth seibiant i ofalwyr di-dâl”

phoblogaeth sy'n heneiddio. Roedd rhai o'r bobl a oedd wedi cymryd rhan yn y broses ymgysylltu wedi nodi y dylid rhoi mwy o gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.

Y problemau iechedd mwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn, ac achosion derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau, yw clefyd anadlol a'r galon, canser, strôc, clefyd siwgwr a thoriadau. Cwmpiaidau yw achos mwyaf cyffredin anaf difrifol ymhlith pobl hŷn a'r rheswm mwyaf cyffredin dros fynd i'r ysbyty.¹⁴⁹ Pobl hŷn sy'n cwmpo yw 10% o'r holl alwadau 999 i Wasanaethau Ambiwlans Cymru.¹⁵⁰ Mae amharodrydd i adael cartref oherwydd ofn cwmpo yn dod i'r amlwg yn gryf yn arolwg Cyngor Sir Fynwy o ddefnyddwyr gofal cymdeithasol.

Mae gan Sir Fynwy dimau iechedd a gofal cymdeithasol integredig, gyda chymysgedd o setiau sgiliau, sy'n darparu'r gweithwyr proffesiynol mwyaf priodol pan fo angen. Mae ail-alluogi yn wasanaeth hanfodol a ddarperir gan y timau integredig dros gyfnod o chwe wythnos gyda'r nod o adfer annibyniaeth pobl gartref ar ôl codwm neu argyfwng arall. Yn ystod 2020/21, darparodd gwasanaeth ail-alluogi Sir Fynwy 291 o gyfnodau ail-alluogi, ac ar ddiwedd y rhain roedd gan 58.8% o bobl dim gofyniad am wasanaethau hirdymor.

Mae atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y blynedd diwethaf, ac mae gwasanaethau'n wynebu pwysau digynsail o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau. Ym mis Mawrth 2021, roedd gan 1,813 o oedolion gynlluniau gofal a chymorth yn manylu ar y cymorth sydd ei angen. Yn ystod 2020-21, dechreuodd 80 o bobl wasanaeth mewn cartref gofal preswyl a chychwynnodd 1,324 o oedolion wasanaeth gofal cartref, a all gynnwys oriau gofal ychwanegol newydd i'r ddarpariaeth bresennol.¹⁵¹ Mae gan Sir Fynwy heriau penodol ym maes gofal cymdeithasol oedolion oherwydd natur wledig a demograffeg y sir. Mae'r galw wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig ac mae pobl yn aml yn cyflwyno anghenion mwy cymhleth. Mae rhywfaint o hyn wedi'i briodoli i effaith cloeon coronafeirws, yn benodol, mae rhai pobl bellach yn profi llai o hyder ac eiddilwch corfforol. Mae recriwtio a chadw staff gofal hefyd yn her sylweddol. Mae her allweddol i freuder y sector iechedd a gofal cymdeithasol cyfan a chymbwysu pwysau galw a chadw staff i ddarparu'r gofal sydd ei angen.

Mae Dementia UK yn amcangyfrif bod gan 1 o bob 14 o bobl dros 65 oed orffwylltra, ac mae'r cyflwr yn effeithio ar 1 o bob 6 o bobl dros 80 oed. Mae nifer y bobl â gorffwylltra yn cynyddu wrth i bobl fyw'n hirach; amcangyfrifir, erbyn 2025, y bydd gan fwy nag 1 filiwn o bobl yn y DU gorffwylltra.¹⁵² Gyda phoblogaeth Sir Fynwy yn heneiddio, felly bydd lefelau cynyddol o orffwylltra yn y sir yn y dyfodol.

“Mae pobl hŷn am aros yn eu cartrefi eu hunain, ac felly, mae angen gwasanaethau digonol er mwyn cefnogi iechedd - cymorth iechedd ac iechedd meddwl - ac efallai bod angen help arnynt i fod yn rhan o'r gymuned: fel cludiant”

“Mae gwasanaethau gofal yn y cartref yn hanfodol ar gyfer y bobl hŷn sydd yn dymuno aros yn eu cartrefi”

Roedd nifer o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu yn cyfeirio at bwysigrwydd a'r pryder ynglŷn â darparu gofal i bobl hŷn yn medru chwarae rhan yn eu cymunedau lleol ac yn cael eu cefnogi yn eu cartrefi cyn hired ag sydd yn bosib.

Mae pobl hŷn a'u cyfraniad i'w cymunedau yn aml yn cael eu tanbrizio: yn 2017, amcangyfrifodd Age UK fod cyfraniad economaidd cyflogaeth, gofal anffurfiol, gan gynnwys gofal plant, a gwirfoddoli gan bobl 65 oed neu hŷn yn £160 biliwn.¹⁵³ Yn 2019/20, nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru fod 30% o bobl 65-74 oed yn gwirfoddoli.

Mae'n dod yn bwysicach fyth i barhau i gymryd rhan ac yn weithredol wrth fynd yn hŷn, i aros yn iach ac aros yn annibynnol. Gall parhau i ddysgu gydol oes wella a chynnal ein lles meddyliol. Argymhellir gweithgaredd corfforol dyddiol ar gyfer oedolion hŷn, gyda pheryglon iechyd a diogelwch isel iawn i'r mwyafrif. Mewn cyferbyniad, mae peryglon iechyd gwael o ganlyniad i segurdod yn uchel iawn. Ledled Cymru, mae 59% o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn gostwng i 44% o bobl 65-74 oed ac ymhellach i 19% o'r rhai 75 oed a hŷn.¹⁵⁴ Darperir asesiad pellach o gyfraddau gweithgaredd yn yr adran 'Lles Diwylliannol'.


Heb os, mae'r pandemig wedi effeithio ar lesiant oedolion hŷn, fel y dangosir yng nghanlyniadau arolwg y SYG ar effaith gymdeithasol y pandemig coronafeirws ar bobl hŷn ym Mhrydain Fawr. Roedd bod yn bryderus am y dyfodol, teimlo dan straen neu'n bryderus, a diflasu wedi effeithio fwyaf ar lesiant oedolion hŷn.¹⁵⁵

Cyfannu

Mae'n bwysig deall y gydberthynas rhwng lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Isod, ceir crynodeb o sut mae'r adrannau 'Lles Cymdeithasol' yn cyfannu ag adrannau eraill o'r asesiad i nodi'r berthynas rhwng y ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant.

Iechyd a Lles

Mae iechyd a lles da yn adnodd am oes trwy gynyddu gallu unigolyn i gyflawni ei botensial addysgol, economaidd a chymdeithasol. Mae gan yr amgylchedd rôl bwysig o ran cyfrannu at iechyd a lles pobl



Trafnidiaeth a Mynediad i Wasanaethau

Mae trafndiaeth, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, yn hanfodol i bobl gael mynediad at y swyddi, y gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd eu hangen arnynt. Mae trafndiaeth yn effeithio ar yr amgylchedd yn Sir Fynwy ond mae hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer teithio gweithredol.



Diogelwch Cymunedol

Gall amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd arwain at droseddu, tra bod canfyddiadau o drosedd a diogelwch yn gallu effeithio ar les pobl mewn cymunedau, mae llawer o drigolion Sir Fynwy yn gweld ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth.



Iechyd Meddwl

Bydd ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn effeithio ar Iechyd Meddwl a les pobl fel rhesymau dros broblemau iechyd meddwl a sut i'w trin ac i hybu les pobl.



Unigrwydd ac Ynysigrwydd

Poblogaeth gynyddol hyn yw'r ffactor unigol mwyaf arwyddocaol yn nifer yr achosion cynyddol o ynysu gwledig. Mae gan ardaloedd gwledig set unigryw o amgylchiadau a all waethygu ynysu cymdeithasol, megis opsiynau trafnidiaeth gwael, a all hyn yn ei dro arwain at iechyd gwael, colli annibyniaeth ac ansawdd bywyd is.



Tai

Mae cael cartref diogel yn angenrheidiol i les. Mae amgylchiadau economaidd a chymdeithasol yn effeithio ar argaeledd tai, gyda phrisiau tai Sir Fynwy ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Gallai hyn hefyd effeithio ar hyfywedd hirdymor rhai cymunedau, ond mae angen cydbwysu datblygiadau tai newydd yn erbyn effeithiau amgylcheddol, ond yn medru arwain at fanteision amgylcheddol drwy ddylunio, ansawdd a seilwaith gwyrdd.



Datblygiad Plentyn

Mae plant sy'n cael eu geni i deuluoedd diogel, cariadus yn fwy tebygol o dyfu i fod yn oedolion mwy iach, wedi'u haddysgu'n well, yn fwy ariannol sicr ac yn fwy tebygol o roi'r un dechrau da mewn bywyd i'w plant eu hunain. Mae mil diwrnod cyntaf bywyd plentyn o'i genhedlu i'w ail ben-blwydd yn cael effaith sylweddol ar ei ganlyniadau a chanlyniadau cenedlaethau'r dyfodol.



Addysg

Rhoi'r sgiliau a'r addysg sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol, i gyflawni eu potensial a gwneud y mwyaf o'u llesiant cymdeithasol ac economaidd.



Heneiddio'n Dda

Mae heriau llesiant poblogaeth sy'n heneiddio wedi'u dogfennu'n dda ac yn ymwneud yn bennaf â ffactorau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, fodd bynnag mae pobl hŷn hefyd yn ased sylweddol i'r sir, tra bod asedau cymunedol yn y sir yn rhoi cyfle i wella lles pobl hŷn.



Llesiant Amgylcheddol

Mae adnoddau naturiol, fel aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd, yn darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, ynni a diogelwch. Maent yn helpu i'n cadw'n iach ac yn helpu pobl a'r economi i ffynnu, wrth leihau llifogydd, gwella ansawdd aer a chyflenwi deunyddiau ar gyfer adeiladu. Mae adnoddau naturiol hefyd yn darparu cartref i fywyd gwyllt, yn rhoi tirweddau eiconig i ni eu mwynhau, ac yn hybu'r economi drwy dwristiaeth.¹⁵⁶

Fodd bynnag, maent hefyd dan bwysau gan ddatblygiad, newid yn yr hinsawdd, yr angen i gynhyrchu ynni, a mwy. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn gyfrifol yn hanfodol i sicrhau ein llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor.

Tirwedd a Chefn Gwlad

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	------------------------	----------------------	--------------------------------	-----------------------------------	--	--

Heb os, un o asedau mwyaf Sir Fynwy yw ei thirwedd a'i hamgylchedd naturiol. Mae Sir Fynwy yn cael ei chydabod am ei thirweddau cyfoethog ac amrywiol, yn ymestyn o arfordir gwastad agored Gwastadeddau Gwent yn y de, i ucheldiroedd agored y Mynyddoedd Du o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd a cheunant afon hardd Dyffryn Gwy, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn y dwyrain. Mae manteision yr amgylchedd naturiol a'r dirwedd ar gyfer iechyd a llesiant wedi'u dogfennu'n dda, ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac nid yw hyn erioed wedi bod yn fwy amlwg nag yn ystod cyfnodau cloi 2020 a 2021.¹⁵⁷ Gall tirweddau lleol hefyd fod yn gyswllt pwysig â'n hymdeimlad o falchder cenedlaethol, diwylliant a

hunaniaeth leol, ac maent yn bwysig ar gyfer twristiaeth, hamdden a gweithgaredd economaidd.¹⁵⁸ Yn ystod y broses ymgysylltu ar gyfer yr asesiad llesiant, pan ofynnwyd am yr hyn sydd yn dda am ble mae pobl yn byw, yr ail reswm mwyaf poblogaidd oedd y dirwedd, cefn gwlad a mannau gwyrdd.

Mae seilwaith gwyrdd yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at ardaloedd naturiol a lled-naturiol o ansawdd uchel, megis coed, parciau, gerddi, coetiroedd, ymylon ac afonydd, sydd gyda'i gilydd yn creu rhwydwaith byw o fannau gwyrdd, dŵr a nodweddion amgylcheddol eraill mewn ardaloedd trefol a gwledig. Yn Sir Fynwy, mae'r cyngor yn defnyddio dull seilwaith gwyrdd ar gyfer cyflawni bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, cefnogi gosod tirwedd ac ansawdd lle, mynd i'r afael ag iechyd a llesiant, nodi atebion ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cefnogi teithio llesol, rheoli hawliau tramwy cyhoeddus, a darparu'r fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.¹⁵⁹



Cerdded i lawr Pen-y-fâl

Mae pobl yn mwynhau tirwedd Sir Fynwy am nifer o resymau. Mae hyn yn cynnwys ei lonyddwch, ac mae gan Sir Fynwy hefyd 5 Safle Darganfod Awyr Dywyll ar gyfer seryddiaeth.¹⁶⁰

Mae tirwedd a chefn gwlad hefyd yn gyfranwyr pwysig i'r economi yn Sir Fynwy, gan gynnwys drwy dwristiaeth, amaethyddiaeth a choedwigaeth. Archwilir y rhain yn fwy manwl yn yr adrannau 'Swyddi a Chyflogaeth' a "Tirwedd a Threftadaeth".

Yn ogystal â chael rôl bwysig i'w chwarae mewn iechyd a lles a lles economaidd, mae cyflwr ein mannau gwyrdd yn Sir Fynwy yn rhoi arwydd pwysig o les amgylcheddol. Mae amaethyddiaeth yn cael effaith sylweddol ar les amgylcheddol, gyda'r ffordd y mae tir yn cael ei reoli yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd pridd a dŵr, bioamrywiaeth, cynefinoedd a thirwedd. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd yna effeithiau sylweddol ar amaeth a rheoli tir o ganlyniad i'r newid i gymorthdaliadau sydd yn mynd i ddigwydd ar ôl Brexit.

Mae gan Sir Fynwy nifer fawr o safleoedd gyda chydabyddiaeth leol, genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol o'u gwerth ar gyfer bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, gan gynnwys Safle Ramsar, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r rhain yn cael eu harchwilio'n fwy yn yr adran Asesiad Llesiant Lleol. Mae nifer y Safleoedd Lleol o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur wedi cynyddu'n sylweddol o 589 o safleoedd yn 2016 i 759 o safleoedd 2021 o ganlyniad i gyllid i arolygu safleoedd fel rhan o Brosiect Gwent Gydnerth.¹⁶¹ Fodd bynnag, nid yw ansawdd y safleoedd sydd eisoes wedi eu

dynodi yn gwbl wybyddus; efallai bod thai safleoedd wedi dirywio o ran ansawdd neu wedi eu colli. Rydym yn gwybod fod nifer o safleoedd wedi eu colli yn sgil newidiadau ym maes rheoli a datblygu.

Yn ogystal â'r dynodiadau hyn ar gyfer bioamrywiaeth (a daeareg), mae tirweddau gwarchodedig hefyd yn Sir Fynwy. Mae dwyrain y sir yn rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy ac mae rhannau o'r sir y tu allan i'r Fenni yn rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Ceunant Clydach. I'r dwyrain mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Gwy, ac yn ne'r sir, dynodwyd Gwastadeddau Gwent yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru.¹⁶²

Fodd bynnag, er gwaethaf y dynodiadau hyn, mae bygythiadau niferus i lesiant amgylcheddol o hyd. Mae adroddiad SoNaRR2020 CNC yn asesu i ba raddau y mae Cymru'n cyflawni rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, gan ddangos nad yw Sir Fynwy, fel Gwent gyfan, yn bodloni pedwar nod hirdymor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (gwybodaeth bellach yn Asesiad Llesiant Gwent).¹⁶³ Mae ystod eang o faterion sy'n anodd eu rheoli neu eu rheoleiddio yn cyfrannu at wanhau cydnerthedd ecosystemau Cymru, sy'n effeithio ar y modd y darperir buddion ecosystemau ac sy'n effeithio ar lesiant pobl, ac mae colli bioamrywiaeth a dirywiad yn ansawdd llawer o rywogaethau, cynefinoedd a safleoedd dynodedig yn parhau.¹⁶⁴ Dywedodd llawer o drigolion bod bywyd gwyllt a biomarywiaeth yn bwysig iawn iddynt a'u bod am sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

Yn Sir Fynwy, mae rhai o'r bygythiadau i'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu at y dirywiad rhywogaethau a amlygwyd yn Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Gwent.¹⁶⁵ Er enghraifft, mae'r nifer o gornchwigen wedi lleihau yn sylweddol ac mae'r ystod o wiberod wedi dirywio, gan olygu fod poblogaethau yn fwy ynysig ac yn llai gwydn. Mae'r bygythiadau i'r rhywogaethau yma yn cynnwys clefyd coed, yn arbennig clefyd coed ynn a chlefyd llarwydd gan achosi darnio parseli o goetir hynafol, llygredd a gor-dynnu ar Afonydd Wysg a Gwy a'u llednentydd, a phwysau datblygu yn lleihau cynefinoedd a chynyddu darnio cynefinoedd, sy'n golygu ni all bywyd gwyllt symud yn hawdd o un ardal i'r llall.¹⁶⁶ Mae llawer o bartneriaethau yn Sir Fynwy sy'n ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, megis Partneriaeth Dalgylch Gwy, y Prosiect Lefelau Byw, Partneriaeth y Mynyddoedd Duon a Phartneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd. Mae mentrau fel Natur Wyllt a Pholisi Pryfed Peillio Sir Fynwy yn enghreifftiau o waith sy'n anelu at wella bioamrywiaeth a diogelu pryfed peillio.¹⁶⁷

Ceir hefyd waith rhanbarthol helaeth drwy bartneriaethau Grid Gwyrdd Gwent a Gwent Gydnerth.¹⁶⁸ Mae'r partneriaethau rhanbarthol yma yn cynnig mecanweithiau cyflenwi allweddol ar gyfer BGC Gwent a Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru ac yn cefnogi rheoli ecosystem ac addasu hinsawdd ar raddfa sydd yn addas i'r cynefin neu'r tirwedd ac yn mynd y tu hwnt i ffiniau gwleidyddol.

Mae Rhywogaethau Anffordrol Goresgynol yn Sir Fynwy yn fygythiad arall, fel cwmch afon America, ffomlys chwernog ac efwr enfawr. Yn ogystal â bod yn niweidiol i fywyd gwyllt brodorol, mae yna effaith ariannol sylweddol. Mae ymchwil yn awgrymu bod rhywogaethau o'r fath yn costio £125 miliwn y flwyddyn i Gymru oherwydd difrod i gnydau, ecosystemau a bywoliaeth.¹⁶⁹ Mae yna brosiectau gan Gwent Gydnerth ac AHNE Dyffryn Gwy sydd yn ceisio mynd i'r afael gyda'r Rhywogaethau Anffordrol Goresgynol.

Mae cydnorthedd ecosystemau yn golygu pa mor dda y gallant ddelio ag aflonyddwch, naill ai trwy eu gwrthsefyll, adennill oddi wrthynt, neu addasu iddynt.¹⁷⁰ Er bod rhai coridorau bywyd gwyllt pwysig yn Sir Fynwy, megis Afonydd Wysg a Gwy ac Aber Afon Hafren sy'n caniatáu i rywogaethau fudo os ydynt dan bwysau, mae gan y sir hefyd bocedi anghysbell o gynefinoedd, megis glaswelltiroedd a choetiroedd hynafol a lled-naturiol sydd wedi'u gwasgaru ac wedi'u cysylltu'n wael. Gallai hyn arwain at golli rhai rhywogaethau i Sir Fynwy, gyda cholled bioamrywiaeth yn gyffredinol wedyn.

Mae colli coetir a gorchudd coed hefyd yn destun pryder yn Sir Fynwy, sy'n effeithio ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan y sir goetiroedd llydanddail helaeth yn Nyffryn Gwy, blociau bach o goetir fferm, ystadau gwledig a rhai blociau o goedwigoedd masnachol, sy'n golygu bod 15.2% o'r sir yn goediog (ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14%).¹⁷¹ Yn ogystal â phwysigrwydd coetiroedd ar gyfer bioamrywiaeth, maent yn bwysig i'n heconomi leol, drwy dwristiaeth a hamdden a chyflogaeth, ar gyfer adeiladu hydwythder drwy storio carbon, lleihau llifogydd, sefydlogi priddoedd, a gwella iechyd a llesiant drwy wella ansawdd aer, lleihau sŵn a darparu mannau gwyrdd ar gyfer hamdden. Mae bygythiadau o glefyd coed, yn enwedig clefyd coed ynn a chlefyd llarwydd, poblogaeth gynyddol o geirw, pwysau hamdden sy'n gwrthdaro ac ychydig o gymhelliant economaidd i blannu a rheoli coetiroedd ar dir fferm yn golygu bod rhai coetiroedd bellach mewn cyflwr gwael, o faint bach, ac yn dameidiog.

Mae coed hefyd yn rhan hanfodol o'n Seilwaith Gwyrdd trefol, gan ddarparu ystod o wasanaethau i helpu i gynnal bywyd, hyrwyddo llesiant, a chefnogi buddion economaidd. Maent yn gwneud ein trefi yn fwy deniadol i fyw ynddynt – gan annog mewnfuddsoddiad, gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau – yn ogystal â chael gwared ar lygryddion yn yr aer a chysylltu pobl â natur. Gallant hefyd liniaru eithafion newid hinsawdd, gan helpu i leihau dŵr ffo stormydd a'r ynys wres trefol. Fodd bynnag, dim ond 15% o orchudd coed trefol sydd gan Sir Fynwy, sy'n llai na chyfartaledd Cymru, gyda rhai ardaloedd mor isel ag 8.4%. Collwyd 12 hectar o goetir yn Sir Fynwy rhwng 2011 a 2014, tra collodd bob tref orchudd coed rhwng 2009 a 2013 (mae gorchudd coed sirol wedi gostwng 1.2% rhwng 2009-13), gan leihau'r buddion niferus a ddaw yn eu sgil.¹⁷² Mae gwaith ar y gweill i gynyddu gorchudd coed; er enghraifft, mae Cyngor Sir Fynwy wedi mynd y tu hwnt i'w ymrwymiad Cyngor Sir Fynwy i blannu 10,000 o goed mewn tair blynedd yn ei Strategaeth Argyfwng Hinsawdd, gan ariannu plannu coed drwy'r elw a wneir drwy ddwy Siop Ailddefnyddio Sir Fynwy, a'r prosiect cymunedol hynod uchelgeisiol Ceiniogi'r Coed.¹⁷³ Mae Eco-dechnoleg i-Tree newydd yn cael ei ddefnyddio yn Glan Hafren a Chas-gwent

er mwyn deall mwy am y manteision a gynigir gan goed trefol er mwyn datblygu'r blaenoriaethau ar gyfer cynllun plannu coed.¹⁷⁴

Efallai'n syndod nad oes gan lawer o ardaloedd gwledig Sir Fynwy fannau gwyrdd naturiol neu led-naturiol hygyrch na mynediad hawdd i fannau gwyrdd amwynder fel caeau chwaraeon.¹⁷⁵ Er enghraifft, nifer cyfartalog y parciau, gerddi cyhoeddus, neu gaeau chwarae o fewn radiws 1000m yw 2.67, ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 3.4.¹⁷⁶ Mae llai o fannau gwyrdd cyhoeddus o ansawdd da fel arfer yn gysylltiedig ag ardaloedd difreintiedig yn economaidd ond mae rhai o'r ardaloedd hyn yn Sir Fynwy ymhlith yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y sir, felly mae'r ffigurau'n bennaf oherwydd natur wledig yr ardal a maint bach y trefi/pentrefi priodol.¹⁷⁷

Mae yna mwy na 3,850 hectar o dir gwledig cyffredinol yn Sir Fynwy ac mae hawl fel arfer cerdded ar y tir hwn, gan gynnwys 24 maes pentref. Ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae yna tua 150 hectar o dir wedi ei ddynodi fel Mynediad Agored, gan gynnwys 3,550 ha o goetir mynediad agored sydd yn cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru.¹⁷⁸

Mae gan Sir Fynwy tua 2,165 cilometr o hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau cyhoeddus yn bennaf, gan gynnwys sawl llwybr pellter hir fel Llwybr Arfordir Cymru a llwybr Clawdd Offa. Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn bwysig ar gyfer hamdden ynghyd â thwristiaeth, teithio llesol ac i wella iechyd a lles. Fodd bynnag, mae 89% yn droedlwybrau yn unig ac nid ydynt yn addas ar gyfer seiclwyr a'r sawl sydd yn marchogaeth. Mae Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad Sir Fynwy 2020-2030 yn amlinellu'r amcanion ar gyfer rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus y sir, a mynediad ehangach i'r cyhoedd, ac yn cydnabod y pwysigrwydd o gael mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd ar gyfer lles corfforol a meddyliol trigolion ac ymwelwyr.¹⁷⁹ Mae Fforwm Mynediad Rhanbarthol ar gyfer Gwent hefyd yn cael ei sefydlu er mwyn gwella'r rhwydwaith mynediad cefn gwlad ar lefel ranbarthol a lleol.

Ansawdd Aer a Dŵr

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	-----------------------	----------------------	-------------------------	----------------------------	---	--

Llygredd aer yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd yn y DU, gyda rhwng 28,000 a 36,000 o farwolaethau'r flwyddyn yn cael eu priodoli i amlygiad hirdymor.¹⁸⁰ Mae costau iechyd a gofal cymdeithasol sylweddol yn gysylltiedig â llygredd aer.

Mae ansawdd aer ar draws Sir Fynwy yn amrywio. Er ei fod yn llai na rhai rhannau eraill o Went, yn ei gyfanrwydd, mae llygredd yn dal yn gymharol uchel o ystyried natur wledig y sir. Nid oes gan Sir Fynwy gyfraniad diwydiannol sylweddol i ansawdd aer, felly mae ansawdd yr aer yn y sir bron yn gyfan gwbl oherwydd allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gyda lefelau uchel o nitrogen deuocsid a gronynnau o gerbydau, sy'n arbennig o niweidiol i iechyd.¹⁸¹ Mae gan Sir

Fynwy ddwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer, a rhoddir manylion y rhain yn y penodau ardal. Yn 2020, oherwydd effaith y pandemig Covid a chyfnodau clo, fe wellodd ansawdd yr aer yn Sir Fynwy o gymharu â 2019 ym mhob lleoliad monitro ansawdd aer, a chrynodiadau 2020 oedd yr isaf hyd yma.¹⁸² Nid yw'r data ar gael eto ers i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai dim ond dros dro y bu'r gwelliant hwn mewn ansawdd aer a bod allyriadau'n debygol o ddychwelyd i lefelau cyn-Covid.



Un o'r dyluniadau poster gwrthsegru buddugol

gwaddodion, yn fygythiad sylweddol i fywyd gwyllt a phlanhigion yn y sir. Mae CNC wedi cyflwyno canllawiau cynllunio manwl er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cynyddu'r lefelau ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afon Gwy a 'r Afon Wysg.¹⁸⁴ Yn Sir Fynwy, mae 3 ardal lle mae gan ddŵr daear, neu mewn perygl o gael, lefelau uchel o nitradau.¹⁸⁵ Mae'r brif ardal o amgylch Rhaglan, ac mae ardal fechan hefyd o Dryleg a rhan fechan sy'n croesi'r ffin ger Trefynwy. At hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dynodi Cymru fel Parth Perygl Nitradau. O dan Gyfarwyddiaeth Nitradau'r CE, mae Parth Perygl Nitradau yn cael eu dynodi er mwyn amddiffyn dŵr yn erbyn llygredd nitradau o ffynonellau amaethyddol fel gwrteithiau a slyri, ac mae angen Cynllun Gweithredu.¹⁸⁶ Mae lefelau uchel o nitradau yn gysylltiedig ag arferion amaethyddol, megis newid mewn amaethyddiaeth i ffwrdd o ffermio da byw helaeth i ffermio â'r mwy dwys, garddwriaeth a chynhyrchu dofednod.


Mae ansawdd dŵr yn amrywio ar draws y sir. Ystyrir bod dyfrffyrdd a aseswyd dan Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr UE yn ddrwg, yn wael neu'n gymedrol, yn methu'r safonau ac mae angen eu gwella i fod yn dda o leiaf erbyn 2027. Cânt eu hasesu ar gyfuniad o fonitro ecolegol a chemegol.

Mae cwynion am geir yn troi'n segur, yn enwedig y tu allan i ysgolion, wedi arwain at ymgyrch atal segura yn 2020/21, gyda phlant yn dylunio posteri i'w gwneud yn arwyddion ffyrdd.

Mae afonydd a dŵr yn ffurfio rhai o nodweddion mwyaf deniadol tirwedd Sir Fynwy. Maent yn cael eu hystyried yn llwybrau poblogaidd ar gyfer cerdded a beicio fel Dyffryn Wysg a Cheunant Clydach ac maent yn gyrchfannau i ymwelwyr fel Ceunant Gwy, Cronfa Ddŵr Llandegfedd a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu. Mae gan ddyffrynnoedd yr afonydd werth ecolegol uchel yn ogystal â bod yn ganolbwynt i aneddiadau hanesyddol. Fodd bynnag, mae pwysau o ganlyniad i gynnydd mewn defnydd hamdden, newidiadau mewn arferion amaethyddol a newid hinsawdd yn parhau i effeithio ar y tirweddau deniadol hyn.¹⁸³

Mae CNC yn nodi bod llygredd dŵr o ffynonellau gwledig, yn enwedig ffosffadau, nitradau a

Mae map CNC isod yn dangos ansawdd dŵr pob dyfrffordd yn Sir Fynwy gyda rhagor o fanylion ym mhob un o'r 5 asesiad ardal leol. Mae sawl corff dŵr yn Sir Fynwy yn wynebu amrywiaeth o lygredd gwasgaredig gwledig, diwydiannol a charthion.



Ansawdd dŵr yn Sir Fynwy (Ffynhonnell: CNC)¹⁸⁷

O ganlyniad i'r bygythiad o lygredd i gyflenwadau dŵr, mae gan Sir Fynwy gyfanswm o 19 Parth Diogelu Tarddiad Dŵr Daear sy'n ceisio diogelu dyfrhaenau tanddaearol sy'n ffynhonnell bwysig o ddŵr yfed fel ffynhonnau, tyllau turio a ffrydiau, mewn ardaloedd lle mae'r perygl o lygru dŵr daear yn uchel. Nod Parthau Diogelu Tarddiad Dŵr Daear yw sicrhau nad yw dŵr gwastraff neu garthffosiaeth, slyri, plaladdwyr, chwynladdwyr, olew neu gemegau eraill yn llygru.¹⁸⁸

Mae Byrddau Rheoli Maethynnau yn ffordd bwysig i leihau effeithiau maethynnau ar ddalgylchoedd fel Bwrdd Rheoli Maethynnau'r Gwy a Bwrdd Rheoli Maethynnau'r Wysg, sydd wedi eu sefydlu nawr.¹⁸⁹ Er bod Afonydd Wysg a Gwy wedi'u diogelu fel Ardaloedd Cadwraeth

Arbennig oherwydd ansawdd eu dŵr, mae'r ddwy bellach yn methu â chyrraedd safonau ansawdd dŵr.¹⁹⁰ Oherwydd pryderon a godwyd gan dystiolaeth o ordyfiant algâu yn Afon Gwy yn 2020, adolygodd CNC dair blynedd o ddata ac ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd dystiolaeth yn dangos bod 88% o ddalgylch Afon Wysg a 67% o ddalgylch Afon Gwy wedi methu â bodloni'r targed ffosffad gofynnol. Gall ewtroffeiddio, sef y cynnydd mewn maetholion yn y dŵr, arwain at newidiadau i llystyfiant, mwy o algâu a llai o ocsigen, gan wneud y dŵr yn anaddas ar gyfer pysgod ac anifeiliaid eraill, neu hamdden. Mae CNC wedi awgrymu bod y lefelau ffosffad uchel yn deillio o amrywiaeth o faterion gan gynnwys rhyddhau carthffosiaeth a gorbori, er bod

Beth fyddai yn gwneud eich ardal yn well?

“Afonydd glân a gwrthod datblygiadau sydd yn achosi llygredd i fyny'r afon”

“Afon Gwy sydd yn lân a heb lygredd”

“Afonydd heb lygredd a thrigolion lleol wedi eu hymrymuso i fonitro ac adrodd ar gyflwr yr afonydd yn eu hardaloedd”

llawer o'r ymgyrchoedd cyhoeddus yn rhoi'r bai am faterion ansawdd dŵr ar gynnydd mewn ffermydd dofednod.¹⁹¹ Mae penderfyniad diweddar Lywodraeth y DU ynghylch tynhau'r cyfyngiadau ar gwmnïau dŵr yn rhyddhau carthion i gyrsiau dŵr wedi dod â'r mater hyd yn oed yn fwy i lygad y cyhoedd, gydag ymateb cryf gan y cyhoedd.¹⁹² Wrth inni wynebu tywydd mwy eithafol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, ac arferion adeiladu tai ychwanegol gan ddefnyddio'r un rhwydwaith carthffosiaeth, mae'r tebygolrwydd o lygredd carthion yn y dyfodol yn cynyddu.

Daw cyflenwad dŵr Sir Fynwy o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd dŵr wyneb, megis


cronfa ddŵr Tal-y-bont ar Wysg, echdyniadau afon o'r Gwy ac Afon Wysg a chyflenwadau dŵr preifat fel tyllau turio, ffynhonnau a ffrydiau. Daw 95% o gyflenwad dŵr Cymru o afonydd a chronfeydd dŵr, sy'n agored i sychder a glawiad isel, amodau y rhagwelir y byddant yn dod yn amlach gyda newid yn yr hinsawdd.¹⁹³ Fel sir wledig, mae gan Sir Fynwy tua 1000 o eiddo gyda chyflenwadau dŵr preifat.¹⁹⁴

Newid Hinsawdd

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	-----------------	-----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Wrth ystyried newid hinsawdd, mae'n bwysig ystyried sut mae Sir Fynwy yn cyfrannu at newid hinsawdd, a pha mor hydwyth yw'r sir i'w heffeithiau tebygol. Mae newid hinsawdd yn fater byd-eang; mae allyriadau Sir Fynwy yn cyfrannu at allyriadau byd-eang ac nid ydynt yn aros o fewn ein ffiniau. Mae sut mae'r sir yn gweithio i leihau allyriadau carbon yn rhan sylweddol o'n cyfraniad at fod yn gyfrifol yn fyd-eang.

Yn 2019, roedd allyriadau carbon deuocsid (y prif gyfrannwr o waith dyn at newid yn yr hinsawdd) fesul preswlydd yn Sir Fynwy yn 6.6 tonnall.¹⁹⁵ Mae'r ffigur hwn wedi gostwng yn gyson bob blwyddyn ers 2010, yn ôl pob tebyg oherwydd y gyfran gynyddol o ynni a gynhyrchir gan ynni adnewyddadwy. Pan archwilir ffigurau carbon yn fanylach, mae'n amlwg mai allyriadau o drafnidiaeth oherwydd natur wledig y sir a'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus wael yw'r rheswm am yr allyriadau cyffredinol uchel.¹⁹⁶ Adlewyrchir hyn hefyd gan fod gan Sir Fynwy'r ôl troed carbon mwyaf yng Ngwent.¹⁹⁷



Allyriadau deuocsid awdurdodau lleol y DU, Ystadegau Gwladol

Mae allyriadau o'r sector domestig hefyd yn uwch nag awdurdodau cyfagos. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw, mewn cymhariaeth, fod gan Sir Fynwy fwy o dai sy'n hŷn a gyda waliau solet, felly sy'n anoddach eu hinswleiddio, ac oherwydd bod natur wledig y sir yn golygu bod llawer o eiddo yn dibynnu ar olew ar gyfer eu gwresogi, yn hytrach na nwy o'r prif gyflenwad. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn canfod eu hunain mewn tloedi tanwydd (gweler yr adran "Tai").¹⁹⁸

Mae camau'n cael eu cymryd i leihau allyriadau drwy gyflwyno technolegau ynni adnewyddadwy ledled y sir. Erbyn diwedd 2019, roedd 3,655 o osodiadau ynni adnewyddadwy yn Sir Fynwy, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn rhai solar ffotofoltäig.¹⁹⁹ Y capasiti ynni adnewyddadwy a osodwyd yn Sir Fynwy oedd 85.3 MW a'r swm a gynhyrchwyd oedd 105,288MWh, i fyny o 61,204 yn 2015. Fodd bynnag, mae gostyngiadau Llywodraeth y DU mewn Tariffau Cyflenwi Trydan yn golygu nad yw'r ffigurau hyn wedi cynyddu mor gyflym yn y blynyddoedd diwethaf, er bod tystiolaeth anecdotaidd gan osodwyr solar lleol yn dangos bod busnes yn ffynnu wrth i fwy o bobl weithio gartref o ganlyniad i Covid, ac eisiau gwneud y gorau o gynhyrchu trydan yn ystod y dydd. Tra'n ymgysylltu gyda thrigolion, mae yna gydnabyddiaeth cryf o'r pwysigrwydd o ddefnyddio ynni adnewyddadwy er mwyn helpu lleihau newid hinsawdd. Mae sicrwydd ynni yn y dyfodol yn y DU yn bryder sylweddol oherwydd erbyn 2050, bydd 50% o olew'r DU yn dod o wledydd a allai fod yn ansefydlog, a bydd 80% o danwydd yn dod o dramor - felly mae cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy yn hynod bwysig, er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon ac ar gyfer diogelwch ynni.²⁰⁰

“Ffocyswch ar leihau pethau sydd yn gwaethygu cynhesu bydeang, yn cefnogi insiweiddio cartrefi, yn cyflwyno paneli solar, gwresogi dŵr solar, gwresogi na sy'n dibynnu ar danwydd ffosil ayyb”

“Rwy'n credu bod cymryd camau cadarn i ddelio gyda newid hinsawdd yn bwysig iawn. Pa fath o fyd ydym yn ei drosglwyddo i'r cenedlaethau iau?”

Er bod twristiaeth cerdded a beicio yn Sir Fynwy yn uchel, mae mynediad cyfyngedig i lwybrau beicio diogel oddi ar y ffordd i deuluoedd a chymudo o ddydd i ddydd yn debygol o gyfrannu at ein hallyriadau carbon. Mae hyn, ynghyd â darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus wael, yn cyfrannu at allyriadau carbon deuocsid uchel Sir Fynwy (gweler yr adran 'Trafndiaeth' am wybodaeth am Deithio Llesol a'r mesurau sydd yn cael eu cymryd i gynyddu'r nifer sydd yn cerdded a seiclo).

Mae llawer o weithgarwch trydydd sector ar newid yn yr hinsawdd yn cael ei wneud gan Drefi Trawsnewid a llawer o grwpiau eraill yn Sir Fynwy i leihau allyriadau carbon a meithrin hydwythedd lleol i newid yn yr hinsawdd. Un o asedau mwyaf Sir Fynwy yw ei diwylliant cryf o wirfoddoli a chyfranogiad gweithredol y trydydd sector, fel y disgrifir yn yr adran 'Lles Diwylliannol', sy'n cynnwys grwpiau amgylcheddol a chynaliadwyedd. Bu cynnydd sylweddol yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o newid yn yr hinsawdd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a adlewyrchwyd yn y nifer cynyddol o ymgyrchoedd a grwpiau ymgyrchu fel Gwrthryfel Dyfodiant Fenni, a Streiciau Ysgol ar gyfer Hinsawdd.²⁰¹



Streic Youth 4 Climate y Ffynnonell (ffynbonnell: Youth 4 Climate y Ffynnonell)

Roedd pwysau'r cyhoedd gan y grwpiau hyn yn un o'r ffactorau pan ddatganodd Cyngor Sir Fynwy Argyfwng Hinsawdd ym mis Mai 2019, yn dilyn cyflwyniadau i'r cyngor gan grwpiau cymunedol a phobl ifanc. Cyhoeddwyd Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Chynllun Gweithredu ym mis Hydref 2019, yr adroddiad cynnydd diweddaraf oedd Mehefin 2021, a chytunwyd ar Gynllun Gweithredu wedi'i adnewyddu ym mis Tachwedd 2021.²⁰²


Mae 3^{ydd} Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU ar gyfer Cymru 2021 yn rhagweld hafau poethach, sychach, gaeafau cynhesach, gwlypach a digwyddiadau tywydd mwy eithafol.²⁰³ Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn yn y dyfodol mewn patrymau tywydd yn sylweddol ac yn cynnwys cynnydd mewn perygl llifogydd, marwolaeth neu salwch sy'n gysylltiedig â gwres, effeithiau iechyd, risg i ecosystemau, cynhyrchu bwyd a phren, pwysau ar gyflenwad dŵr ac ati.²⁰⁴

Bydd y potensial ar gyfer cynnydd mewn llifogydd yn destun pryder arbennig yn Sir Fynwy. Mae effeithiau llifogydd yn cael eu teimlo fwyfwy ar draws y sir. Yn ystod gaeaf 2019/20 yn unig, mae'n hysbys bod cyfanswm o tua 180 eiddo preswyl a 50 eiddo masnachol wedi dioddef llifogydd ar draws y sir.²⁰⁵ Digwyddodd y llifogydd hyn yn: Ynysgynwraidd, Trefynwy, Brynbuga, Llanbadog, y Ffynni, Cil-y-coed, Llanfihangel Gobion, Llanwenarth a Thyndyrn, gyda rhai o'r eiddo hyn (yn Ynysgynwraidd a Threfynwy) yn gorlifo ddwywaith mewn llai na chwe mis. Mae llifogydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol, yswiriant, yr economi a seilwaith.



Maint y llifogydd ym Brynbuga ym mis Chwefror 2020

Mae'r map canlynol gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dangos mai Brynbuga a Threfynwy yw'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd afonydd, ond mae'r Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed hefyd mewn perygl. Mae rhannau o Dyndyrn hefyd yn gorlifo'n rheolaidd pan fydd llanw mawr yn y gwanwyn. Archwilir yr effeithiau hyn yn fanylach yn yr Asesiadau Ardal Leol.



Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cymryd llifogydd dŵr wyneb i ystyriaeth, felly mae'r perygl o lifogydd yn uwch mewn gwirionedd. Mae data Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Sir Fynwy yn amcangyfrif bod tua 1,344 o bobl a 292 eiddo mewn perygl uchel (1 mewn 30 mlynedd) neu

ganolig (1 mewn 100 mlynedd) o lifogydd o ddŵr wyneb, wedi'u clystyru'n bennaf o amgylch Cil-y-coed, ond hefyd yn y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent.²⁰⁶

Mae Data Perygl Llifogydd Cenedlaethol o 2021 (heb ei gyhoeddi eto) yn dangos y nifer canlynol o eiddo sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir Fynwy heddiw:

	Llanw			Afonol (Afon)			Dŵr wyneb		
	Isel	Canolig	Uchel	Isel	Canolig	Uchel	Isel	Canolig	Uchel
Preswyl	435	671	167	1754	252	80	1347	162	168
Dibreswyl	54	163	15	474	58	25	154	32	31

*Ffynbonnell: Data Perygl Llifogydd Cenedlaethol (heb ei gyhoeddi eto)*²⁰⁷

Roedd y polisi cynllunio cenedlaethol wedi cyflwyno dull rhagofalus yn 2005 ac wedi ceisio gwyrhoeddi datblygiadau fel tai i ffwrdd o'r ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae'r polisi yma wedi ei weithredu'n llwyddiannus, fel sydd wedi ei amlygu gan y digwyddiadau llifogydd diweddaraf. Roedd fersiwn ddiwygiedig o'r polisi cenedlaethol er mwyn adlewyrchu modelu newid hinsawdd i'w gyhoeddi yn Rhagfyr 2021 ond bydd hyn anwr yn digwydd ym Mehefin 2023.

“Nid yw'r systemau dŵr sydd gennym wedi eu hadeiladu er mwyn delio gyda newid hinsawdd a'r fath law yr ydym yn profi. Rhaid i ni weithio i addasu ac ehangu ein gwasanaethau fel hyn er mwyn osgoi llifogydd pellach a difrodi ein pentref”

Er bod llifogydd dŵr wyneb yn debygol o barhau i fod yn broblem, yn enwedig gyda mwy o law a thywydd eithafol, mae deddfwriaeth wedi'i chyflwyno yn y blynyddoedd diwethaf sy'n ceisio lleihau'r graddau y mae datblygiadau yn y dyfodol yn gwaethygu llifogydd dŵr wyneb: mae pob datblygiad newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo ar ôl Ionawr 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i systemau draenio cynaliadwy (SuDS) ar gyfer dŵr wyneb gael eu cymeradwyo cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.^{208 209}


Yn ogystal â'r effaith ar gartrefi, gall effeithiau llifogydd ar fusnesau fod yn sylweddol, a gall difrodi seilwaith achosi aflonyddwch enfawr i fusnes a bywyd cymunedol. Mae angen cyllid sylweddol i liniaru ac atgyweirio effeithiau fel hyn. Er enghraifft, derbyniodd Cyngor Sir Fynwy bron i £1.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2020/21 ar gyfer atgyweirio pontydd, cylfatiau, tirlithriadau, llwybrau troed a phontydd troed a gafodd eu difrodi yn Storm Dennis.

Gwastraff ac Ailgylchu

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	----------------	---------------	-------------------------	-----------------------------------	---	--


Mae Sir Fynwy yn ffodus i gael llawer iawn o ewyllys da gan y cyhoedd tuag at ailgylchu, sydd wedi arwain at ein cyfraddau ailgylchu da.

Yn 2016, cyflwynwyd newidiadau i adrodd ar wastraff pren ledled Cymru a'u cyfuno â gostyngiad yn y cyllid ar gyfer ymgyrchoedd ailgylchu cenedlaethol a lleol, gostyngodd ffigurau ailgylchu yn Sir Fynwy, ynghyd â llawer o awdurdodau, ychydig yn ôl. Fodd bynnag, erbyn 2020/21 roedd y ffigur hwn yn ôl i 68.4% o wastraff dinesig Sir Fynwy yn cael ei anfon i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru dros y cyfnod hwn.²¹⁰ Mae hyn oherwydd bod cyfraddau ailgylchu ymyl y ffordd yn cynyddu pan gaeodd y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn ystod y cyfyngiadau symud Covid, pan welwyd y gyfradd ailgylchu uchaf erioed yng CSF o 74% yn chwarter cyntaf 2020/21, gyda'r nifer uchaf erioed o drigolion yn defnyddio casgliadau ailgylchu ymyl y ffordd.²¹¹



% o wastraff sy'n cael ei aildddefnyddio/ailgylchu/gompostio (Ffynhonnell: StatsCymru)


Mae cyfanswm y gwastraff dinesig a gesglir wedi gostwng yn raddol bob blwyddyn o 2016/16, gyda gostyngiad sylweddol i 40,082 tonnall yn 2020/21.²¹² Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu'r cyfranogiad gwell yn y cynllun ailgylchu ymyl y ffordd yn ystod y cyfyngiadau symud, a hefyd efallai lefelau is o ddefnydd a gwastraff yn ystod y cyfnod hwn.



Cyfanswm y Gwastraff Dinesig a gasglwyd/ a gynhyrchwyd (tunelli) (Ffynbonnell: StatsCymru)

Gostyngodd nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yn Sir Fynwy yn raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn o 846 o ddigwyddiadau yn 2006/07 i 303 o ddigwyddiadau yn 2015/16, ac yna arhosodd yn isel am rai blynedd, ond ymddengys ei fod wedi cynyddu yn 2019/20 i 572.²¹³ Mae anfodlonrwydd ynghylch lefelau sbwriel yn y sir. Yn 2018/19, dim ond 60% o'r rhai a holwyd yn Sir Fynwy oedd yn fodlon â'r lefelau sbwriel, er bod hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 54%.²¹⁴ Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae lefelau glendid strydoedd gwirioneddol yn uchel, gyda 97.2% o strydoedd a archwiliwyd yn 2018/19 yn cael eu hystyried i fod o safon uchel neu dderbyniol o lanweithdra, felly nid yw boddhad o reidrwydd yn cyd-fynd â chanfyddiadau pobl.²¹⁵

Mewn ymateb i lefelau uchel o sbwriel ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn Caru Cymru, sy'n gweithio gyda phob awdurdod lleol ar ymgyrchoedd i leihau sbwriel.²¹⁶ Yn Sir Fynwy, mae hyn wedi cynnwys sefydlu hyrwyddwyr sbwriel, sefydlu canolfannau codi sbwriel a chynyddu arwyddion mewn lleoliadau fel cilfannau, meysydd parcio a safleoedd picnic, yn ogystal ag ymgyrchoedd lleol proffil uchel.²¹⁷ Gwelodd Sir Fynwy lefelau cynyddol o sbwriel, yn enwedig wrth i'r cyfyngiadau symud leddfu a bod mwy o bobl yn ymgynnull ac yn cyfarfod yn yr awyr agored i gymdeithasu.



Ymgrych gwrth-sbwriel Sir Fynwy

Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith plastig untro wedi cynyddu'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn Sir Fynwy, mae hyn wedi arwain at gynnydd dilynol mewn mentrau tref di-blastig yn y sir, ac yn 2018, cytunodd Cyngor Sir Fynwy yn unfrydol i weithio tuag at ddod yn Sir Fynwy Ddi-blastig.²¹⁸ Mae gwaith i leihau plastig untro wedi cynnwys symud o laeth ysgol mewn poteli plastig i'w ddosbarthu o laethdy lleol mewn poteli gwydr, symud o fagiau ailgylchu untro i sachau polypropylen y gellir eu hailddefnyddio, a gwaharddiad ar gwpanau untro yn swyddfeydd y cyngor.

Bu symudiad amlwg tuag at bwyslais cynyddol ar aildefnyddio ac atgyweirio, a elwir yn economi gylchol, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r cyngor wedi helpu i hwyluso sefydlu Caffis Atgyweirio Cymunedol yn y Fenni a Threfynwy, ac mae argaeledd cyllid Economi Gylchol Llywodraeth Cymru wedi arwain at sefydlu 2 siop aildefnyddio mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, 4 Benthyc Cymru, a chefnogi mentrau eraill megis sefydlu oergelloedd cymunedol i gymryd bwyd gwastraff a chaffis trwsio ymhellach. Yn ogystal â manteision llesiant amgylcheddol clir drwy leihau gwastraff a defnydd, mae manteision lles cymdeithasol ac economaidd sylweddol wrth i gymunedau lleol gydweithio, rhannu sgiliau ac arbed arian.

Beth fyddai'n gwneud yr ardal yn well?

“Mwy o bwyslais ar faterion gwyrdd – annog pobl i ailgylchu ac aildefnyddio”



Agorodd Siop Ailddefnyddio Llan-ffynyst yn 2019

Cyfannu

Mae'n bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Isod, ceir crynodeb o sut mae'r adrannau 'Lles Amgylcheddol' yn cyfannu ag adrannau eraill o'r asesiad i nodi'r berthynas rhwng y ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant.


Tirwedd a chefn gwlad

Heb os, un o asedau mwyaf Sir Fynwy yw ei thirwedd a'i hamgylchedd naturiol, sy'n elfen annatod o economi'r sir drwy amaethyddiaeth, coedwigaeth a thwristiaeth. Mae rhwydwaith seilwaith gwyrdd y sir yn hybu iechyd a lles, yn hanfodol i hydwythedd, ac yn cynnal manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol lluosog.



Ansawdd Aer a Dŵr

Mae adnoddau naturiol, fel aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd, yn darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, ynni a diogelwch. Maent yn ein cadw'n iach ac yn helpu pobl a'r economi i ffynnu. Mae'r economi leol a defnydd trafndiaeth i gyd yn effeithio ar ansawdd aer a dŵr, a all effeithio ar iechyd a lles amgylcheddol pobl.



Newid Hinsawdd

Mae'n bwysig ystyried sut mae Sir Fynwy yn cyfrannu at newid hinsawdd, a pha mor hydwyth yw'r sir i'w heffeithiau tebygol. Mae ystod enfawr o ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn effeithio, ac yn cael eu heffeithio gan, newid yn yr hinsawdd.



Gwastraff ac Ailgylchu

Mae ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i gyd yn effeithio ar faint o wastraff a gynhyrchir yn Sir Fynwy a faint sy'n cael ei ailgylchu. Maent hefyd yn effeithio ar lendid y sir. Mae llawer o grwpiau trydydd sector yn gweithio ym meysydd yr amgylchedd a chynaliadwyedd, sy'n cynnwys llawer o wirfoddolwyr.



Lles Diwylliannol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyried gwella llesiant diwylliannol gyda'r nod o gyflawni'r 7 nod llesiant. Mae'r meysydd eang o lesiant sy'n ymwneud â diwylliant sy'n cyfrannu at eu cyflawniad yn Sir Fynwy wedi'u hystyried yn yr asesiad, ynghyd â chysylltiadau a rhyngweithiadau cryf rhwng llesiant diwylliannol a llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Iaith Gymraeg

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Yn 2017, nododd Llywodraeth Cymru ei huchelgais i gyflawni 1 miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050 yn Strategaeth Gymraeg 2050. Mae'r strategaeth yn gosod targedau heriol ar gyfer y tymor hir a'r tymor byr; mae'r rhain yn cynnwys cynyddu cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Gymraeg a chynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ystyried lleoliad Sir Fynwy yng nghornel de-ddwyrain Cymru, yn ogystal â'i ffin gyffredin â Lloegr, mae canfyddiad cyffredinol bod defnydd o'r Gymraeg yn isel. Fodd bynnag, dangosodd

Cyfrifiad 2011 fod Sir Fynwy yn un o ddim ond dau awdurdod lleol yng Nghymru i weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y ddegawd flaenorol, o 9.7% i 9.9%.²¹⁹ Ffactor tebygol yn y cynnydd hwn yw twf y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, sydd wedi'u lleoli yn y naill ben a'r llall i'r sir: Ysgol Gymraeg y Fenni yn y Fenni, ac Ysgol Y Ffin yng Nghil-y-coed.

Fodd bynnag, mae data mwy diweddar o Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi dangos gostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg. Roedd canran y rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn Sir Fynwy yn 8% yn 2019/20, ar ôl bod yn 11% (2018/19) a 15% (2017/18) mewn datganiadau blaenorol.²²⁰ Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amrywiadau hyn, yn seiliedig ar faint sampl yr arolwg. Mae'r arolwg hefyd yn dangos gostyngiad ar gyfer Cymru yn 2019/20, sef 22%, ar ôl bod yn 29% yn y 3 datganiad blaenorol. Bydd data Cyfrifiad 2021 sydd ar ddod yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o sgiliau Cymraeg y sir.

Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y sir wedi arwain at ymgynghori ar gynigion o ran adleoli'r ysgol gynradd i safle mwy. Cyfeirir at y cynigion yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSyGA) y sir, sef cynllun sy'n ceisio adolygu a gweithredu mesurau i godi lefel y Gymraeg ar draws y sector addysg yn Sir Fynwy.

Mae cylchoedd cyn-ysgol megis Cylch Ti a Fi yn rhoi cyfle i blant a'u rhieni gyfarfod unwaith yr wythnos mewn awyrgylch Cymraeg anffurfiol; mae darpariaeth yn Sir Fynwy wedi'i gwasgaru ar draws y sir gyda grwpiau yn y Fenni, Cil-y-coed a Threfynwy. Mae cylch chwarae Meithrin hefyd wedi'i leoli yn y Fenni sy'n darparu gofal sesiynol dyddiol ac addysg i blant 2 i 5 oed. Mae argaeledd grwpiau o'r fath yn arwydd cadarnhaol o bresenoldeb y Gymraeg yn Sir Fynwy ac yn caniatáu i'r iaith ffynnu yn ifanc.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sir ar lefel ysgolion uwchradd. Mae disgyblion yn teithio i Ysgol Gyfun Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl neu i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd – mae'r diffyg darpariaeth leol hon yn rhwystro i rai rhieni anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae grwpiau cymunedol Cymraeg yn bodoli ym mhob un o'r trefi. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer amrywiol weithgareddau, megis boreau coffi a grwpiau darllen, ac yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae grwpiau eraill sydd ag olion traed rhanbarthol/cenedlaethol hefyd yn weithredol yn Sir Fynwy, megis yr Urdd a Menter Iaith BGTm, sy'n gweithio gydag ysgolion ac o fewn cymunedau i hybu'r defnydd o'r iaith. Mae grwpiau Cymraeg gweithredol hefyd wedi'u lleoli mewn awdurdodau cyfagos, felly maent yn hawdd eu cyrraedd i drigolion Sir Fynwy, y mae llawer ohonynt yn manteisio ar y cyfle hwn i ddefnyddio, dysgu neu ddatblygu eu sgiliau. Mae diddordeb cynyddol yn yr iaith, fel y dangosir gan boblogrwydd cynyddol y ddarpariaeth addysg Cymraeg i Oedolion; yn wir, mae yna brinder cydnabyddedig o diwtoriaid Cymraeg eu hiaith i ateb y galw presennol.


Roedd yr ymatebion i'r broses ymgysylltu yn cynnwys barn gymysg ar iaith, gyda rhai yn dymuno i gael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd, tra bod eraill yn credu y dylid rhoi llai o bwyslais ar yr iaith.

“Hoffem weld mwy o gyfleoedd er mwyn medru defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned”

Ffydd a Chrefydd

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	-----------------	----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Y data o Gyfrifiad 2011 yw'r ffynhonnell ddata fwyaf cynhwysfawr o hyd ar gyfer ffydd a chrefydd.



Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod 62.5% o drigolion Sir Fynwy yn Gristnogion, sy'n agos at 5 pwynt canran yn uwch na Chymru yn gyffredinol. Cynrychiolwyd y prif grefyddau eraill gan ffigurau o lai na chanran, fel y dangosir yn y graff.

Mae gan Sir Fynwy Ganolfan Fwdhaidd yn Rhaglan, ond lleolir y Mosg agosaf naill ai ym Mlaenau Gwent neu Gasnewydd, ac mae llawer o'r addoldai agosaf ar gyfer crefyddau

eraill yng Nghaerdydd neu Fryste. Yn 2021, nodwyd lleoliad cymunedol i sefydlu canolfan ddiwylliannol aml-ffydd yn y Fenni, gyda chynlluniau i dreialu sesiynau gweddi dydd Gwener ar gyfer y ffydd Fwslimaidd. Roedd rhai sylwadau o'r ymatebion ymgysylltu wedi nodi'r diffyg siopau halal, a'r pellter sydd angen teithio er mwyn cyrraedd y Mosque agosaf.

Mae ffigurau cyfrifiad o 2011 yn dangos bod 98% o boblogaeth Sir Fynwy o ethnigrwydd gwyn. Dim ond niferoedd bach o drigolion du a lleiafrifoedd ethnig eraill sydd yn Sir Fynwy, ac Asiaidd yw'r grŵp mwyaf, sef 1% o'r boblogaeth (900 o bobl).

Mae gan lawer o bobl yn Sir Fynwy ymdeimlad cryf o berthyn i'w hardal leol. Yn 2018/19 dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru y bu cynnydd mewn llawer o'r dangosyddion yn yr adran cydlyniant cymunedol. Mae'r raffeg isod yn dangos sut mae Sir Fynwy yn cymharu â gweddill Cymru yn y Dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n rhan o'r adran.

Bodddhad gyda'r ardal leol - Sir Fynwy

2016/17	2018/19	Safle yng Nghymru
90.8%	91.8%	4/22

Meddu ar ymdeimlad o gymuned - Sir Fynwy

2016/17	2018/19	Safle yng Nghymru
53.4%	61.3%	3/22


Tirwedd a Threftadaeth

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	------------------------	----------------------	-------------------------	-----------------------------------	--	--

Mae gan Sir Fynwy hunaniaeth nodedig yn deillio o'i lleoliad ar y gororau rhwng Lloegr a De Cymru, a daearyddiaeth trefi marchnad a phentrefi hanesyddol a'u perthynas â'r ardaloedd gwledig cyfagos. Asesir y dirwedd a'r amgylchedd yn fanwl yn adran 'Lles Amgylcheddol' yr adroddiad hwn.

Mae tirwedd amrywiol Sir Fynwy yn gynnwys dylanwadau naturiol a dynol dros filoedd o flynyddoedd. Mae'r map a ganlyn yn dangos yr asedau tirwedd allweddol yn Sir Fynwy.²²¹ Mae llawer o nodweddion ac ardaloedd o werth hanesyddol a diwylliannol yn Sir Fynwy yn cael eu cydnabod fel asedau treftadaeth pwysig, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth a ddynodwyd oherwydd eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig, Parciau a Gerddi Hanesyddol cofrestredig, henebion cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd treftadaeth sydd wedi eu hadeiladu fel Abaty Tyndyrn, safleoedd treftadaeth diwydiannol fel Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon (yn rhannol yn Sir Fynwy), a Gwaith Dur Clydach a nifer sylweddol o gestyll ac eglwysi.

Asedau tirwedd allweddol yn Sir Fynwy



Mae atyniad asedau eiconig a hanesyddol o'r fath yn Sir Fynwy i'w weld yng nghanlyniadau Arolwg Ymwelwyr 2019, a ddangosodd fod 41% o bobl wedi dod i'r sir i ymweld â safleoedd neu atyniadau hanesyddol a chrefyddol; roedd hyn ychydig yn fwy tebygol o fod yn ffactor wrth ymweld â Sir Fynwy nag ymweld â Chymru gyfan (36%).²²² Abaty Tyndyrn (37%) a Chastell Casgwent (36%) oedd y safleoedd mwyaf tebygol o gael ymweliad. Bydd angen monitro'r effeithiau tymor byr a thymor hir ar dwristiaeth yn y sir o ganlyniad i'r pandemig.

Tirwedd a Chefn Gwlad oedd yr ail thema fwyaf poblogaidd pan ofynnwyd am yr hyn sydd yn arbennig lle y mae'r sawl sydd yn ymateb yn byw. Ar draws pob un o'r 5 awdurdod lleol, cyfeiriwyd at harddwch y tirwedd a'r gallu i gael mynediad at fannau gwyrdd agored.

Mae'n bwysig hyrwyddo a gwarchod y dirwedd hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, nid yn unig am ei phwysigrwydd i dreftadaeth Sir Fynwy ond am ei chyfraniadau cydnabyddedig i'r economi, yr amgylchedd ac iechyd a llesiant yn Sir Fynwy, fel y nodir mewn man arall yn yr asesiad hwn.

“Yr ardal wledig ar hyd a lled Sir Fynwy”


“Awyrgylch hyfryd naturiol”

“Ardal wledig hyfryd, hen adeiladau, hanes”

Gweithredu Cymunedol a Chymdeithasol

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	-----------------	----------------------	-------------------------	-----------------------------------	---	---------------------------------------

Mae gan Sir Fynwy hanes hir ac iach o wirfoddoli a gweithredu cymdeithasol lleol. Mae pobl yn dewis gwirfoddoli am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys y cyfle i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned neu wneud gwahaniaeth i'r bobl o'u cwmpas, rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau newydd, neu adeiladu ar brofiad a gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli.²²³ Datgelodd data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2019/20 fod 32.3% o bobl Sir Fynwy wedi gwirfoddoli, sef y ffigur ail uchaf yng Nghymru.²²⁴ Dangoswyd bod gwirfoddoli yn cael effaith gadarnhaol ar rwydweithiau cymdeithasol a chynhwysiant o fewn cymunedau. Mae rhaglen wirfoddoli 'Sir Fynwy, Sir Sy'n Gwasanaethu' (ACTS) yn helpu i amlygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yn y sir. Mae'n cydnabod y gellir datblygu'r cyfalaf cymdeithasol yn Sir Fynwy ymhellach i gefnogi llesiant.²²⁵



Mae pandemig Covid-19 wedi gweld ymateb aruthrol wrth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol symud ymlaen. Mae'r ymdrechion hyn wedi bod yn rhan annatod o gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn ein cymunedau yn ystod y pandemig. Ym mis Gorffennaf 2020, cytunodd BGC Sir Fynwy i fabwysiadu'n ffurfiol y model gweithio mewn partneriaeth seiliedig ar le o Rwydweithiau Cymorth Cymunedol ar draws y sir fel mecanwaith a fyddai'n anelu at gyflawni dyheadau'r cynllun llesiant, "i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn", gosod cymunedau a dinasyddion gweithgar ar draws y sir wrth galon yr hyn 'rydym yn ei wneud' drwy arwain strwythur cymorth aml-asiantaeth perthynol sy'n seiliedig ar le.

Atyniadau Diwylliannol

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	------------------------	-----------------	----------------------	-------------------------	-----------------------------------	--	---------------------------------------

Mae Sir Fynwy yn cynnig ystod eang o atyniadau celfyddydol a diwylliannol, gan gynnwys amgueddfeydd, theatrau a llyfrgelloedd. Mae'r sir yn cynnal llawer o ddigwyddiadau hir sefydlog, yn ogystal â rhai newydd a rhai sy'n ehangu, a gwyliau, gan gynnwys sioeau amaethyddol, gwyliau bwyd, gwyliau cerdd a rasys beicio. Mae ymchwil cynyddol yn dangos cysylltiad rhwng ymwneud â chwaraeon a diwylliant a llesiant goddrychol unigolyn wedi'i fesur fel hapusrwydd.²²⁶

Data cyfyngedig sydd i asesu'n llawn sefyllfa'r celfyddydau a digwyddiadau a'u cysylltiad dilynol â llesiant yn Sir Fynwy. Mae'r celfyddydau yn dod ag ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywyd bob dydd. Maent yn creu ac yn cynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dod â phobl ynghyd ac yn gwella ansawdd bywyd.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn nodi'r rolau y mae'r celfyddydau yn eu chwarae wrth gyfrannu at y nodau llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraniad at swyddi, cyfoeth a thwristiaeth drwy'r sector diwylliannol – er enghraifft, Theatr y Fwrdeistref yn y Fenni, sy'n cael ei hailddatblygu, a Gŵyl Afon Dyffryn Gwy – gan arfogi pobl ifanc â sgiliau dychymyg creadigol a gweledigaeth entrepreneuriaidd, manteision emosiynol iechyd a lles, a chefnogi iaith Gymraeg ffyniannus.

Yn 2019/20, dywedodd 75% o drigolion Sir Fynwy eu bod wedi bod i ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y 12 mis diwethaf, sef y ganran 3^{ydd} uchaf yng Nghymru.²²⁷ Dywedodd canran debyg (76%) o bobl eu bod wedi mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn, sy'n uwch na ffigur Cymru, sef 71%.

Mae amgueddfeydd ac atyniadau treftadaeth yn chwarae rhan bwysig wrth gadw hanes Sir Fynwy ar gyfer cymunedau ac ymwelwyr, gan ddarparu ymdeimlad o le i unigolion trwy hanes a threftadaeth casgliadau ac asedau treftadaeth, cryfhau cysylltiadau cymunedol trwy gynnwys grwpiau lleol mewn prosiectau a chyfrannu at yr economi leol. Mae casgliadau a'r straeon y maent yn olrhain hefyd yn bwysig iawn o ran llesiant, er enghraifft, drwy gefnogi y rhai hynny sydd yn byw gyda dementia a'u gofalwyr.²²⁸ Mae amgueddfeydd sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor wedi'u lleoli yn y Fenni, Cas-gwent, Cil-y-coed, Tyndyrn a Threfynwy.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddofn ar ddiwylliant a'r celfyddydau, gyda chloeon cychwynnol yn atal atyniadau rhag agor a phobl yn ymgasglu. Cafodd ffrydiau incwm eu seibio am amser hir, ac ar ôl eu hailagor, mae'n debygol y bydd petruster dychwelyd ochr yn ochr â chostau gweithredu a staff cynyddol i addasu i ganllawiau newydd, yn parhau i effeithio ar y

busnesau. Er mwyn esblygu, mae llawer o amgueddfeydd ac atyniadau hanesyddol/diwylliannol wrthi'n cynyddu lefel eu cynnwys digidol, ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd o ganlyniad.

Mae twristiaeth yn hanfodol i economi Sir Fynwy ac yn cynhyrchu incwm i gefnogi ystod eang o fusnesau sy'n elwa o wario ymwelwyr. Mae lleoliad y sir yn cynnig cyfleoedd allweddol fel porth i Gymru – gan gynnig y cyfle i wneud argraff gyntaf wych, yn enwedig nawr bod tollau Pont Hafren wedi'u dileu. Mae yna dystiolaeth sylweddol bod datblygu atyniadau diwylliannol hefyd yn meddu ar botensial mawr o ran datblygiad economaidd, y tu hwnt i dwristiaeth, gan arwain at adfywio a mwy o ymwelwyr gyda threfi a mwy o hyfywedd mewn canol trefi, sydd yn un o'r rhesymau dros fuddsoddiad y cyngor yn Llyfrgell Y Fenni a Theatr y Fwrdeistref, y cynlluniau ar gyfer Amgueddfa Neuadd Sir Trefynwy a'r cynigion diweddar am gyllid.²²⁹

Yn ôl arolwg ymwelwyr 2019, mae ymwelwyr â Sir Fynwy yn fwy tebygol o fod ar daith undydd nag ymwelwyr â Chymru gyfan (90%, o gymharu ag 89% ledled Cymru). Mae nifer cyfartalog y nosweithiau sy'n aros yn Sir Fynwy'r un peth â ffigur Cymru. Yn ôl yr arolwg, ymwelwyr â Sir Fynwy oedd fwyaf tebygol o fod wedi dod i'r ardal i ymweld â safleoedd neu atyniadau hanesyddol a chrefyddol (41%).

Mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan allweddol mewn darparu gwybodaeth, hyrwyddo gwybodaeth a datblygu sgiliau ar gyfer pobl o bob oed a phob cefndir. Mae chwe hyb cymunedol yn Sir Fynwy, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaethau llyfrgell, gan gynnig gwasanaethau corfforol a digidol i bawb. Mae cynlluniau fel Darllen yn Dda yn darparu llyfrau a argymhellir gan arbenigwyr iechyd ac yn darparu gwybodaeth a chynghor ar orffwylltra ac iechyd meddwl. Mae ystadegau 2018/19 yn dangos bod y llyfrgelloedd wedi gweld dros 400,000 o ymwelwyr ar draws y 6 safle a danfon i'r cartref.²³⁰ Mae pandemig Covid-19 wedi gweld mwy o bwyslais mewn gwasanaethau llyfrgell ar y cynnig digidol sydd ar gael, yn ogystal â gwasanaethau o bell.


Chwaraeon a Hamdden

Cyfraniad at nodau llesiant	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynys	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------------------	-----------------	-----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Mae tystiolaeth sylweddol i gefnogi manteision iechyd a lles ffyrdd iach ac egniïol o fyw i oedolion a phlant.²³¹ Mae canllawiau gan y Prif Swyddog Meddygol (PSM) yn argymhell y dylai oedolion anelu at fod yn egniïol bob dydd.²³² Mae ffordd o fyw egniïol yn bwysig i leihau lefelau gordewdra a chyflyrau cronig eraill, fel y trafodwyd yn yr adran 'Iechyd a Lles'. Dangosodd canfyddiadau allweddol o ymchwil gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod ymgysylltu â'r celfyddydau, defnydd aml o lyfrgelloedd a chyfranogiad mewn chwaraeon oll yn gysylltiedig â llesiant uwch.²³³


Mae Sir Fynwy yn sir ag amrywiaeth o seilwaith Gwyrdd, gan gynnwys mannau agored, llwybrau beicio a llwybrau cerdded yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau dan do ac awyr agored, clybiau chwaraeon, cymdeithasau a chyfleusterau cymunedol ledled y sir. Mae yna ganolfannau hamdden yn Y Fenni, Trefynwy, Cil-y-coed a Chas-gwent sydd yn chwarae rôl yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, llesiant ac iechyd meddwl. Mae pob un canolfan hamdden yn meddu ar byllau nofio, cyfleusterau ffitrwydd a meysydd chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2019/20 yn dangos bod 36% o oedolion yn Sir Fynwy wedi dweud eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy'r wythnos, sydd ymhlith y lefelau cyfranogiad uchaf a adroddwyd yng Nghymru.



Yn 2017, dangosodd ymchwil Chwaraeon Cymru fod gan 31% o ymatebwyr yn Sir Fynwy aelodaeth clwb chwaraeon, yr uchaf ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.²³⁴ Dangosodd y data fod dynion yn fwy tebygol o fod ag aelodaeth (uchafbwynt Cymru 37%) na menywod (25%, 3^{ydd} yng Nghymru).

Mae'r Adran Iechyd yn argymhell y dylai pob plentyn a pherson ifanc, 5-18 oed, gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol cymedrol i egniol am o leiaf 60 munud, a hyd at sawl awr, bob dydd.²³⁵ Mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, a gynhaliwyd yn fwyaf diweddar gan Chwaraeon Cymru yn 2018, wedi casglu darlun manwl o amllder y cyfranogiad. Yn Sir Fynwy, cymerodd 45% o ddisgyblion ar draws Blynnyddoedd 3 i 11 ran mewn gweithgaredd chwaraeon wedi'i drefnu ar wahân i amser y cwricwlwm (h.y. chwaraeon allgyrsiol neu glwb) ar dri achlysur neu fwy'r wythnos, tra nad yw 25.7% yn cymryd rhan mewn gweithgaredd yn aml. O'i gymharu â 2015, mae'r nifer sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy'r wythnos wedi gostwng o 48.8%, tra bod y nifer nad yw'n cymryd rhan mewn gweithgaredd yn aml wedi gostwng o 27.3%.



Gall deall cyfansoddiad cyfranogiad mewn gwahanol leoliadau helpu i nodi'r gwahanol fynediad, darpariaeth a chyfleoedd sydd gan blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Yn Sir Fynwy, mae cyfranogiad mewn chwaraeon allgyrsiol yn is na chyfartaledd Cymru (Sir Fynwy 47%, Cymru 49.9%), tra bod cyfranogiad mewn chwaraeon cymunedol y tu allan i'r ysgol yn uwch (Sir Fynwy 67.5%, Cymru 65.1%).

Mae yna gynlluniau penodol sydd yn ceisio annog pobl i gadw'n heini at ddibenion iechyd. Mae Cynllun Atgyfeirio Cadw'n Heini Cenedlaethol Sir Fynwy yn ddeng mlwydd oed ac wedi derbyn mwy na 10,000 o atgyfeiriadau gan ymarferwyr iechyd am ystod o lwybrau cyflyrau cronig, gordewdra, cancr, anhwylder rhwystrol cronig ac iechyd meddwl.

Mae cyfranogiad mewn gweithgaredd chwaraeon wedi cael ei effeithio trwy gydol y pandemig Covid-19. Gall llai o gyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol gael effeithiau tymor hwy ar iechyd a lles. Dangosodd arolwg a gynhaliwyd yng Nghymru drwy gydol y pandemig fod 47% o'r ymatebwyr yn teimlo bod eu ffitrwydd corfforol wedi dirywio dros y 12 mis diwethaf, a dywedodd 40% eu bod wedi cynyddu eu pwysau.²³⁶

Sut hoffech eich cymuned edrych yn y dyfodol?

“Mwy o gyfleusterau hamdden er mwyn cwrdd â phobl a chymryd rhan mewn gweithgareddau”

“Cyfleusterau gwell yn lleol fel nad oes rhaid i ni deithio er mwyn eu defnyddio”

Roedd sylwadau o'r holiaduron ymgysylltu yn cyfeirio at y dyhead am gyfleusterau hamdden gwell. Mae medru cael mynediad at glybiau lleol, cyfleusterau cadw'n heini neu byllau nofio ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd.

Roedd yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh) diweddaraf ar gyfer y sir, a gwblhawyd gan y cyngor ym mis Mawrth 2019, yn ystyried ystod o dystiolaeth bresennol, yn ogystal â holiadur plant, a oedd yn amlygu'r rhwystrau i fwy o chwarae, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae, amser ar gyfer chwarae (gan gynnwys galwadau cystadleuol ar amser plant) ac agweddau at chwarae (rhieni ac eraill). Er mwyn llywio ADCh

2019, cynhaliwyd arolwg o ddisgyblion Blwyddyn 5 o ysgolion y sir; cadarnhaodd 2/3 o ddisgyblion fod eu hysgol yn cymryd rhan yn y Ffilltir Ddyddiol, gydag 84% o ddisgyblion yn credu ei fod yn helpu i gyfrannu at ffordd iach o fyw. Pan ofynnwyd a oedd yn well ganddynt chwarae mewn maes chwarae neu fannau gwyrdd, roedd yn well gan 70% fan gwyrdd. Rhai o'r camau gweithredu allweddol sy'n deillio o'r asesiad ar gyfer gweithredu yn 2019 yw lle i chwarae,

darpariaeth dan oruchwyliaeth, darparu ar gyfer anghenion amrywiol, cyfannu polisiau ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae yna amryw o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn Sir Fynwy drwy wasanaeth ieuenctid y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys clybiau ieuenctid, canolfannau ieuenctid, digwyddiadau a gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol, Gwobr Dug Caeredin a mathau eraill o gefnogaeth ac maent ar ben yr hyn sydd yn cael ei gynnig drwy weithgareddau iwnifform a'r sector gwirfoddol.²³⁷

Mewn sir wledig fel Sir Fynwy, mae mynediad at wasanaethau hamdden a diwylliannol yn bwysig. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) yn dangos mai 88 munud yw amser teithio cyfartalog trafndiaeth gyhoeddus i gyfleuster chwaraeon, a 53 munud yw'r amser teithio i lyfrgell gyhoeddus.²³⁸ Ar gyfer trafndiaeth breifat, yr amser teithio yw 14 munud ar gyfer cyfleuster chwaraeon ac 13 munud ar gyfer llyfrgelloedd. Ar gyfer rhai ardaloedd, bydd amseroedd teithio yn sylweddol hirach ac yn llawer uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru; mae'r proffiliau ardal yn darparu asesiad o faterion mwy lleol yn Sir Fynwy.

Cyfannu

Iaith Gymraeg

Mae hyrwyddo ac amddiffyn y Gymraeg yn bwysig i les cymdeithasol, economaidd a diwylliannol siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg. Mae hefyd yn bwysig i dwristiaeth fel rhan o brofiad diwylliannol ymwelwyr.



Ffydd a Chrefydd

Mae ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol yn Sir Fynwy, sy'n ffactor pwysig yn llesiant pobl. Mae ffydd a chrefydd yn chwarae rhan bwysig mewn llesiant, ac mae pobl yn elwa o deimlo ymdeimlad o berthyn.



Tirwedd a Threftadaeth

Heb os, un o asedau mwyaf Sir Fynwy yw ei thirwedd a'i hamgylchedd naturiol. Mae tirwedd a threftadaeth naturiol ac adeiledig Sir Fynwy yn rhan bwysig o ansawdd bywyd ac yn elfen annatod o les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Fynwy.



Gweithredu Cymunedol a Chymdeithasol

Mae gan Sir Fynwy lefel uchel o gyfalaf cymdeithasol a chyfraddau gwirfoddoli. Mae'r lefel uchel hon o weithredu cymunedol yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y sir.



Atyniadau Diwylliannol

Mae tystiolaeth gynyddol yn dangos y cysylltiad rhwng diwylliant a llesiant goddrychol unigolyn wedi'i fesur fel hapusrwydd. Mae atyniadau diwylliannol yn Sir Fynwy yn effeithio ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, tra gall lefelau llesiant hefyd fod yn rhwystro i gyfranogiad mewn digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol.



Chwaraeon a Hamdden

Mae ffyrdd iach a gweithgar o fyw i oedolion a phlant yn dod â llawer o fanteision iechyd a lles, ac mae cyfleoedd chwaraeon a hamdden yn gyfranwyr pwysig i economi Sir Fynwy. Gall rhwystrau i gyfranogiad fod oherwydd rhesymau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol.



Mae'n bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Isod, ceir crynodeb o sut mae'r adrannau 'Lles diwylliannol' yn cyfannu ag adrannau eraill o'r asesiad i nodi'r berthynas rhwng y ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant.

Materion Allweddol sy'n Dod i'r Amlwg:

Economaidd

- Mae gan Sir Fynwy economi gystadleuol gyda photensial rhagorol ar gyfer twf. Fodd bynnag, mae cyfradd isel o fusnesau newydd yn cychwyn o gymharu â'r brifddinas-ranbarth a Chymru gyfan. Yn wir, mae'n bosibl bod twf gweithio o bell ac awydd pobl i fyw mewn ardaloedd gwledig yn cyflwyno cyfle i annog entrepreneuriaid i ddechrau busnesau newydd yn Sir Fynwy yn hytrach nag mewn dinasoedd cyfagos fel Bryste.
- Mae'r nifer sy'n manteisio ar safleoedd cyflogaeth yn ne'r sir yn araf, ac mae yna ddiffyg tir cyflogaeth addas yng ngogledd y sir. Mae problemau cyflymder band eang gwael o bosib yn gysylltiedig â'r cyfraddau isel o fusnesau newydd. Gallai'r twf posibl mewn mannau cydweithio gynnig opsiwn risg isel i fusnesau newydd eu lleoli yn y sir.
- Mae'r cyflogau is na'r cyfartaledd sydd ar gael yn y sir, ynghyd â phrisiau eiddo uchel, yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol fyw a gweithio'n lleol.
- Yr ydym yn gweld allfudiad o bobl ifanc, wedi'i ysgogi gan gyfleoedd cyflogaeth ac addysg uwch mewn mannau eraill, nad ydynt ar gael yn y sir.

Cymdeithasol

- Mae diffyg tai fforddiadwy yn y sir. Bydd hyn yn cael ei waethgu gan uchafswm lefel y twf a gynigir gan Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a allai gyfyngu ar ddatblygiad cartrefi newydd yn Sir Fynwy gan leihau ein gallu i fynd i'r afael â digartrefedd a'r anghydbwysedd demograffeg. Yn y tymor byr caiff hyn ei waethgu gan lefel y ffosffadau mewn afonydd sydd wedi arwain at rwystro datblygiadau newydd.
- Mae anghydraddoldebau incwm sylweddol o fewn cymunedau gyda chyfoeth yn eistedd ochr yn ochr â thlodi cymharol ar raddfa nas gwelir mewn rhannau eraill o Gymru. Mae ymchwil yn awgrymu bod bylchau rhwng y cyfoethog a'r tlawd o fewn cymuned yn cael ôl-ffeithiau negyddol ar gyfer ystod gyfan o bethau o gyrhaeddiad addysgol i iechyd corfforol.
- Mae Sir Fynwy yn mwynhau lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol. Mae nifer fawr o bobl yn gwirfoddoli sy'n helpu i feithrin cysylltiadau ac sy'n cyfrannu'n fawr at les. Mae cyfle i fanteisio ar yr egni rydym wedi'i weld mewn cymunedau yn ystod y pandemig ond hefyd risg wrth i'r oedran pensiwn newid a phobl yn ymddeol yn hwyrach, y gallai nifer y gwirfoddolwyr gweithgar leihau.
- Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio, tra bod gan hyn lawer o fanteision bydd yn creu pwysau ychwanegol ar iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda phrisiau eiddo uchel a

chyfyngiadau ar ddatblygu bydd yn anodd denu'r gweithlu sydd ei angen i ddiwallu anghenion trigolion.

- Mae gofal cymdeithasol oedolion a phlant yn wynebu pwysau difrifol gyda galw cynyddol, cymhlethdod cynyddol a phrinder gweithlu i gyd yn cyfrannu. Er bod pwysau i ryddhau gwelyau ysbyty, nid oes gan y system ofal y capasiti i ddarparu ar gyfer hyn, sy'n golygu y bydd mwy o adnoddau'n cael eu tynnu i mewn i'r lleoliadau aciwt i ddiwallu anghenion tymor byr yn hytrach na chael eu cyfeirio at fodel hirdymor cynaliadwy o ddarpariaeth.
- Mae gwahaniaethau sylweddol mewn disgwyliad oes ac mae angen gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sicrhau bod ystod o raglenni ar waith i gynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl i fyw bywydau iach a lleihau ymddygiadau sy'n niweidio iechyd megis yfed llawer o alcohol, ysmygu a diet. [a yw hyn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth?]
- Gall plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, y mae'r pandemig wedi tarfu ar eu dysgu, fod dan anfantais wrth iddynt ymuno â'r gweithlu neu addysg uwch, ac efallai bod agweddau eraill ar eu llesiant wedi'u heffeithio.
- Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol da yn y sir ond nid yw rhai grwpiau, megis y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant bregus yn cyflawni ar yr un lefel â'r boblogaeth ehangach ac nid yw'r bwlch yn culhau. Mae gwahaniaethau hefyd mewn cyrhaeddiad rhwng gwahanol gymunedau, lle mae disgyblion yn mynychu'r un ysgol.
- Mae un o bob pedwar oedolyn ac un o bob deg plentyn yn profi problemau iechyd meddwl. Gwaethygir hyn gan unigrywdd a'r heriau y mae llawer wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau dan bwysau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plan a'r Glasoed (CAHMS). Mae adnoddau fel Melo, i helpu pobl i reoli eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â hyn ond dim ond rhan o'r ateb fyddan nhw.
- Rydym yn gweld lefelau cynyddol o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sir a phryderon am lefel camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl iau.

Diwylliannol

- Mae gan y sir lefelau da o gyfranogiad mewn chwaraeon o gymharu â rhannau eraill o Gymru ond mae lefelau ymarfer corff yn dal yn rhy isel ac mae gordewdra ar gynnydd sydd â goblygiadau i iechyd.
- Mae cyfle cynyddol i ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a thirwedd Sir Fynwy i fanteisio ar botensial marchnad wyliau'r DU gyda llai o bobl yn teithio dramor sydd hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr hinsawdd drwy leihau nifer y bobl sy'n hedfan.

- Mae'r pandemig wedi lleihau nifer yr ymweliadau ag atyniadau diwylliannol sy'n chwarae rhan bwysig mewn llesiant, megis amgueddfeydd a theatrau a fydd yn effeithio ar eu hyfywedd.

Amgylcheddol

- Mae gan Sir Fynwy ôl troed carbon uchel fesul pen o'r boblogaeth.
- Mae natur wledig Sir Fynwy yn golygu bod trafnidiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon y sir gyda rhai ardaloedd hefyd yn profi ansawdd aer gwael. Mae llawer o bobl yn berchen ar geir ac mae natur wledig y sir yn golygu nad yw teithio llesol yn opsiwn i lawer o bobl, tra nad oes gan lawer o bobl dramwyfa a fydd, ynghyd â fforddiadwyedd, yn arafu mabwysiadu cerbydau trydan. Mae angen symud oddi wrth geir preifat i deithio mwy llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel er mwyn lleihau allyriadau carbon a gwella ansawdd aer.
- Mae effeithiau newid hinsawdd yn dod yn amlwg yn Sir Fynwy, yn enwedig llifogydd sydd wedi effeithio ar lawer o gymunedau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn debygol o waethygu wrth i'r cronni o nwyon tŷ gwydr barhau i effeithio ar batrymau tywydd byd-eang.
- Mae ansawdd dŵr mewn sawl rhan o Sir Fynwy dan fygythiad oherwydd cyfuniad o ollyngiadau carthion i gyrsiau dŵr a dŵr ffo o amaethyddiaeth.
- Mae cyfle i fanteisio ar dwf yr economi rannu i leihau defnydd a gwastraff a fydd hefyd yn cynyddu gallu pobl ar incwm isel i fenthycu yn hytrach na phrynu.
- Mae clefyd coed yn fygythiad sylweddol i dirwedd a bioamrywiaeth Sir Fynwy, gydag ardaloedd mawr o goed ynni a llarwydd yn gorfod cael eu cwmpo sy'n golygu bod angen plannu llawer mwy o goed i atafaelu carbon. Mae cyfleoedd trwy waith gyda grwpiau cymunedol, Llywodraeth Cymru a Chanopi Gwyrdd y Frenhines i gynyddu gorchudd coed yn y sir.
- Fel mewn mannau eraill yng Nghymru, mae bioamrywiaeth yn dirywio oherwydd bygythiadau a phwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

Pum Ardal Sir Fynwy

Y Fenni a'r Cylch

Llesiant Amgylcheddol

Mae'r ardal hon yn cynnwys y Fenni, tref farchnad bwysig sy'n darparu ystod o wasanaethau i'w chefnwlad wledig ac sy'n cynnwys unig brif ysbyty Sir Fynwy, gorsaf reilffordd a therfynfa fysiau. Mae canol ei thref yn ardal gadwraeth sy'n cynnwys llawer o adeiladau rhestredig, gan gynnwys adfeilion Castell Normanaidd y Fenni. Ynghyd â phentref cyfagos Llan-ffwyst, mae'r Blorens a mynyddoedd Pen-y-fâl, a leolir i'r de-orllewin a'r gogledd-orllewin, yn edrych drosti ac yn ei chysgodi. Mae ardaloedd gwledig yn cynnwys cymoedd Llanddewi Nant Hodni a Grwyne Fawr, hen ardaloedd diwydiannol o amgylch Clydach a Black Rock, yn ogystal â chefn gwlad tonnog i'r de a'r de-orllewin o'r Fenni.

Y Fenni yw'r porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac fe'i defnyddir yn helaeth ar gyfer twristiaeth a cherdded a beicio, gan gyfrannu at yr economi leol. Mae rhannau eraill o'r ardal yn dir amaethyddol cynhyrchiol a gwledig iawn gydag ychydig o bentrefi ac aneddiadau gwasgaredig. Mae ychydig llai na 50% o Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon yn Sir Fynwy. Dynodwyd Safle Treftadaeth y Byd gan ei bod yn dangos tystiolaeth o amlygrwydd De Cymru fel prif gynhyrchydd haearn a glo'r byd yn y 19^{eg} ganrif. Mewn mannau eraill, mae tirweddau'n amrywio o fynyddoedd a rhostir i dirweddau bugeiliol a borir gan ddefaid, o goetiroedd llydanddail ar lethrau serth i'r Afon Wysg, gyda Chamlas Mynwy ac Aberhonddu yn rhedeg yn gyfochrog.

Dywedodd plant rhwng 5 ac 11 oed yng Ngemau Sir Fynwy'r Fenni, pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn dda am ble maent yn byw:

"Natur, ohermydd y mae'n bert. Y rhacadau, ohermydd dwi'n hoffi'r sŵn."

"Mae gen i barc yn fy ymyl."

"Rwy'n hoffi'r gobygfydd."

"Teithiau cerdded, camlas a mynyddoedd hyfryd i'w harchwilio"

O ran bioamrywiaeth, mae gan ardal y Fenni 4 Ardal Cadwraeth Arbennig o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE – yr Afon Wysg oherwydd ei chyflwr hynod o lân a naturiol (er ei bod dan fygythiad, fel y trafodwyd yn

flaenorol), gyda llif dŵr da a'r ystod o rywogaethau pysgod y mae'n eu cynnal, yn ogystal â dyfrgwn; Coetiroedd Cwm Clydach, sef ffawydd yn bennaf; Coetir Pen-y-fâl, hen goetir y dderwen ddigoes; a rhan fechan o Safle Ystlumod Wysg Mynydd Llangatwg.

Mae 19 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gyda chynefinoedd yn cynnwys afonydd, daearegol, coetir, mannau clwydo ystlumod, dŵl a phwll, a thros 80 o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur.²³⁹

Mae bygythiadau i gynefinoedd yn yr ardal hon yn cynnwys:

- Mae pwysau pori a hamdden yn arwain at sawl ardal o fawn agored sy'n agored i erydiad (Crucornau). Mae mawn yn bwysig ar gyfer arafu dŵr llifogydd, lleihau effaith sychder, a chynnal ansawdd dŵr da, gan ddarparu cynefin pwysig yn ogystal â 'chloi mewn' carbon.²⁴⁰
- Mae rhai coetiroedd yn dameidiog a byddent yn chwarae rhan bwysicach pe baent yn gysylltiedig â'i gilydd.
- Gall clefyd coed achosi darnio pellach o barseli coetir.
- Colli cynefinoedd oherwydd datblygiad.

Mae gan ardaloedd Llanelli Hill a Chlydach unig ddyddodion mawn Sir Fynwy, sy'n bwysig ar gyfer storio carbon ac arafu dŵr llifogydd. Mae ansawdd y pridd yn yr ardal yn gyffredinol yn dir amaethyddol o ansawdd isel, yn bennaf Gradd 4 a 5, gyda rhai o'r gorlifdiroedd yn Radd 3.²⁴¹

O fewn y Fenni ei hun, mae mynediad da i fannau gwyrdd naturiol a ddefnyddir yn aml fel Parc Bailey, Gerddi Linda Vista, Castell y Fenni, Dolydd y Castell a Dolydd yr Alarch. Mae llawer o barciau a gerddi hanesyddol a llawer o ardaloedd hamdden, caeau chwarae ysgol a chyhoeddus, ond nid oes gan lawer o'r rhain ystod lawn o nodweddion amgylcheddol megis coed, dŵr, a chynefinoedd 'mwy gwyllt'.



Dolydd y Castell, y Fenni

Mae ardaloedd preswyl gogleddol y Fenni yn cael eu gwasanaethu'n arbennig o wael gan fannau agored naturiol, ac nid oes gan lawer o'r ardal wledig o amgylch y Fenni ddigon o fannau gwyrdd naturiol hygyrch.²⁴²

Mae yna lawer o Orchmynion Cadw Coed ar goed unigol neu grwpiau o goed yn y Fenni, yn enwedig ar hyd Afon Gafenni ac yn Ward y Castell yn fwy cyffredinol lle mae stoc tai hŷn wedi'i grynhoi.²⁴³ Mae gorchudd coed trefol yn y Fenni yn 17.5%, yn uwch na chyfartaledd Sir Fynwy o 15%, a chyfartaledd Cymru o 16.3%. Fodd bynnag, bu gostyngiad cyffredinol o 3 hectar o orchudd coed trefol yn y Fenni rhwng 2009 a 2013.²⁴⁴

Mae llawer o ardal breswyl ogleddol tref y Fenni ac ar hyd Afon Wysg yn dueddol o ddioddef llifogydd. Mae 60 eiddo a 226 o bobl yn nhref y Fenni yn wynebu risg Uchel (1 mewn 30 mlynedd) neu Ganolig (1 mewn 100 mlynedd) o lifogydd o ddŵr wyneb, ac mae 1,018 eiddo a 2,392 o bobl mewn perygl o lifogydd gan afonydd yn isel eu risg (1 mewn 1,000 o flynyddoedd). Mae'r ffigur sy'n wynebu risg isel o lifogydd ar gyfer y Fenni a'r ardal gyfagos yn ei chyfarwydd yn codi i 1,268 eiddo a 2,980 o bobl.²⁴⁵ Mae afonydd hefyd yn gorlifo sawl ffordd yn yr ardal hon, megis yr A4042 yn Llanelen. Ym mis Chwefror 2020, bu llifogydd yn naw eiddo preswyl, dwy fferm, eglwys, a maes carafanau yn Llanwenarth, ac ym Mhandy cafwyd llifogydd mewn un eiddo preswyl a phedwar eiddo masnachol.²⁴⁶

Gyda chynnydd mewn glawiad gaeafol yng Nghymru yn cael ei ragweld yn y dyfodol, mae llifogydd yn debygol o fod yn fwy o fygythiad nag erioed i'r cymunedau hyn.

Mae cyrsiau dŵr yn rhan bwysig o'r Seilwaith Gwyrdd yn y Fenni ac o'i chwmpas, gan gynnwys yr Afon Wysg a'i gorlifdir, yr Afon Gafenni sy'n llifo drwy'r Fenni a Sir Fynwy, a Chamlas Aberhonddu i'r de o Lan-ffwyst. Mae ansawdd dŵr yn amrywio ar draws yr ardal hon. Mae'r Afon Wysg, er ei bod wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig yn rhannol oherwydd ei chyflwr glân, yn cael ei hasesu fel ansawdd Cymedrol o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (yn seiliedig ar gyfuniad o fonitro ecolegol a chemegol.) Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu sy'n rhedeg drwy'r ardal o ansawdd Da. Fodd bynnag, mae Afon Honddu, sy'n rhedeg i lawr Dyffryn Llanddewi Nant Hodni, ac Afon Clydach, ill dau o ansawdd gwael o dan Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr UE.²⁴⁷ Ystyrir bod dyfrffyrdd yr aseswyd eu bod yn ddrwg, yn wael neu'n gymedrol yn methu safonau Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr UE ac mae angen eu gwella i fod yn dda o leiaf erbyn 2027. Mae afonydd Honddu a Chlydach yn methu oherwydd niferoedd pysgod gan fod natur serth y nentydd hyn yn golygu bod rhwystrau naturiol yn rhwystro mynediad i bysgod ymhellach i fyny'r afon. Mae materion carthion sy'n cyfrannu at ansawdd dŵr gwael hefyd yn bodoli yn nhref y Fenni.

Mae gan ardal y Fenni 9 Parth Gwarchod Tarddiad Dŵr Daear sy'n ceisio amddiffyn dyfrhaenau tanddaearol fel ffynhonnell bwysig o ddŵr yfed.

Er nad oes yr un o'r ardal hon yn uwch na'r amcan nitrogen deuocsid cymedrig blyneddol, mae rhai ardaloedd yn parhau i gael eu monitro'n agos.²⁴⁸

Mae gan ardal y Fenni sector gwirfoddol hynod fywiog ac amrywiol yn gweithio ym maes yr amgylchedd a chynaliadwyedd, gyda grŵp Trefi Trawsnewid gweithgar, grŵp Cyfeillion y Ddaear, grŵp Danteithion Planhigion, Fforwm Masnach Deg, llawer o grwpiau 'Cyfeillion' yn gweithio mewn parciau lleol a mannau gwyrdd yn ogystal â newydd-ddyfodiaid fel Gwrthryfel Dyfodiant y Fenni. Mae cryfder y trydydd sector yn y Fenni a'r cyffiniau yn ased mawr.



Y Fenni yn ystod yr Ŵyl Fwyd flynyddol

Mae llawer o waith yn digwydd ar lefel gymunedol, a chyda phartneriaethau lleol, i gefnogi a hybu tyfu bwyd yn lleol. Mae hyn yn amrywio o Ŵyl Fwyd flynyddol hynod lwyddiannus y Fenni i brosiect Ein Bwyd. Gyda chefnogaeth Cyngor Sir Fynwy, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Llywodraeth Cymru, nod Ein Bwyd yw cefnogi ac annog ffermio a thyfu lleol a chynaliadwy ac i gysylltu tyfwyr â marchnadoedd lleol a rhanbarthol.²⁴⁹ Mae Ein Bwyd yn gweithio ar draws Sir Fynwy

a Bannau Brycheiniog, ond gyda ffocws arbennig ar y Fenni, Crucywel a'r Bannau Brycheiniog.

Lles Economaidd

Er bod prisiau tai cyfartalog yn yr ardal hon yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, y Fenni sydd â'r prisiau isaf o'r 5 ardal yn Sir Fynwy, gyda 4 ward ymhlith y 10 lleiaf drud yn y sir.²⁵⁰

Cyfradd siopau gwag y Fenni o 7.6% yn yr ardal siopa ganolog yw'r uchaf ers 2016, a allai fod o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r cynnydd yng nghyfanswm cyfraddau'r unedau gwag wedi bod ar draws ffryntiadau cynradd ac eilaidd, er bod y cynnydd mwyaf arwyddocaol wedi bod ar draws ffryntiadau cynradd. Er ei fod yn gymharol uchel, mae'r gyfradd o 7.6% yn dal yn is na chyfradd siopau gwag stryd fawr Prydain ac roedd rhai ymatebion i'r broses ymgysylltu wedi amlygu bod canol y dref yn cynnig pob dim sydd angen fel nad yw'r trigolion angen gadael y Fenni am ddim byd.²⁵¹

“Hoffem fod y Fenni yn parhau i fod yn lle y mae modd mynd allan i fwyta'n iachus ac yn dda mewn caffis/bwytai annibynnol, a hynny am bob math o bris; lle y ceir siopau annibynnol, nid cadwyni”

Yn yr ardal hon, mae 12% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gyda 15% yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig o ran incwm. Mae 215 o bobl yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer diweithdra, ac mae 60 ohonynt rhwng 16-24 oed. Mae 16.6% o blant mewn teuluoedd incwm isel. Mae'r Fenni yn cynnwys Llanofor 1, Cantref 2, Lansdown a Chroesonon sydd yn y 30% o Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cantref 2 sydd â'r ganran uchaf o bobl mewn amddifadedd incwm yn y sir a'r ganran ail uchaf o bobl o oedran gweithio mewn

amddifadedd cyflogaeth.²⁵² Rhannau o Gantref (Cantref 2) yw'r rhai mwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy, yn enwedig o ran incwm: mae 28% o bobl yr ardal hon mewn amddifadedd incwm.

O ystyried y ffigurau hyn, mae gan y Fenni gyfran uwch o amddifadedd na phedair ardal arall Sir Fynwy. Mae 18% o'r aelwydydd yn nalgylch y Fenni yn llai na 50% o'r incwm canolrifol ar gyfer y DU, a 24% yn is na 60%. Mae hyn yn cymharu â 17% a 22% yn y drefn honno ar gyfer Sir Fynwy, a 25% a 33% ar gyfer Cymru gyfan.²⁵³

Lles Cymdeithasol

Mae gan y Fenni a'r cyffiniau boblogaeth o ychydig dros 27,000, y mwyaf poblog o'r pum ardal. O'r boblogaeth hon, mae 15.7% yn blant rhwng 0-15 oed, ac mae 27.6% o'r trigolion yn 65 oed a hŷn.

O'r pum ardal, y Fenni sydd â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn yr 20% mwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy, gyda 6 allan o 11 ardal.

Rhannau o Gantref (Cantref 2) yw'r rhai mwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy. Mae Croesonen a Lansdown yn ardaloedd cyfagos yn y Fenni lle mai incwm, cyflogaeth ac iechyd yw'r mathau mwyaf amlwg o amddifadedd. Grofield sydd fwyaf difreintiedig o ran diogelwch cymunedol, tra bod Llanofer, sy'n fwy gwledig, yn dioddef o fynediad gwael at wasanaethau a thai.

Mae rhai ardaloedd yn y Fenni a'r cymunedau cyfagos wedi'u rhestru ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau, fel y'u nodir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn enwedig o ran amseroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Er enghraifft, mae Crucornau ymhlith y 50 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau fel y'u nodir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn yr ardal, mae teithiau dwyffordd ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cymryd dros 2.5 awr i gyrraedd gwasanaethau fel llyfrgell neu gyfleuster chwaraeon.

Mae Dechrau'n Deg ar gael i deuluoedd mewn rhannau o Lansdown, Croesonen a Chantref yng Ngogledd y Fenni ar sail côd post a darperir gofal plant gan dri grŵp chwarae. Mae canran uwch o fabanod pwysau isel yn cael eu geni mewn rhannau o Briordy a Maerdy.

Yn ardal y Fenni, mae dangosyddion lleol ar gyfer plant oedran ysgol ychydig yn well na Sir Fynwy yn gyffredinol, er bod mwy o oedolion heb gymwysterau yn gyfatebol. Mae canlyniadau addysgol Cantref 2 yn waeth; er enghraifft, mae 15% o ymadawyr cyfnod allweddol 4 yn mynd i addysg uwch, o gymharu â 33.1% yn Sir Fynwy yn gyffredinol, tra nad oes gan 30.7% o oedolion unrhyw gymwysterau, o gymharu â 13.2% ar draws Sir Fynwy.²⁵⁴


Y Fenni sydd â'r nifer lleiaf o drigolion o'r pum ardal sy'n adrodd bod eu hiechyd yn dda iawn neu'n dda, sef 77%. Ym mhob un o'r 5 maes arall, mae dros 80% o bobl yn gadarnhaol am eu hiechyd. Yn ardal y Fenni, roedd y nifer lleiaf o bobl a deimlai fod eu hiechyd yn dda iawn neu'n dda yn ardaloedd Lansdown (71%), Cantref 1 (74%) a Chroesonen (75%). Cantref 2, Lansdown a Chroesonen yw'r ardaloedd sydd â chyfraddau uchel o bobl yn byw gyda salwch cyfyngol

hirdymor neu gyflyrau iechyd meddwl. Mae nifer yr achosion o ganser ar eu huchaf mewn rhannau o Grofield.²⁵⁵

Rhwng Tachwedd 2020 a Thachwedd 2021, gostyngodd troseddau cyffredinol yn y Fenni o 35.1% i 33.9% o gyfanswm Sir Fynwy, gyda gostyngiad yn nifer y troseddau a gofnodwyd o Ddwyn o Siopau, Dwyn, a Byrgleriaethau Preswyl a Masnachol. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y pandemig a'r cyfnodau cloi. Bu cynnydd mewn troseddau eraill, yn arbennig Troseddau Rhyw Eraill a Difrod Troseddol.

Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 cofnodwyd 361 o achosion o YGG, gan gyfrif am 31.8% o'r holl YGG a adroddwyd ar draws Sir Fynwy. Y wardiau â'r nifer fwyaf o achosion oedd Priordy, De Llan-ffwyst Fawr a Grofield, sy'n wardiau canol y dref yn bennaf. Ym mis Ionawr 2021, roedd 91 o oedolion yn cyrchu cymorth, 51 ar gyfer alcohol a 40 ar gyfer sylweddau eraill. Mae troseddau Trais Heb Anaf a Threfn wedi lleihau, er bod y niferoedd yn parhau i fod yn gymharol uchel ar gyfer y wardiau hyn. Roedd trigolion yn y Fenni wedi gwneud sylwadau fod angen mwy o bresenoldeb gan yr heddlu er mwyn delio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth, troseddau a goryrru.

Lansdown yn y Fenni sydd wedi cofnodi'r nifer fwyaf o droseddau domestig yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rhwng Ionawr 2021 a Thachwedd 2021, roedd Lansdown yn cyfrif am 21% o'r holl droseddau a gofnodwyd yn ardal y Fenni.



Lles Diwylliannol

Mae'r Fenni yn llawn o hanes yr iaith Gymraeg, gyda phenaethiaid diwylliannol fel Arglwyddes Llanofer wedi byw yn yr ardal. Mae'r ardal wedi cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith, yn fwyaf diweddar yn 2016, ac mae hefyd yn gartref i Gymreigyddion y Fenni – Cymdeithas Gymraeg y Fenni. Mae'r ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Gymraeg y Fenni, wedi hen sefydlu ac mae ganddi dros 250 o ddisgyblion ar hyn o bryd. Nid oes gan 86% o boblogaeth yr ardal unrhyw sgiliau Cymraeg, yr ail isaf o'r 5 ardal.²⁵⁶



Eisteddfod Genedlaethol 2016 yn y Fenni

Ardal y Fenni hefyd yw'r mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd; er mai'r rhai o ethnigrwydd gwyn yw mwyafrif helaeth y boblogaeth, mae'r cyfrannau o ethnigrwydd hil gymysg ac Asiaidd yr uchaf yn Sir Fynwy (0.8% ac 1.4%). Mae 62.1% o boblogaeth yr ardal yn datgan eu bod yn Gristnogion.²⁵⁷

Mae'r ardal yn cynnal nifer o wyliau a digwyddiadau. Mae'r ardal yn cael ei chydabod yn rhyngwladol am ei bwyd, gyda Gŵyl Fwyd flynyddol y Fenni yn denu miloedd o ymwelwyr bob mis Medi. Mae marchnadoedd bwyd a chrefftau rheolaidd pellach hefyd yn atyniad poblogaidd trwy gydol y flwyddyn.

Mae stadiwm Pen y Pound yn cynnal pêl-droed lefel uchel, gyda thimau dynion a merched yn cystadlu â thimau ledled Cymru. Mae Clwb Criced y Fenni yn un o glybiau hynaf y byd ac mae wedi cynnal llawer o gemau dosbarth cyntaf yn y gorffennol. Mae llawer o glybiau lleol eraill ledled yr ardal sy'n cynnig chwaraeon llawr gwlad ar gyfer pêl-droed, rygbi a chriced, yn arbennig.

Mae prif dreftadaeth adeiledig y Fenni a'r ardal gyfagos yn cynnwys castell y Fenni, amgueddfa, eglwys Priordy'r Santes Fair a neuadd y farchnad. Mae Theatr y Fwrdeistref yn y Fenni, y cyhoeddwyd cyllid ar ei chyfer yn ddiweddar ar gyfer gwaith adnewyddu, yn cynnal sioeau drama, cerddoriaeth a chomedï.

Mae'r amser teithio cyhoeddus cyfartalog i gyfleuster chwaraeon yn y Fenni a'r cyffiniau yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru, sef 92 munud (55 munud i Gymru), ac ar gyfer teithio preifat mae ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 15 munud. Amser teithio i lyfrgell gyhoeddus yw'r 3rd uchaf yn Sir Fynwy gyda 64 munud (45 yng Nghymru) ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a 12 munud ar gyfer teithio preifat (10 munud yng Nghymru). Gyda gorsaf fysiau

Beth fyddai'n gwneud yr ardal yn well?

“Bysiau i fwy o leoliadau a bysiau cyflym e.e. Y Fenni Drefynwy”


“Cludiant bws mini sydd yn helpu cysylltu pentrefi, yn enwedig pobl sydd yn methu gyrru”


a gorsaf drenau yng nghanol y dref, mae'r Fenni wedi'i chysylltu'n well na'r wardiau mwy gwledig o'i chwmpas.

Ymatebion Ymgysylltu

Mae crynodeb o'r ymatebion o'r ardal i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd wedi eu darparu. Er mwyn gwneud hyn yn hawdd i ddadansoddi llawer o'r atebion amrywiol a roddwyd i'r cwestiynau pen - agored a ofynnwyd, rhoddwyd y sylwadau mewn categorïau neu themâu. Mae hyn yn caniatáu ni adnabod rhai o'r themâu mwyaf cyffredin yr oedd unigolion yn yr ardal wedi eu nodi.

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y themâu a ddefnyddiwyd er mwyn categorïddio'r sylwadau, a lle bo'n briodol, mae'n nodi os oeddynt yn bositif neu'n negatïf.





Cas-gwent a Dyffryn Gwy Isaf

Llesiant Amgylcheddol

Mae'r ardal hon wedi'i chanoli o amgylch tref Gas-gwent, a chwarter de-orllewinol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy. Mae craidd hanesyddol y dref wedi'i ganoli o amgylch y castell, yn edrych dros yr Afon Gwy. Mae'r gorchudd coed o gyrion Cas-gwent tua'r gogledd bron yn ddi-dor, ac ar y llwyfandiroedd uwchben Afon Gwy, mae crynodiadau pwysig o ddolydd niwtral a chalchaid llawn blodau, yn enwedig yn ardaloedd Drenewydd Gelli-farch a Chaer-went.

Adlewyrchir gwerth y dirwedd a chadwraeth natur gan y llu o ardaloedd gwarchodedig. Mae Aber Afon Hafren o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer adar dŵr gaeafu ac ymfudol, morfeydd heli, banciau tywod agored, mannau bwydo pysgod ac amrediad llanw naturiol anarferol o fawr sy'n dylanwadu ar y rhywogaethau a geir yma. Gwarchodir yr aber fel safle Ramsar, a oruchwylir gan y Cenhedloedd Unedig.

Mae Aber Afon Hafren hefyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig, a warchodir o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE, fel y mae Afon Gwy oherwydd glendid ei dyfroedd a'r ystod eang o rywogaethau y mae'n eu cynnal. Mae 14 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn ardal Cas-gwent a Gwy Isaf, sef y safleoedd pwysicaf i fyd natur yng Nghymru, sy'n cynnwys dolydd, coetir, safleoedd ystlumod a daearegol, yn ogystal â 185 o SBCN, safleoedd o bwysigrwydd lleol i gadwraeth natur.²⁵⁸

Yn wahanol i lawer o rannau eraill o Sir Fynwy, mae llawer o'r safleoedd hyn wedi'u cysylltu'n dda â safleoedd eraill, gyda choetiroedd wedi'u cysylltu'n dda â blociau coetir mawr eraill, gan gynnwys ar ochr Lloegr i'r ffin yn Ardal Cadwraeth Arbennig Coetiroedd Dyffryn Gwy. Mae hyn

yn golygu mai'r safleoedd hyn yn gallu gwrthsefyll newid neu aflonyddwch yn well oherwydd gall rhywogaethau ymfudo'n hawdd.²⁵⁹



Hydref yn Nyffryn Gwy, o Nyth yr Eryr

Fodd bynnag, fel mewn mannau eraill yn y sir, mae clefyd coed ynn yn fygythiad. Cadarnhawyd gyntaf yn Sir Fynwy yn 2014, rydym wedi gweld yr effeithiau'n gwaethygu ar draws y sir yn y blynyddoedd diwethaf ac eisoes wedi gorfod cael gwared ar yr holl goed heintiedig yn Hen Orsaf Dyndyrn.²⁶⁰

Mae Coed Cadw yn berchen ar ran fawr o Fforest Goed Gwent a safleoedd eraill, ac mae CNC hefyd yn

berchen ar ac yn rheoli llawer o safleoedd yn Nyffryn Gwy Isaf. Mae Coedwig Goed Gwent wedi'i heffeithio gan glefyd y Llarwydd, sy'n golygu bod rhaid cwmpo ardaloedd mawr yn 2021.²⁶¹

Yn ogystal â dynodiadau bywyd gwyllt, mae'r ardal hefyd yn cael ei gwerthfawrogi oherwydd ei thirwedd, a dyna pam ei statws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Am ganrifoedd, daeth harddwch y dirwedd ag ymwelwyr a thwristiaid i'r ardal i fynd ar daith, gyda Dyffryn Gwy yn fangre twristiaeth, ac mae'r poblogrwydd gydag ymwelwyr yn parhau hyd heddiw, sy'n gyfraniad pwysig i'r economi leol.²⁶² Mae prosiectau fel cynllun Llysgenhadon Tyndyrn yn ceisio cynnwys gwirfoddolwyr wrth groesawu twristiaid a'u helpu i gael y gorau o'u hymweliad.²⁶³

“Rydym ond wedi byw yng Nghas-gwent am gyfnod byr ar ôl symud yma o ddinas fawr. Harddwch naturiol yr ardal yw'r hyn yr wyf yn ei garu fwyaf”

Mae Cas-gwent yn nodi dechrau nifer o deithiau cerdded pell, sef Llwybr Dyffryn Gwy, Clawdd Offa a Llwybr Arfordir Cymru, a bydd yn cael ei gysylltu cyn hir gyda Llwybr Arfordirol Lloegr ar draws yr Hen Bont Hafren.

Er bod gan dref Cas-gwent lawer o fannau gwyrdd cyhoeddus, megis Warren Slade a Pharc Redding Woods, yn gyffredinol mae diffyg mannau gwyrdd naturiol hygyrch. Yn yr un modd, nid yw rhannau gwledig o Afon Gwy Isaf yn cael eu gwasanaethu'n dda gan fannau gwyrdd naturiol hygyrch, ac nid oes gan rai ardaloedd gwledig fynediad i gaeau chwaraeon ac ychydig o fannau amwynder agored.²⁶⁴ Er bod Cas-gwent yn agos at rai coetiroedd helaeth, dim ond 15% o orchudd coed trefol sydd gan y dref ei hun ac mae wedi colli 5 hectar o orchudd coed rhwng 2009 a 2013.²⁶⁵

“Mae traffig yn broblem enfawr ac yn gwneud Cas-gwent yn annioddefol weithiau”

Gallai mwy o orchudd coed trefol helpu i leihau'r problemau ansawdd aer y mae Cas-gwent yn eu hwynebu. Mae'r A48 yn Mount Pleasant, Bryn Hardwick a Heol Casnewydd wedi'i dynodi'n Ardal

Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), oherwydd lefelau uchel o nitrogen deuocsid a gronynnau o draffig, yn enwedig cerbydau nwyddau trwm, ar y ffordd brysur hon. Mae'r math hwn o lygredd yn arbennig o niweidiol i iechyd, gan achosi problemau anadlol.²⁶⁶ Er gwaethaf y dynodiad hwn yn 2007, a datblygiad Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer, mae crynodiadau yn ARhAA Cas-gwent yn dal i fod yn uwch na'r amcan ar gyfer nitrogen deuocsid hirdymor, er gwaethaf gostyngiad mawr rhwng 2012 a 2019; felly bydd yr ARhAA hwn yn parhau.²⁶⁷

Cafodd tollau Pont Hafren eu dileu ym mis Rhagfyr 2018, sydd wedi arwain at fwy o dagfeydd yng Nghas-gwent wrth i fwy o bobl gymudo dros y ffin neu wedi symud o Fryste i Gas-gwent i fanteisio ar brisiau tai is.²⁶⁸ Mae data gan Briffyrdd Lloegr yn dangos, yn y flwyddyn ar ôl i'r tollau gael eu dileu, fod nifer cyfartalog y ceir sy'n croesi Pont Hafren y dydd wedi cynyddu 16%.²⁶⁹ Bu ymgyrchu lleol sylweddol i leihau tagfeydd ac effaith trafndiaeth ceir, dan arweiniad Trawsnewid Cas-gwent sydd wedi cyhoeddi Cynllun Trafndiaeth ar gyfer y dref.²⁷⁰



Protestwyr fel rhan o bererindod Achub y Gwy (ffynhonnell: @nybeauty)

Mae Afon Gwy a'i llednentydd yn cynnal llawer o rywogaethau pwysig gan gynnwys eog yr Iwerydd, cimychiaid afon crafanc wen, lamprai'r môr ac afon, a dyfrgwn. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch dirywiad yn ansawdd y dŵr yn Afon Gwy – o bosibl oherwydd llygredd o ffermydd ieir a thrin carthion dros y blynnyddoedd diwethaf – wedi arwain at ymgyrchoedd cenedlaethol a phrotestiadau lleol.²⁷¹

Mae Nant Nedern, y mae ei rhan ogleddol yn ardal Cas-gwent a Gwy Isaf, o ansawdd gwael, oherwydd llygredd o garthffosiaeth a cham gysylltiadau.²⁷²

Mae 3 Pharth Gwarchod Tarddiad Dŵr Daeor yn yr ardal hon, ym Mhenter, Coed Parc Cas-gwent a llawer o Gaer-went a rhan o Ddrenwydd Gelli-farch, lle mae angen gofal arbennig i amddiffyn dyfrhaenau tanddaearol rhag halogiad.

Mae rhannau o ardal Cas-gwent a Gwy Isaf mewn perygl o lifogydd oherwydd eu hagosrwydd at Aber Afon Hafren, Afon Gwy a llednentydd amrywiol Afon Hafren.²⁷³ Yn nhref Cas-gwent, mae 221 o bobl mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd dŵr wyneb.²⁷⁴ Mae hyn yn cyfateb i 19

eiddo mewn perygl, sy'n gymharol isel, ond mae llawer o seilwaith pwysig mewn perygl, megis rheilffordd Glan Hafren ac unedau diwydiannol i'r de-orllewin o Gas-gwent.

Mae rhannau o Dyndyrn yn gorlifo'n rheolaidd ar lanw uchel, ond mae trigolion yn cael gwybod am y dyddiadau llanw uchel a ragwelir yn flynyddol gan Gyngor Sir Fynwy; mae gan y cyngor bresenoldeb yn ystod yr amseroedd hynny i gau'r ffordd os oes angen, mae bagiau tywod yn cael eu storio'n lleol, ac yn aml mae gan lawer o drigolion fesurau yn eu lle i liniaru effaith llifogydd megis llifddorau a bagiau tywod. Serch hynny, er gwaethaf y mesurau hyn, cafwyd llifogydd mewn 10 eiddo preswyl a 9 eiddo masnachol gan lifogydd llanw ym mis Mawrth 2020.²⁷⁵

Mae Gwastadeddau Gwent yn nodwedd bwysig o dirwedd de Sir Fynwy. Mae'r lefelau'n ymestyn dros 5000ha rhwng Cas-gwent a Chaerdydd o draethlin Aber Afon Hafren i'r M4. Y Gwastadeddau yw un o'r ardaloedd mwyaf sydd wedi goroesi o gors bori hynafol a systemau ffosydd draenio, a elwir yn rhewynau, ym Mhrydain. Mae rhai ffosydd yn dyddio'n ôl i gyfnod y Rhufeiniaid. Mae'r Bartneriaeth Gwastadeddau Byw yn allweddol er mwyn sicrhau bod y Gwastadeddau yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn cynnwys y cyhoedd.

Mae gwlypdiroedd yn darparu llawer o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gellir eu priso'n geidwadol ar fwy na £65 miliwn y flwyddyn ar gyfer ardal o faint Gwastadeddau Gwent. Cedwir y lefelau dŵr yn y rhewynau yn uchel yn yr haf i ddarparu dŵr ar gyfer tir fferm ac amodau delfrydol ar gyfer bywyd gwyllt. Yn y gaeaf, mae'r lefelau dŵr yn cael eu gostwng ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd.²⁷⁶ Mae llawer o'r Gwastadeddau'n cael eu hamddiffyn gan amddiffynfeydd rhag llifogydd, ac mae trafodaethau ynghylch cynnal a chadw'r rhain yn mynd rhagddynt gyda CNC.

Mae amaethyddiaeth hefyd yn nodwedd bwysig yn yr ardal hon. Ychydig iawn o dir amaethyddol Gradd 2 sydd gan Sir Fynwy, ond mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hynny sy'n Radd 2 i'w cael yn ne ardal Gwy Isaf.²⁷⁷

Mae gan Gas-gwent nifer o grwpiau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn gweithio yn yr ardal. Mae Trawsnewid Cas-gwent yn weithgar iawn gyda phrosiectau ar ynni, trafniadaeth, bwyd a mwy. Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol Ynni Gwent wedi'i leoli yng Nghas-gwent, sydd â llawer o brosiectau ynni cymunedol rhagorol ac arloesol o amgylch y sir. Mae yna hefyd grwpiau yn gofalu am goetiroedd lleol, yn hyrwyddo Masnach Deg a llwybrau beicio lleol.

Lles Economaidd

Cas-gwent yw'r ail ardal ddryfaf o ran prisiau tai yn Sir Fynwy, gyda 3 ward o'r rhain yn y 10 dryfaf yn y sir. Fodd bynnag, mae ganddo hefyd 2 ward yn y 10 lleiaf drud, sy'n dangos y gwahaniaethau posibl y gellir eu canfod o fewn un ardal.²⁷⁸

Y gyfradd gyffredinol o eiddo gwag yng Nghas-gwent o 13.5% yw'r uchaf ers 2003. Mae'r dref yn cadw canran uchel o fasnach ar gyfer nwyddau cyfleus ond mewn cymhariaeth, mae masnach yn cael ei thynnu oddi wrth y dref - o ystyried pa mor agos yw'r dref i Cribbs Causeway ym Mryste a Pharc Manwerthu Spytty yng Nghasnewydd.²⁷⁹ Serch

“Cynyddu'r nifer o siopau yng Nghas-gwent”

“Mae dal angen buddsoddi yn y Stryd Fawr yng Nghas-gwent – mae'n hen iawn”

hynny, roedd yr ymatebion i'r broses ymgysylltu wedi nodi'r gwelliannau diweddar i'r Stryd Fawr, fel sicrhau mai ond cerddwyr a oedd yn medru defnyddio'r rhan fwyaf ohono, a pha mor atyniadol yw'r farchnad bob dydd Sul.

Yn yr ardal hon, mae 8% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gyda 12% yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig o ran incwm. Mae 145 o bobl yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer diweithdra, ac mae 35 ohonynt rhwng 16-24 oed. Mae 13.4% o blant mewn teuluoedd incwm isel.²⁸⁰

Yn nalgylch Cas-gwent, mae 15% o aelwydydd o dan 50% o'r incwm canolrifol ar gyfer y DU, ac mae 20% yn is na 60%, o gymharu â 17% a 22% yn y drefn honno ar gyfer Sir Fynwy, a 25% a 33% ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.²⁸¹ Thornwell sydd â'r ganran ail-uchaf o bobl mewn amddifadedd incwm yn y sir, tra bod gan St Kingsmark 1 a Thryleg Unedig 2 y ganran gydradd gyntaf ac ail-isaf ar y cyd o bobl mewn amddifadedd incwm yn y sir, yn y drefn honno.²⁸²

Lles Cymdeithasol

Mae poblogaeth Cas-gwent a Dyffryn Gwy Isaf yn 19,762, ac yn debyg o ran proffil demograffig i Lan Hafren. Mae 60.5% o'r boblogaeth o oedran gweithio, yr ail uchaf ar ôl Glannau Hafren. Mae 23.2% o drigolion yn 65 oed neu'n hŷn, yr ail isaf o'r pum ardal ar ôl Glan Hafren.

Mae gan Gas-gwent a Dyffryn Gwy Isaf un ardal yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy. Mae rhan o Thornwell (Thornwell 1) yn y drydedd ardal fwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy, yn bennaf oherwydd amddifadedd mewn ieuchyd, incwm ac addysg.²⁸³ Mae chwarter y bobl yn yr ardal mewn amddifadedd incwm, ac mae absenoliaeth ysgol gyson yn un o'r uchaf yn Sir Fynwy. Mae plant cyn-ysgol sy'n byw mewn codau post penodol yn Thornwell yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg.

Fel gydag ardaloedd eraill yn Sir Fynwy, mae mynediad at wasanaethau yn broblem mewn rhai rhannau o Gas-gwent a Dyffryn Gwy Isaf, er enghraifft, Devauden a St. Arvans. Mae amseroedd teithio ar gyfartaledd ar gyfer gwasanaethau allweddol yn yr ardal, yn enwedig ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn hirach na'r amser cyfartalog ar gyfer Cymru.²⁸⁴


Dywedir bod ieuchyd 83% o bobl Cas-gwent a Dyffryn Gwy Isaf yn dda neu'n dda iawn, sef yr uchaf o'r pum ardal. Santes Fair oedd â'r gyfran isaf, gyda 78%, a St Kingsmark 2 yr uchaf, sef 89% (dyma hefyd y trydydd lleiaf difreintiedig o ardaloedd Sir Fynwy). Yn ardal Cas-gwent, mae

mwy o bobl yn byw gyda salwch cyfyngol hirdymor, ac mae mwy yn dioddef o ganser yn Thornwell 1 nag mewn ardaloedd eraill.²⁸⁵

O'r rhai yn Sir Fynwy sydd ar y rhestr aros am dai fforddiadwy ag angen cydnabyddedig, mae'r galw mwyaf am lety un ystafell wely, yn enwedig yn Ardal Marchnad Tai Cas-gwent (o fis Mai 2021).²⁸⁶

Rhwng Tachwedd 2020 a Thachwedd 2021, arhosodd troseddau cyffredinol Cas-gwent yr un fath ar 19.5%. Bu gostyngiad mewn Treisio, Byrgleriaethau Masnachol, Troseddau Cyffuriau, a Lladrad a allai fod yn rhannol oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau symud, a'r gostyngiad mewn gweithgarwch Stopio a Chwilio yn y sir. Bu cynnydd nodedig ym mhob Lladrad Arall, Troseddau Trefn Gyhoeddus, a Throseddau Rhywiol Eraill. Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 cofnodwyd 294 o achosion o YGG, gan gyfrif am 25.9% o'r holl YGG a adroddwyd ar draws Sir Fynwy. Y wardiau â'r mynychder mwyaf oedd y Santes Fair, Thornwell a St Christopher's, gyda chynnydd sydyn byr yn Nrennewydd Gelli-farch. Ym mis Ionawr 2021, roedd 99 o oedolion yn cyrchu cymorth, 39 ar gyfer alcohol a 60 ar gyfer sylweddau eraill. Y sylweddau a gofnodwyd fwyaf y ceisir cymorth cychwynnol ar eu cyfer yw heroin ac alcohol. Mae Nifer y Troseddau yng Nghas-gwent o Drais Heb Anafiadau wedi cynyddu o 270 i 294 ac mae Difrod Troseddol hefyd wedi cynyddu o 121 i 142 o ddigwyddiadau.

Thornwell yng Nghas-gwent sydd wedi cofnodi'r nifer fwyaf o droseddau domestig yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rhwng Ionawr 2021 a Thachwedd 2021, roedd Thornwell yn cyfrif am 33% o'r holl droseddau a gofnodwyd yn ardal Cas-gwent.



Lles Diwylliannol

Mae Cas-gwent yn un o drefi marchnad hanesyddol Sir Fynwy, ac mae'r ardal yn ffinio â Swydd Gaerloyw a Fforest y Ddena yn Lloegr. Mae tirwedd yr ardal, ynghyd ag afon Gwy, sydd ag un o'r amrediadau llanw uchaf yn y byd, a harddwch naturiol rhan isaf dyffryn Gwy, yn uchafbwyntiau arbennig.

Mae ffigurau o Gyfrifiad 2011 yn dangos mai'r ardal hon sydd â'r lefel isaf o sgiliau Cymraeg (dywedodd 87% nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg). Yn ogystal, roedd cyfran y bobl a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg (8.8%) a siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (6%) yr isaf yn Sir Fynwy, o gymharu ar draws y 5 ardal. Mae'r gymdeithas Gymraeg, Cymdeithas Cas-gwent, Cil-y-coed a'r cyffiniau, yn gwasanaethu'r ardal ac yn cynnal nosweithiau thema yn ogystal â Chlybiau Sgwrsio yn rheolaidd.

Dywedodd 30% o'r boblogaeth nad oedd ganddynt unrhyw grefydd yng Nghyfrifiad 2011, y ffigwr uchaf o'r 5 ardal; fodd bynnag, mae'r ardal yn gyson ag ardaloedd eraill gyda 62% yn datgan eu bod yn Gristnogion²⁸⁷.

Mae gan yr ardal dreftadaeth adeiledig gyfoethog gan gynnwys Castell Cas-gwent yn edrych dros yr afon Gwy, Porth y Dref a Mur y Porthladd a Hen Bont Gwy. Mae Abaty Tyndyrn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy yn safle treftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol ac mae'n un o'r adeiladau mwyaf adnabyddus yn Sir Fynwy. Mae hwn yn cael ei adnabod yn eang fel safle treftadaeth Prydeinig pwysig.

Mae Cas-gwent a'r cyffiniau hefyd yn cynnal nifer o wyliau a digwyddiadau celfyddydol gan gynnwys sioe amaethyddol flynyddol, digwyddiadau theatraidd ac eraill a sioeau a gynhelir yn y Drill Hall, ac Amgueddfa Cas-gwent, sy'n arddangos gorffennol cyfoethog ac amrywiol y dref.

Mae amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i lyfrgell yn yr ardal hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, gan gymryd, ar gyfartaledd, 56 munud (45 munud yw'r cyfartaledd yng Nghymru). Yr amser teithio ar drafnidiaeth breifat yw 13 munud, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 10 munud.²⁸⁸

Cae Ras Cas-gwent yw un o'r lleoliadau chwaraeon amlycaf yn y sir, ac mae'n cynnal y Ras Fawr Genedlaethol Cymru bob mis Rhagfyr, sef diwrnod rasio mwyaf y flwyddyn yng Nghymru. Mae'r cae rasio hefyd yn cynnal amrywiaeth o gerddoriaeth fyw a digwyddiadau chwaraeon eraill bob blwyddyn, er bod y pandemig wedi effeithio ar y rhain.

Beth fyddai'n gwneud yr ardal yn well?

"Mae trafndiaeth gyhoeddus yn warthus"



"Gwasanaethau bysiau lleol. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau yn gorffen yn echrydus o gynnar e.e. y bws olaf o Gasnewydd i Gas-gwent"

Mae amser teithio i gyfleuster chwaraeon yn yr ardal ar drafnidiaeth gyhoeddus yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 70 munud (Cyfartaledd Cymru, 52 munud). Ar drafnidiaeth breifat mae'n 12 munud, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.²⁸⁹ Mae gan Gas-gwent orsaf drenau, sy'n golygu ei bod wedi'i chysylltu'n dda â de Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, roedd adborth gan drigolion yn ystod y broses ymgysylltu yn awgrymu fod llawer yn anhapus gyda'r ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus bresennol.

Ymatebion ymgysylltu

Mae crynodeb o'r ymatebion o'r ardal i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd wedi eu darparu. Er mwyn gwneud hyn yn hawdd i ddadansoddi llawer o'r atebion amrywiol a roddwyd i'r cwestiynau pen - agored a ofynnwyd, rhoddwyd y sylwadau mewn categorïau neu themâu. Mae hyn yn caniatáu ni adnabod rhai o'r themâu mwyaf cyffredin yr oedd unigolion yn yr ardal wedi eu nodi.

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y themâu a ddefnyddiwyd er mwyn categorïddio'r sylwadau, a lle bo'n briodol, mae'n nodi os oeddynt yn bositif neu'n negatïf.



Calon Sir Fynwy

Llesiant Amgylcheddol

Nodweddir yr ardal hon gan fryniau tonnog, tir fferm cynhyrchol a llawer o ddarnau o Goetir Hynafol Lled-naturiol, rhai ohonynt o faint sylweddol.

Mae'r ardal hefyd yn cynnwys llethrau serth sy'n nodi ymyl ucheldiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd-orllewin. Mae Afon Wysg yn nodwedd amlwg, yn llifo trwy ganol yr ardal.

“Rwyf wir yn gwerthfawrogi'r manau agored eang, y llefydd gwyrdd, y coetiroedd hyfryd a'r olygfa lle'r wyf yn byw”

Mae'r ardal yn wledig i raddau helaeth, a thref farchnad fechan Brynbuga yw'r anheddiad mwyaf, gyda phentref mawr Rhaglan yn dilyn.

Mae Afon Wysg wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig oherwydd ei chyflwr glân a naturiol a'r rhywogaethau pysgod pwysig y mae'n eu cynnal, er fel y disgrifiwyd yn flaenorol mae pryderon sylweddol ynghylch ansawdd dŵr yn Afon Wysg o ffosffadau. Er gwaethaf dynodiad Afon Wysg yn Ardal Cadwraeth Arbennig, er mwyn gwarchod y rhywogaeth sydd ynddi, mae'n cael ei dosbarthu fel Ansawdd Cymedrol o dan Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr UE. Mae'n rhaid i'r cyrff dŵr hyn wella i o leiaf 'da' erbyn 2027.²⁹⁰ Mae llednentydd Nant Olwy a Gafenni yn wynebu sawl pwysau llygredd gwledig gwasgaredig.²⁹¹ Mae tir yn yr ardal hon yn bennaf yn Radd 3 neu 4 o dan y Dosbarthiad Tir Amaethyddol, ac mae amaethyddiaeth gymharol ddwys yn yr ardal wledig hon yn golygu bod yr ardal o gwmpas Rhaglan yn hynod fregus i nitradau.²⁹² Mae yna hefyd un Parth Gwarchod Tarddiad Dŵr Daear yng nghornel ogledd-orllewin yr ardal hon ar hyd Mynydd Garnclochdy.

Mae gan yr ardal 5 SoDdGA o bwysigrwydd ar lefel Cymru, gan gynnwys safleoedd daearegol, safle ystumod a Chronfa Ddŵr Llandegfedd, y mwyafrif ohonynt yn Sir Fynwy ac sydd wedi dod yn safle pwysig ar gyfer adar dŵr sy'n gaeafu ers ei adeiladu ym 1963. Dyma'r corff mwyaf o ddŵr croyw agored yn y sir.²⁹³

Mae 161 o Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur, yn bennaf coetir hynafol a glaswelltir niwtral. Mae'r ardaloedd coetir ger Brynbuga yn gymharol agos at ei gilydd, ac mae potensial i wella eu cysylltedd trwy eu cysylltu â'i gilydd.

Mae bygythiadau i gynefinoedd yn yr ardal hon yn cynnwys:

- Mae Afon Wysg yn destun echdynnu ar gyfer cyflenwadau dŵr ac mae mewn perygl o lifoedd ac ansawdd isel fel adnodd bywyd gwyllt yn y dyfodol os bydd pwysau arni yn cynyddu.
- Cysylltedd gwael o safleoedd coetir.
- Llygredd o amaethyddiaeth.
- Gall clefyd coed achosi darnio pellach o barseli coetir.

- Colli cynefinoedd oherwydd datblygiad.

Mae gan dref Brynbuga 7 man gwyrdd amwynder, felly mae darpariaeth dda ar eu cyfer, er mai dim ond 2 fan gwyrdd naturiol sydd, ac mae ansawdd y mannau gwyrdd amwynder ym Mrynbuga yn gyffredinol isel. Nid oes gan Raglan barciau na gerddi a dim ond un man gwyrdd naturiol. Felly, er gwaethaf natur wledig yr ardal o amgylch Brynbuga, mae'r ddarpariaeth o fannau gwyrdd o ansawdd da yn gymharol isel. Mae darpariaeth ar gyfer chwaraeon awyr agored yn arbennig o ddiffygiol yn yr ardaloedd gwledig hyn.²⁹⁴

Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn creu coridor bywyd gwyllt gwerthfawr gyda llawer o goed gyda Gorchmynion Cadw Coed, ac mae gan yr A40 hefyd gystyrau o Orchmynion Cadw Coed, fel y mae coed yn Nhŷ Goetre a'r pentrefi cyfagos. Mae llawer o goed o amgylch Brynbuga yn elwa o gael eu hamddiffyn, gan eu bod yn bwysig i leoliad y dref hanesyddol ac yn darparu cysylltiadau â choetiroedd ar y cyrion.²⁹⁵



Ffynhonnell: www.uskinbloom.org.uk

Hefyd yn bwysig i amwynder gweledol Brynbuga mae'r blodau a blannwyd fel rhan o Frynbuga yn ei Blodau, a'r cymysgeddau mwy naturiol o flodau gwyllt a heuwyd fel rhan o Bolisi Pryfed Peillio Sir Fynwy. Ers ei ffurfio ym 1982, mae Brynbuga yn ei Blodau wedi gweithio'n ddiflino i wella Brynbuga trwy blannu coed, llwyni, bylbiau ac arddangosiadau blodau, wrth fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chadw bywyd gwyllt, a gweithio gyda phobl ifanc. Oherwydd yr ymdrechion hyn, mae Brynbuga wedi ennill aur am 38 mlynedd yn olynol yng nghategori Pentref Mawr Cymru yn ei Blodau.²⁹⁶

Mae Stryd y Bont ym Mrynbuga (A472) yn un o ddim ond dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn y sir, gyda'r ardal yn gyson yn uwch na'r allyriadau nitrogen deuocsid a achosir gan draffig drwy'r dref. Mae cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio drwy'r dref ac ar hyd yr A472 yn cyfrannu tua 25% o'r nitrogen deuocsid.²⁹⁷ Mae swm y traffig ar Stryd y Bont ym Mrynbuga yn gymharol uchel; traffig yn ciwio, a'r ffaith bod y stryd yn gymharol gul, yn arwain at ormodedd yr amcan nitrogen deuocsid cymedrig blyneddol. Mae nitrogen deuocsid yn niweidio iechyd, gan achosi a

gwaethygu problemau anadlu.²⁹⁸ Mae Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer yn ei le ac mae'n ymddangos ei fod yn cael effaith oherwydd 2019 oedd y bumed flwyddyn ddi-dor heb unrhyw ormodedd o lefelau nitrogen deuocsid blynyddol.²⁹⁹ Rhoddwyd rhai mesurau ar waith yn ystod y cyfyngiadau symud i ganiatáu i drigolion siopa a defnyddio'r palmentydd wrth gadw pellter cymdeithasol. Er bod prif elfennau hynny wedi'u dileu, mae rhai elfennau megis terfyn cyflymder o 20mya ac atal parcio ger y siop cludfwyd wedi cyfrannu rhywfaint at leihau tagfeydd.³⁰⁰

Mae gan yr Afon Wysg orlifdir eang ac mae'n dueddol o ddioddef llifogydd, ac er bod datblygiad wedi osgoi'r gorlifdir naturiol yn draddodiadol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddosbarthu fel risg uchel o lifogydd, yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn cymuned sy'n debygol o fod dan ddŵr.³⁰¹ Mae tref Frynbuga yn cael ei hamddiffyn gan amddiffynfeydd rhag llifogydd, ond mae sawl ffordd yn yr ardal dan ddŵr gan lednentydd i'r Wysg megis y Nant Olwy yn Llanllywel. Mae cyfanswm o 2,164 o bobl a 921 eiddo yn yr ardal hon mewn perygl isel o lifogydd gan afonydd, ac mae 26 eiddo a 120 o bobl mewn perygl Uchel neu Ganolig o lifogydd dŵr wyneb.³⁰² Ym mis Chwefror 2020, cafwyd llifogydd mewn tua 24 eiddo ym Mrynbuga, llifogydd mewn 12 eiddo preswyl a 2 eiddo masnachol yn ardal Llanbadog, ynghyd ag 11 eiddo yn ardal Llanfihangel Gobion a Chemais Comawndwr.³⁰³



Ffynbonnell: www.jtallet.co.uk/uskfloods/photo_flood_52_page.htm

Lles Economaidd

Mae prisiau tai yn yr ardal hon yn uchel iawn: ei wardiau sydd â'r pris cyfartalog uchaf yn Sir Fynwy gyda 2 ymhlith y 10 drutaf yn y sir.³⁰⁴

Mae Brynbuga wedi profi cyfraddau siopau gwag uchel cyson o gymharu â chanolfannau eraill. Fodd bynnag, o 2020, dim ond 9.8% o'i unedau oedd yn wag, yr ail isaf o'r 5 ardal, a'r nifer isaf ers 2014. Brynbuga yw'r unig dref yn Sir Fynwy a welodd gwymp yn y cyfraddau gwacter yn 2020, tra bod y cyfraddau yn Rhaglan wedi aros ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol.³⁰⁵

“Mae’n bwysig i gael mwy o siopau a chyfleusterau fel nad oes rhaid i ni deithio allan o’r pentref”

“Rwyf am deimlo fod y gymuned a’r busnesau yn ffynnu”

Yn yr ardal hon, mae 4% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gyda 6% yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig o ran incwm. Mae 20 o bobl yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer diweithdra, ac mae 5 ohonynt rhwng 16-24 oed. Mae 8.4% o blant mewn teuluoedd incwm isel.³⁰⁶

O ystyried y ffigurau hyn, Brynbuga a Rhaglan sydd â'r gyfran isaf o amddifadedd, o gymharu â phedair ardal arall Sir Fynwy. Yn yr ardal hon, mae 15% o aelwydydd o dan 50% o'r incwm canolrifol ar gyfer y DU, ac mae 20% yn is na 60%, o gymharu â 17% a 22% yn y drefn honno ar gyfer Sir Fynwy, a 25% a 33% ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.³⁰⁷

Lles Cymdeithasol

Mae gan galon Sir Fynwy boblogaeth o 10,476, y lleiaf poblog o'r pum ardal, yr ardal sydd â'r gyfran leiaf o blant, sef 13.2%, ac mae'n gartref i'r gyfran uchaf o bobl 65 oed a hŷn, sef 29.3%.

Nid yw'r un o'r ardaloedd bach yng Nghalon Sir Fynwy yn ymddangos yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy, er bod mynediad at wasanaethau yn broblem, yn enwedig y tu allan i brif dref Brynbuga. Mae amser teithio ar gyfartaledd i sawl gwasanaeth yng Nghalon Sir Fynwy, fel y'u dosbarthwyd gan fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ymhlith yr uchaf yn y sir, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, yn enwedig ar gyfer amseroedd teithio trafndiaeth gyhoeddus.³⁰⁸

Yng nghanol Sir Fynwy, adroddir bod 81% o iechedd pobl yn dda neu'n dda iawn. Mae cymuned Brynbuga yn adrodd yr isaf (73.4% ym Mrynbuga 1) a'r uchaf (85.7% ym Mrynbuga 2) yn yr ardal hon. Mae gan Oetre 2 gyfradd uwch na chyfartaledd Sir Fynwy (589.6) o achosion o ganser (683.3).³⁰⁹

Sylwch fod data Diogelwch Cymunedol ar gyfer calon Sir Fynwy wedi'i gynnwys yn y data ar gyfer Trefynwy a'r cyffiniau.

Lles Diwylliannol

Mae calon Sir Fynwy yn ardal arall lle mae'r dirwedd adeiledig a ffisegol yn chwarae rhan bwysig ym mywydau a diwylliant pobl. Mae hyn yn cynnwys Afon Wysg, Camlas Mynwy ac Aberhonddu a Glanfa Goetre ar y gamlas yn ogystal â llawer o lwybrau cerdded gwledig a thirwedd syfrdanol.

Mae gan yr ardal hefyd dreftadaeth adeiledig gyfoethog gan gynnwys Castell Rhaglan, Sgwâr Twyn, tŷ Sesiynau Brynbuga a llawer o eglwysi.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yng nghanol Sir Fynwy. Mae mynediad i'r addysg hon yn gofyn am daith 11 milltir i'r Fenni, neu gellir ei chyrchu mewn awdurdodau cyfagos. Yn ddiddorol, yr ardal hon sydd â'r 2nd gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (10.2%), yn ogystal â'r rhai sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (7.4%).³¹⁰ Gan nad oes grŵp Cymraeg wedi'i leoli'n ganolog ym Mrynbuga, taith i'r Fenni gerllaw fyddai'n rhoi'r cyfle gorau i drigolion ymuno â grŵp o'r fath.

Gyda 66.7% yn datgan eu bod yn Gristnogion, mae hyn yn uwch na chyfartaledd Sir Fynwy, a'r uchaf o bob un o'r 5 ardal. Dywedodd 1.3% o'r boblogaeth eu bod o grefydd heblaw Cristion. Yr ardal hon sydd â'r gyfran uchaf o boblogaeth Sir Fynwy sy'n datgan eu bod o ethnigrwydd gwyn (98.7%).³¹¹



Mae gan yr ardal, yn bennaf o amgylch y trefi a'r pentrefi, lawer o wyliau, digwyddiadau a gweithgareddau lleol; mae Amgueddfa Bywyd Gwledig Brynbuga hefyd yn yr ardal. Mae Sioe Frynbuga yn sioe amaethyddol undydd flynyddol sy'n denu arddangoswyr, masnachwyr ac ymwelwyr i'r ardal bob mis Medi.

Mae darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig iawn yng nghanol Sir Fynwy. Mae amser teithio i gyfleusterau hamdden yng nghanol Sir Fynwy yn wael; ar gyfartaledd, mae'n cymryd dros ddwy awr i deithio i gyfleuster chwaraeon ar dtrafnidiaeth gyhoeddus (124 munud), sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 55 munud. Yn yr un modd, mae amser teithio preifat o 26 munud ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru o 10 munud.³¹² Mae amser teithio i lyfrgell gyhoeddus hefyd yn hir, gan gymryd 73 munud ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a 14 munud ar dtrafnidiaeth breifat.³¹³ Yr amser teithio cyhoeddus cyfartalog i ysgol uwchradd yw 90 munud, gyda mwyafrif y plant yn teithio i naill ai'r Fenni, Trefynwy, neu Ysgol Gyfun Caerllion yng Nghasnewydd.

Ymatebion ymgysylltu

Mae crynodeb o'r ymatebion o'r ardal i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd wedi eu darparu. Er mwyn gwneud hyn yn hawdd i ddadansoddi llawer o'r atebion amrywiol a roddwyd i'r cwestiynau pen - agored a ofynnwyd, rhoddwyd y sylwadau mewn categorïau neu themâu. Mae hyn yn caniatáu ni adnabod rhai o'r themâu mwyaf cyffredin yr oedd unigolion yn yr ardal wedi eu nodi.

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y themâu a ddefnyddiwyd er mwyn categoreiddio'r sylwadau, a lle bo'n briodol, mae'n nodi os oeddynt yn bositif neu'n negatïf.



Trefynwy a'r cyffiniau

Llesiant Amgylcheddol

Mae'r ardal hon yn canolbwyntio o amgylch tref hanesyddol Trefynwy, a leolir lle mae Afonydd Mynwy, Troddi a Gwy yn cwrdd, ac mae'n cynnwys chwarter de-orllewin Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy. Mae gorchudd coed bron yn ddi-dor o Drefynwy i lawr

Dyffryn Gwy tuag at Gas-gwent a dolydd niwtral llawn blodau ar y llwyfandiroedd uwchben Afon Gwy. I'r gogledd a'r gorllewin o Drefynwy, mae'r ardal yn wledig iawn ac yn denau ei phoblogaeth, gyda chefn gwlad bryniog, amaethyddiaeth gymysg a thir o safon Gradd 3 a 4 ac ychydig iawn o gymunedau lleol.

Mae'r ardal yn bwysig ar gyfer twristiaeth, yn ogystal â chyflogaeth mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth. Fel mewn mannau eraill yn Sir Fynwy, mae twristiaeth yn arbennig o ddibynnol ar gynnal harddwch naturiol a bywyd gwyllt amrywiol yr ardal.³¹⁴

O dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd y CE, mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig yn yr ardal hon: Afon Gwy oherwydd ei chyflwr naturiol, ei dŵr glân a'i hamrywiaeth eang o rywogaethau, Coetiroedd Dyffryn Gwy, a warchodir oherwydd eu bod yn darparu gorchudd coed parhaus fwy neu lai a Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena. Mae pob un o'r tri maes hyn yn bwysig ar lefel Ewropeaidd.

“Golygfeydd hyfryd, aer glân, afonydd hyfryd, y rhyddid i grwydro, cerdded, rhedeg”

Mae gan yr ardal hon hefyd yr unig ddwy warchodfa Natur Genedlaethol yn Sir Fynwy, y ddau goetir, o bwysigrwydd y DU. Mae yna hefyd 39 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, coetir a glaswelltir yn bennaf, a 320 o Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur o bwysigrwydd lleol, ill dau'r nifer fwyaf o safleoedd allan o unrhyw un o'r 5 ardal yn yr asesiad hwn.³¹⁵ Mae gan ran ddeheuol yr ardal hon hefyd unig Warchodfa Natur Leol y sir, sef Cors Cleddon.

Mae clefyd coed yn fygythiad sylweddol a allai ddarnio rhai o goetiroedd Dyffryn Gwy sydd â chysylltiadau da. Mae'r bygythiadau presennol yn cynnwys Clefyd Coed Ynn a Chlefyd Llarwydd sydd â'r potensial i effeithio'n ddramatig ar gymeriad tirwedd yr AHNE.³¹⁶ Yn 2013, torrodd Cyfoeth Naturiol Cymru tua 80 hectar o goed llarwydd heintiedig yn ardal Dyffryn Gwy, ond mae arolygon pellach wedi nodi tua 300,000 o goed llarwydd sydd newydd eu heintio, gan orchuddio 270 hectar o'r goedwig.³¹⁷ Yn 2021, cafodd ardaloedd sylweddol o goed llarwydd eu torri ar Gomin Tryleg, er enghraifft.³¹⁸

Mae Dyffryn Gwy, a'i bwysigrwydd i dwristiaeth, wedi cael sylw yn yr adran yng Nghas-gwent ac Afon Gwy Isaf. Mae pwysigrwydd Dyffryn Gwy ar gyfer tirwedd yn cael ei adlewyrchu gan ei ddynodiad fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac mae'n cynnwys yr Afon Gwy droellog, sgarpiâu coediog a chlogwyni calchfaen, ynghyd â chestyll yn Nhrefynwy ac yn frith ar hyd y brynau a'r dyffrynnoedd. Mae Llwybr Dyffryn Gwy a Llwybr Clawdd Offa yn cymryd mewn Trefynwy a rhannau o'r ardal hon hefyd. Mae gan Drefynwy a'r cyffiniau 603km o hawliau tramwy cyhoeddus. Fodd bynnag, unwaith eto, o ran mannau gwyrdd naturiol hygrych, er bod tref Drefynwy wedi'i gwasanaethu'n weddol dda, ac yn cynnwys Dôl Chippenham, Parc Drybridge, Coedwig Claypatch, Dau Ddôl Afon a Dôl Vauxhall, nid oes gan rai o'r wardiau gwledig yn yr ardal hon unrhyw fannau gwyrdd hygrych, ac mae rhai pentrefi a chymunedau gwledig yn brin o ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon awyr agored.³¹⁹

Mae gorchudd coed trefol yn nhref Trefynwy yn 17.5%, sy'n uwch na'r rhan fwyaf o drefi eraill Sir Fynwy. Fodd bynnag, collwyd 5 hectar rhwng 2009-13.³²⁰ Mae'r gostyngiad hwn mewn gorchudd coed yn arwain at golli buddion i iechyd a lles, amsugno llygredd, bioamrywiaeth, a gostyngiad mewn dŵr ffo wyneb.

Mae cyfarfod afonydd Mynwy, Troddi a Gwy yn Nhrefynwy yn golygu bod y dref mewn perygl llifogydd arbennig o uchel. Er bod amddiffynfeydd rhag llifogydd ar ochr y dref i'r afon yn golygu bod llawer o'r dref wedi'i diogelu i ryw raddau, bu llifogydd sylweddol a dinistriol yn y blynyddoedd diwethaf, yn fwyaf nodedig yn ystod Storm Dennis ym mis Chwefror 2020, pan yn ogystal â llifogydd i 56 eiddo yn Nhrefynwy, bu difrod sylweddol i seilwaith. Cafodd Gwaith Trin Dŵr Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn Mayhill hefyd lifogydd ym mis Chwefror 2020, gyda 7,400 o eiddo wedi'u heffeithio gan golli cyflenwad dŵr. Roedd cyflenwadau'n cael eu cynnal gyda fflyd o danceri yn dod â dŵr glân, a darparwyd cyflenwadau dŵr potel, lle'r oedd angen. Dim ond 11 diwrnod ar ôl y llifogydd y cafodd cyflenwadau o'r gwaith trin eu hadfer.³²¹

Cafodd bentref Ynysgynwraidd ei effeithio'n ddrwg hefyd gan lifogydd ym mis Hydref 2019 a mis Chwefror 2020, gyda 18 eiddo yn gorlifo'r ddau dro, yn ogystal â'r dafarn leol a neuadd y pentref.³²²

Yng Nghynllun Rheoli Llifogydd Sir Fynwy, nodir bod 116 o bobl a 18 eiddo mewn perygl uchel neu ganolog o lifogydd o ddŵr wyneb, gyda 1,473 o eiddo a 3,462 o bobl mewn perygl isel o lifogydd afonydd.

Yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid i'r Rhaglen Datblygu Gwledig, bu Trawsnewid Trefynwy yn rheoli prosiect i asesu'r potensial ar gyfer datrysiadau rheoli llifogydd naturiol o amgylch Trefynwy.³²³ Mae hyn wedi'i ddatblygu ymhellach gydag astudiaeth fanwl o ardal Kingswood, i geisio cyllid i osod y mesurau a argymhellir.³²⁴

Mae gan Drefynwy sector gwirfoddol gweithgar iawn yn gweithio ar gynaliadwyedd, gan gynnwys Trawsnewid Trefynwy. Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac wedi sefydlu grŵp Gweithredu ar Argyfwng Hinsawdd, neu grŵp GAH Trefynwy, sydd wedi bod yn rhagweithiol wrth drefnu gwaith i ddiogelu mannau gwyrdd, annog teithio llesol a Gŵyl Ddyfodol Hinsawdd Trefynwy.³²⁵

Mae ansawdd dŵr yn yr ardal hon yn amrywio. Mae Afon Mynwy o ansawdd da, tra nad yw Afon Troddi ond o ansawdd cymedrol, yn ôl pob tebyg oherwydd effaith amaethyddiaeth. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae Afon Gwy o ansawdd da a chymedrol, ac mae'n bwysig yn genedlaethol am ei physgodfeydd, ond mae llygredd nitradau a ffosffad yn ei bygwth ar hyn o bryd.³²⁶ Mae ardal fechan o Dryleg yn agored iawn i gael ei heffeithio gan nitradau ynghyd â rhan fechan sy'n croesi'r ffin ger Trefynwy. Mae yna hefyd 5 Parth Diogelu Tarddiad Dŵr Daear yn eu lle i amddiffyn cyflenwadau dŵr yfed tanddaearol rhag llygredd.

Er nad oes unrhyw Barthau Rheoli Ansawdd Aer yn Nhrefynwy a'r cyffiniau, mae rhai pryderon am allyriadau nitrogen deuocsid a achosir gan draffig ar yr A40 yn Nhrefynwy. Mae Cyngor Sir

Fynwy yn parhau i fonitro ansawdd aer ar hyd yr A40 ac yng nghanol y dref, yn enwedig o ystyried ei agosrwydd at leoliadau sensitif fel Ysgol Drefynwy.³²⁷ Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi symud yr ardal chwarae i blant yng Nghaeau Chippenham i ffwrdd o'r A40, sy'n golygu nad yw'r plant yn chwarae'n agos at ffynhonnell llygredd aer, ac yn elwa o faes chwarae llawer mwy hygrych, cynaliadwy, cynhwysol ac ysgogol.³²⁸

Lles Economaidd

Mae prisiau tai yn yr ardal hon yn uchel, gyda 4 ward ymhlith y 10 drutaf yn y sir ond 2 ward ymhlith y 10 lleiaf drud – y rhataf yn Overmonnow sydd yn y 30% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r prisiau tai yn yr ardal hon felly'n dangos y gwahaniaethau sy'n bosibl yn Sir Fynwy, gyda'r wardiau mwy cefnog â'r potensial i guddio'r rhai sy'n fwy difreintiedig.³²⁹

Yn 2020, roedd 15.4% o'r holl unedau yn ardal siopa ganolog Trefynwy yn wag, y gyfran uchaf ar gofnod, yn dilyn cynnydd yn 2019.³³⁰ Gwelwyd y cynnydd mwyaf serth mewn cyfraddau gwacter ar draws ffryntiadau eilaidd, o 12.3% yn 2018 i 21.1%.

Gallai hyn, yn rhannol, adlewyrchu effaith

pandemig Covid-19 ar y stryd fawr, yn enwedig

gyda cholli rhai cadwyni cenedlaethol o Drefynwy, megis Peacocks.³³¹

“Gallai (a dylai) y Stryd Fawr yn Nhrefynwy fod yn gyrchfan ond mae yna ddiffyg amrywiaeth yno ar hyn o bryd ac rwy'n aml yn cael fy ngorfodi i fynd allan o'r dref neu siopa ar-lein”

Yn yr ardal hon, mae 7% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gyda 12% yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig o ran incwm. Mae 105 o bobl (0.94%) yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer diweithdra, ac mae 25 ohonynt rhwng 16-24 oed.³³² Mae 14.8% o blant mewn teuluoedd incwm isel. Mae Trefynwy yn cynnwys Overmonnow 2, sydd yn y 30% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fwyaf difreintiedig yng Nghymru ac sydd â'r ganran drydedd uchaf o bobl mewn amddifadedd incwm yn y sir, a'r ganran uchaf o bobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth.³³³ Mae Trefynwy hefyd yn cynnwys Llandidiwg ac Osbaston, sydd â'r lefel isaf ar y cyd o amddifadedd ar gyfer incwm a chyflogaeth yn y sir (ynghyd â Llanfihangel Troddi ar gyfer yr olaf) – sy'n dangos y gwahaniaeth yn Sir Fynwy.

Yn nalgylch Trefynwy, mae 18% o aelwydydd o dan 50% o incwm canolrifol y DU, a 24% yn is na 60%. Mae hyn yn cymharu â 17% a 22% yn y drefn honno ar gyfer Sir Fynwy, a 25% a 33% ar gyfer Cymru gyfan.³³⁴

Lles Cymdeithasol

Mae poblogaeth Trefynwy a'r cyffiniau ychydig dros 17,000. Mae 16.9% o boblogaeth Trefynwy a'r cyffiniau rhwng 0-15 oed, yr uchaf o'r pum ardal, tra bod 26.6% o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn.³³⁵


Dim ond un ardal sydd gan Drefynwy a'r cyffiniau yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy. Mae rhan o Overmonnow (Overmonnow 2) wedi'i gosod fel yr ail ardal fwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy, lle mae cyflogaeth ac addysg yn brif bryderon. Mae 16% o bobl o oedran gweithio yn Overmonnow 2 mewn amddifadedd cyflogaeth, yr uchaf yn Sir Fynwy, ac nid oes gan 23.2% o oedolion o oedran gweithio unrhyw gymwysterau.³³⁶ Mae trigolion mewn rhai rhannau o Overmonnow yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg ar gyfer plant cyn oed ysgol.

Mae mynediad at wasanaethau yn yr ardal o amgylch Trefynwy yn fater allweddol, gyda rhai ardaloedd yn cael eu rhestru ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er enghraifft, mae Llandeilo Gresynni yn chweched ardal fwyaf difreintiedig Cymru o ran mynediad at wasanaethau. Yn yr ardal hon, mae dwy ran o dair o gartrefi yn dioddef o ddiffyg argaeledd band eang o 30Mb/e a 3 awr o deithiau dwyffordd ar gyfartaledd ar drafnidiaeth gyhoeddus i wasanaethau allweddol fel siop fwyd, fferyllfa, swyddfa bost, llyfrgell ac ysgol uwchradd.³³⁷

Mae 80% o bobl Trefynwy a'r cymunedau cyfagos yn dweud bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn. Yn ardal Trefynwy, mae hyn yn amrywio o 65% yn Overmonnow 2 (yr ail ardal fwyaf difreintiedig yn Sir Fynwy) i 86% yn Nhryleg Unedig 2.³³⁸

Rhwng Tachwedd 2020 a Thachwedd 2021, cynyddodd troseddau cyffredinol yn Nhrefynwy o 24.5% i 25.4% o boblogaeth y sir (D.S.: mae data trosedd Trefynwy yn cynnwys Brynbuga a Rhaglan). Bu gostyngiad yn nifer y troseddau a gofnodwyd ar gyfer Dwyn o Siopau, Dwyn, a Byrgleriaethau Preswyl a Masnachol, o bosibl, yn rhannol, oherwydd y cyfnodau pandemig a chloi. Bu cynnydd nodedig mewn Trais Heb Anafiadau o 254 o ddigwyddiadau a gofnodwyd i 398. Gwelwyd cynnydd nodedig hefyd mewn Trais ag Anaf, Troseddau Trefn Gyhoeddus a Threisio. Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 cofnodwyd 250 o achosion o YGG, gan gyfrif am 22% o'r holl YGG a adroddwyd ar draws Sir Fynwy. Y wardiau â'r mynychder mwyaf oedd Drybridge, Overmonnow a Thryleg Unedig. Ym mis Ionawr 2021, roedd 46 o oedolion yn cyrchu cymorth, 31 ar gyfer alcohol a 15 ar gyfer sylweddau eraill.

Drybridge yn Nhrefynwy sydd wedi cofnodi'r nifer fwyaf o droseddau domestig yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rhwng Ionawr 2021 a Thachwedd 2021, roedd Drybridge yn cyfrif am 21% o'r holl droseddau a gofnodwyd yn Ardal Drefynwy.



Mae tref farchnad Trefynwy wedi'i lleoli ar afon Mynwy ac mae'n gweithredu fel y brif ganolfan fanwerthu, addysgol a diwylliannol ar gyfer ardal wledig eang, gan gynnwys llawer o ogledd-ddwyrain a chanol Sir Fynwy, ac yn ymestyn i Fforest y Ddena a Swydd Henffordd. Mae ei leoliad ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn ffactor bwysig yn niwylliant yr ardal, gydag ardal amgylchynol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy o bwysigrwydd amgylcheddol allweddol.

O gymharu ag ardaloedd eraill yn Sir Fynwy, mae gan ardal Drefynwy gyfran uwch o grwpiau ethnig o fewn ei phoblogaeth, yn ôl Cyfrifiad 2011. Er bod y ffigurau hyn yn isel, a adlewyrchir gan ffigurau Sir Fynwy yn ei chyfanrwydd, Trefynwy sydd â'r 2^{il} boblogaeth hil gymysg uchaf (0.7%) ac 2^{il} o'r boblogaeth Asiaidd uchaf (0.4%). Dengys data'r cyfrifiad fod yr ardal yn gyson ag un y sir, gan fod tua 62% o'r boblogaeth wedi datgan eu bod yn Gristnogion.

O ran y Gymraeg, mae cymdeithas Gymraeg weithgar, sef Cymdeithas Gymraeg Trefynwy a'r Cylch, yn darparu cyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol. Mae addysg Gymraeg yn ardal Mynwy yn gofyn am deithio i'r naill ysgol gynradd neu'r llall yn y sir; mae'r ddwy daith tua 19 milltir. Mae angen taith bellach fyth (24 milltir) ar gyfer yr addysg uwchradd cyfrwng Gymraeg agosaf, sydd wedi'i lleoli yn Nhorfaen. Adlewyrchir y diffyg darpariaeth ysgol yn y ffigurau, gydag ardal Drefynwy â'r gyfran gyfartal uchaf o'r boblogaeth heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg.

Mae gan dref Drefynwy bwysigrwydd archeolegol a hanesyddol sylweddol. Mae Cyngor Archaeoleg Prydain wedi dynodi Trefynwy yn y gorffennol fel y seithfed dref orau ar gyfer archaeoleg ym Mhrydain. Ym mis Mai 2012, daeth Trefynwy yn brosiect Wikipedia cyntaf y byd i gwmpasu tref gyfan, sef Monmouthpedia. Mae'r prosiect yn ymdrin â lleoedd nodedig, pobl, arteffactau, fflora, ffawna a phethau eraill yn Nhrefynwy mewn cymaint o ieithoedd â phosibl, gyda ffocws arbennig ar y Gymraeg.³³⁹

Mae treftadaeth adeiledig Trefynwy a'r cyffiniau yn cynnwys Gardd Nelson, Neuadd y Sir, Neuadd y Farchnad, Pont Fynwy, a sgwâr Agincourt.

Mae gan Drefynwy a'r cyffiniau hefyd mangre gelfyddydol, gwyliau a digwyddiadau ffyniannus. Mae canol y dref yn gartref i gasgliad o bwys cenedlaethol a rhyngwladol o ddeunydd Nelson, theatr a sinema. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r Neuadd Sir fel atyniad diwylliannol newydd ac amgueddfa. Mae gwyliau a digwyddiadau'n cynnwys Sioe amaethyddol flynyddol Sir Fynwy a Gŵyl Drefynwy, gŵyl gerddoriaeth naw diwrnod am ddim.

Yn dilyn buddsoddiad sylweddol, mae'r ganolfan hamdden yn Nhrefynwy wedi uwchraddio ei chyfleusterau ffitrwydd a chwaraeon ac mae hefyd yn cynnig canolfan chwarae i blant oed ysgol gynradd. Mae Clwb Rhwyfo Trefynwy wedi'i leoli ar lan yr afon Gwy ac mae'n darparu ar gyfer aelodaeth y clwb yn ogystal â chlwb rhwyfo 3 ysgol.


Mae'r amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyfleuster chwaraeon yn yr ardal bron ddwywaith cymaint ag un Gymru (109 munud o'i gymharu â 55 munud), yr ail amser hiraf yn Sir


Fynwy, ac mae'n yr ardal sydd â'r amser teithio cyhoeddus hiraf i lyfrgell gyhoeddus yn Sir Fynwy, sef 83 munud. Mae hyn hefyd yn wir am deithio preifat (18 munud).

Ymatebion ymgysylltu

Mae crynodeb o'r ymatebion o'r ardal i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd wedi eu darparu. Er mwyn gwneud hyn yn hawdd i ddadansoddi llawer o'r atebion amrywiol a roddwyd i'r cwestiynau pen - agored a ofynnwyd, rhoddwyd y sylwadau mewn categorïau neu themâu. Mae hyn yn caniatáu ni adnabod rhai o'r themâu mwyaf cyffredin yr oedd unigolion yn yr ardal wedi eu nodi.

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y themâu a ddefnyddiwyd er mwyn categorïddio'r sylwadau, a lle bo'n briodol, mae'n nodi os oeddynt yn bositif neu'n negatïf.





Glannau Hafren

Llesiant Amgylcheddol

Mae ardal Glannau Hafren yn cynnwys sawl ardal o boblogaeth yn ne'r sir – gan gynnwys Porthysgewin, Cil-y-coed, Llanfihangel Rogiet, Magwyr a Gwndy – ac mae ganddi hefyd y brif reilffordd i Dde Cymru a thraffordd yr M4. Mae'r dirwedd ar hyd y parth arfordirol yn bennaf yn wastad, gyda chaeau cynhyrchiol o diroedd amaethyddol Gradd 2 a 3, wedi'u ffinio gan rewynau traddodiadol i ddraenio'r tir isel, wedi'u hamddiffyn rhag llifogydd arfordirol gan glawdd llifogydd.³⁴⁰ Mae'r tir yn codi i'r gogledd i gyfres o fryniau isel cyn codi ymhellach i gyfeiriad Coed Gwent.

Mae gan Lannau Hafren asedau amgylcheddol helaeth, y mae rhai ohonynt yn elwa o warchodaeth ryngwladol, ac mae cynefinoedd yn cynnwys morol, dŵr croyw, glaswelltir llawn rhywogaethau a choetir hynafol. Fel y disgrifir yn adran Cas-gwent a Gwy Isaf, mae Aber Afon Hafren o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer adar dŵr sy'n gaeafu ac yn ymfudo, morfeydd heli, banciau tywod agored, mannau bwydo pysgod ac amrediad llanw naturiol anarferol o fawr sy'n dylanwadu ar y rhywogaethau a geir yma. Mae'r aber wedi'i diogelu fel safle Ramsar, a oruchwylir gan y Cenhedloedd Unedig, yn ogystal ag Ardal Cadwraeth Arbennig a warchodir gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd.³⁴¹



Aber Afon Hafren

Mae 8 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n amddiffyn ardal Gwastadeddau Gwent i greu darn mawr o dir â chysylltiadau da a rhewynau cysylltiedig. Mae'r SoDdGA yn ymgorffori'r aber, coetir, tir amaeth gwlyb a ffosydd draenio, gwlypdir a chors a dôl.³⁴² Mae SoDdGA Gwastadeddau Gwent wedi gweld ailgyflwyno llygoden y dŵr yn llwyddiannus, sydd wedi lledaenu ymhell y tu hwnt i'r safleoedd ailgyflwyno. Mae'r Gwastadeddau hefyd yn cynnal dyfrgwn a llawer o rywogaethau eraill, ac mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn gweithio ar Brosiect Cardwenynen Feinlais i gynnal poblogaeth Sir Fynwy o'r gacynen brin hon. Mae 31 o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur yn yr ardal hon, llawer ohonynt yn ddolydd a glaswelltir ac yn helpu i ddarparu adnodd llawn blodau ar gyfer y rhywogaeth bwysig hon a phryfed peillio eraill.

Mae'r Bartneriaeth Lefelau Byw yn rhaglen sydd yn cael ei hariannu gan y loteri er mwyn hyrwyddo ac ymgysylltu pobl gyda'r dreftadaeth, bywyd gwyllt a phrydferthwch naturiol tirwedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent.³⁴³ Mae hyn yn cynnwys cadw a diogelu tua 5,700 hectar o dir, gan gynnwys llawer o'r Ardal Glan Hafren ac mae'n gymysgedd o gynefinoedd fel gorlifdiroedd arfordirol, rhewynau, morfeydd heli a gwastadeddau llaid.

Fodd bynnag, daw bygythiad mawr i gadernid amgylcheddol yn yr ardal hon o ddatblygiadau pellach, a fyddai'n lleihau maint yr ardaloedd naturiol yn ogystal ag o bosibl yn chwalu cynefinoedd sydd â chysylltiadau da ar hyn o bryd. Mae pryderon ynghylch datblygiad pellach o ganlyniad i ffordd liniaru arfaethedig yr M4 wedi cilio nawr bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y cynnig hwnnw, wedi cael gwared ar y coridor ar gyfer llwybr priffordd arfaethedig, ac wedi ailadrodd eu cynlluniau ar gyfer dim cynlluniau adeiladu ffyrdd mawr newydd.³⁴⁴

Mae bygythiadau eraill i fywyd gwyllt, eiddo a seilwaith yr ardal hon yn cynnwys llifogydd a gorlifo gan ddŵr hallt o Aber Afon Hafren. Mae llawer o'r Gwastadeddau'n cael eu hamddiffyn gan amddiffynfeydd rhag llifogydd, ac mae trafodaethau ynghylch cynnal a chadw'r rhain yn mynd rhagddynt gyda CNC. Mae ansicrwydd ynghylch graddau'r cynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol, ond gyda modelau'n rhagweld cynnydd rhwng 22 a 28cm yng Nghaerdydd erbyn 2050 ac o bosibl 43-76cm erbyn 2080 o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, mae'r perygl o lifogydd arfordirol yn cynyddu.³⁴⁵ Mae cynnydd yn lefel y môr hefyd yn fygythiad i'r morfeydd heli a'r gwastadeddau llaid sy'n gwneud Aber Afon Hafren mor werthfawr i fywyd gwyllt gan fod ymchwil yn awgrymu bod 77% o'r rhain yn wynebu cael eu 'gwasgu' yn erbyn amddiffynfeydd môr presennol gan achosi symudiad o waddod a cholled cynefinoedd i filoedd o adar hirgoes.³⁴⁶

